



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

PISA 2025: adroddiad cenedlaethol Cymru

Adroddiad ymchwil Medi 2026

**Awduron: Athrofa Addysg UCL a
Chanolfan Prifysgol Rhydychen ar
gyfer Asesu Addysg, Yr Adran Addysg,
Prifysgol Rhydychen**

Cynnwys

Cydnabyddiaethau	9
Crynodeb Gweithredol	10
Cyflwyniad	10
Perfformiad mewn gwyddoniaeth	11
Perfformiad mewn darllen	12
Perfformiad mewn mathemateg	12
Amrywiadau o ran sgorau PISA yn ôl nodweddion dysgwyr	13
PISA yn y DU	15
1 Cyflwyniad i PISA	16
1.1 Beth yw PISA?	16
1.2 Pwy gymerodd ran yn PISA?	17
1.2.1 Cyfranogiad Cymru yn PISA	17
1.3 Beth mae PISA yn ei fesur?	17
1.3.1 Fframweithiau asesu PISA 2025	18
1.3.2 Holiaduron PISA	20
1.3.3 Asesiad PISA	21
1.3.4 Dylunio a samplu astudiaeth PISA	21
1.4 Dehongli data o PISA: canllaw i ddarllenwyr	23
1.4.1 Gwallau samplu a mesur	23
1.4.2 Arwyddocâd ystadegol	23
1.4.3 Trefn restrol	23
1.4.4 Cymharu grwpiau o ddysgwyr	24
1.4.5 Termau ystadegol	24
1.4.6 PISA a phandemig COVID-19	26
1.4.7 Cyfraddau ymateb PISA 2025 i Gymru	26
1.4.8 Dewis gwledydd cymharol a chyfartaleddau'r OECD at ddibenion cymharu	28
1.5 Trefn yr adroddiad hwn	28
2 Perfformiad mewn gwyddoniaeth	30
2.1 Trosolwg o'r bennod	30
2.2 Canfyddiadau allweddol	30

2.3	Cyflwyniad i wyddoniaeth yn PISA	31
2.4	Perfformiad dysgwyr yng Nghymru mewn gwyddoniaeth	31
2.5	Perfformiad gwyddoniaeth dros amser	33
2.6	Y gwahaniaethau rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf mewn gwyddoniaeth	36
2.7	Perfformiad ar draws lefelau hyfedredd gwyddoniaeth	43
3	Perfformiad mewn darllen	47
3.1	Trosolwg o'r bennod	47
3.2	Canfyddiadau allweddol	47
3.3	Cyflwyniad i ddarllen yn PISA	48
3.4	Perfformiad dysgwyr yng Nghymru mewn darllen	48
3.5	Perfformiad darllen dros amser	50
3.6	Y gwahaniaethau rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf mewn darllen	53
3.7	Perfformiad ar draws lefelau hyfedredd darllen	59
4	Perfformiad mewn mathemateg	63
4.1	Trosolwg o'r bennod	63
4.2	Canfyddiadau allweddol	63
4.3	Cyflwyniad i fathemateg yn PISA	64
4.4	Perfformiad dysgwyr yng Nghymru mewn mathemateg	64
4.5	Perfformiad mathemateg dros amser	66
4.6	Y gwahaniaethau rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf mewn mathemateg	69
4.7	Perfformiad ar draws lefelau hyfedredd mathemateg	75
5	Tegwch a Chynhwysiant – Rhywedd	79
5.1	Trosolwg o'r Bennod	79
5.2	Canfyddiadau allweddol	79
5.2.1	Gwyddoniaeth	79
5.2.2	Darllen	80
5.2.3	Mathemateg	80
5.3	A oedd gwahaniaeth o ran perfformiad gwyddoniaeth yn ôl rhywedd?	81
5.3.1	Sut gwnaeth merched yng Nghymru berfformio mewn gwyddoniaeth?	81
5.3.2	Sut gwnaeth bechgyn yng Nghymru berfformio mewn gwyddoniaeth?	81

5.3.3	Beth mae PISA yn ei ddweud wrthym am berfformiad merched mewn gwyddoniaeth?	82
5.3.4	Beth mae PISA yn ei ddweud wrthym am berfformiad bechgyn mewn gwyddoniaeth?	84
5.3.5	Sut mae bylchau rhywedd mewn perfformiad gwyddoniaeth wedi newid dros amser?	84
5.3.6	Sut gwnaeth merched a bechgyn yng Nghymru berfformio ar y 10fed a'r 90ain canradd mewn gwyddoniaeth?	89
5.3.7	I ba raddau y llwyddodd merched a bechgyn yng Nghymru i gyrraedd y lefelau hyfedredd PISA uchaf ac isaf mewn gwyddoniaeth o gymharu â chyfartaleddau'r OECD a'r gwledydd cymharol?	92
5.3.8	I ba raddau y llwyddodd merched a bechgyn yng Nghymru i gyrraedd y lefelau hyfedredd PISA uchaf ac isaf mewn gwyddoniaeth yn y 4 cylch diweddaraf?	96
5.4	A oedd gwahaniaeth o ran perfformiad darllen yn ôl rhywedd?	99
5.4.1	Sut gwnaeth merched yng Nghymru berfformio mewn darllen?	99
5.4.2	Sut gwnaeth bechgyn yng Nghymru berfformio mewn darllen?	99
5.4.3	Beth mae PISA yn ei ddweud wrthym am berfformiad merched mewn darllen?	100
5.4.4	Beth mae PISA yn ei ddweud wrthym am berfformiad bechgyn mewn darllen?	102
5.4.5	Sut mae bylchau rhywedd mewn perfformiad darllen wedi newid dros amser?	103
5.4.6	Sut gwnaeth merched a bechgyn yng Nghymru berfformio ar y 10fed a'r 90ain canradd mewn darllen?	106
5.4.7	I ba raddau y llwyddodd merched a bechgyn yng Nghymru i gyrraedd y lefelau hyfedredd PISA uchaf ac isaf mewn darllen o gymharu â chyfartaleddau'r OECD a'r gwledydd cymharol?	109
5.4.8	I ba raddau y llwyddodd merched a bechgyn yng Nghymru i gyrraedd y lefelau hyfedredd PISA uchaf ac isaf mewn darllen yn y 4 cylch diweddaraf?	113
5.5	A oedd gwahaniaeth o ran perfformiad mathemateg yn ôl rhywedd?	116
5.5.1	Sut gwnaeth merched yng Nghymru berfformio mewn mathemateg?	116
5.5.2	Sut gwnaeth bechgyn yng Nghymru berfformio mewn mathemateg?	116
5.5.3	Beth mae PISA yn ei ddweud wrthym am berfformiad merched mewn mathemateg?	117

5.5.4	Beth mae PISA yn ei ddweud wrthym am berfformiad bechgyn mewn mathemateg?	119
5.5.5	Sut mae bylchau rhywedd o ran perfformiad mathemateg wedi newid dros amser yng Nghymru, yn y grwpiau cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD?	121
5.5.6	Sut gwnaeth merched a bechgyn yng Nghymru berfformio ar y 10fed a'r 90ain canradd mewn mathemateg?	124
5.5.7	I ba raddau y llwyddodd merched a bechgyn yng Nghymru i gyrraedd y lefelau hyfedredd PISA uchaf ac isaf mewn mathemateg o gymharu â chyfartaledd yr OECD a'r gwledydd cymharol?	127
5.5.8	I ba raddau y llwyddodd merched a bechgyn yng Nghymru i gyrraedd y lefelau hyfedredd PISA uchaf ac isaf mewn mathemateg yn y 4 cylch diweddaraf?	131
6	Tegwch a Chynhwysiant – Statws economaidd-gymdeithasol	135
6.1	Trosolwg o'r Bennod	135
6.2	Canfyddiadau allweddol: Gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol	135
6.3	Mesurau o statws economaidd-gymdeithasol yng Nghymru	136
6.3.1	Mynegai ESCS	136
6.3.2	Prydau ysgol am ddim	137
6.4	Dadansoddiad o'r berthynas rhwng statws economaidd-gymdeithasol a pherfformiad	138
6.4.1	Mesur y gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad, ar gyfartaledd, rhwng dysgwyr â statws economaidd-gymdeithasol uchel a'r rhai â statws economaidd-gymdeithasol isel gan ddefnyddio data prydau ysgol am ddim	138
6.4.2	Mesur y gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad, ar gyfartaledd, rhwng dysgwyr â statws economaidd-gymdeithasol uchel a'r rhai â statws economaidd-gymdeithasol isel gan ddefnyddio Mynegai ESCS	139
6.4.3	Mesur i ba raddau y mae sgorau pwnc dysgwyr yn cyfateb i'w sgôr mynegai ESCS (graddiant y llethr)	139
6.4.4	Mesur yr amrywiad rhwng dysgwyr â statws economaidd-gymdeithasol tebyg	139
6.4.5	Cyfrifo canran y dysgwyr oedd 'yn wydn yn academiaidd'	140
6.5	Beth yw'r berthynas rhwng statws economaidd-gymdeithasol a pherfformiad gwyddoniaeth yn PISA yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac yng nghyfartaledd yr OECD?	140
6.5.1	Perfformiad gwyddoniaeth yn ôl cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim	140

6.5.2	Cryfder y berthynas rhwng ESCS a sgorau gwyddoniaeth PISA (graddiant y llethr)	142
6.5.3	Amrywiad o ran sgorau gwyddoniaeth rhwng dysgwyr â chefnidiroedd tebyg	142
6.5.4	Canran y dysgwyr mewn gwyddoniaeth a oedd 'yn wydn yn academiaidd'	143
6.5.5	Sut gwnaeth dysgwyr yng Nghymru berfformio ar y 10fed a'r 90ain canradd mewn gwyddoniaeth yn ôl chwarterl ESCS?	143
6.5.6	I ba raddau y llwyddodd dysgwyr yng Nghymru i gyrraedd y lefelau hyfedredd PISA uchaf ac isaf mewn gwyddoniaeth yn ôl chwarterl ESCS?	144
6.6	Beth yw'r berthynas rhwng statws economaidd-gymdeithasol a pherfformiad darllen yn PISA yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac yng nghyfartaledd yr OECD?	147
6.6.1	Perfformiad darllen yn ôl cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim	147
6.6.2	Ystod o ran perfformiad darllen rhwng Chwarterl 1 a Chwarterl 4 ESCS yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD	148
6.6.3	Cryfder y berthynas rhwng ESCS a sgorau darllen PISA (graddiant y llethr)	150
6.6.4	Amrywiad o ran sgorau darllen rhwng dysgwyr â chefnidiroedd tebyg	150
6.6.5	Canran y dysgwyr darllen sydd 'yn wydn yn academiaidd'	150
6.7	Beth yw'r berthynas rhwng statws economaidd-gymdeithasol a pherfformiad mathemateg yn PISA yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac yng nghyfartaledd yr OECD?	150
6.7.1	Perfformiad mathemateg yn ôl cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim	151
6.7.2	Ystod o ran perfformiad mathemateg rhwng Chwarterl 1 a Chwarterl 4 ESCS yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD	151
6.7.3	Cryfder y berthynas rhwng ESCS a sgorau mathemateg PISA (graddiant y llethr)	153
6.7.4	Amrywiad rhwng dysgwyr mathemateg â chefnidiroedd tebyg	153
6.7.5	Canran y dysgwyr mathemateg sydd 'yn wydn yn academiaidd'	153
6.8	A oes gwahaniaeth o ran perfformiad yn ôl statws mewnfudo?	153
6.8.1	Gwyddoniaeth	154
6.8.2	Darllen	155
6.8.3	Mathemateg	156

7	PISA ar draws y Deyrnas Unedig	157
7.1	Trosolwg o'r bennod	157
7.2	Canfyddiadau allweddol	157
7.3	Cyflwyniad	158
7.4	Sut gwnaeth dysgwyr berfformio ym mhob maes?	158
7.4.1	Gwyddoniaeth	158
7.4.2	Darllen	158
7.4.3	Mathemateg	158
7.5	Sut gwnaeth dysgwyr berfformio ar draws lefelau hyfedredd PISA?	159
7.5.1	Gwyddoniaeth	160
7.5.2	Darllen	161
7.5.3	Mathemateg	162
7.6	Sut gwnaeth dysgwyr berfformio dros amser?	164
7.6.1	Gwyddoniaeth	164
7.6.2	Darllen	165
7.6.3	Mathemateg	166
7.7	Sut gwnaeth y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf gyflawni?	168
7.7.1	Gwyddoniaeth	168
7.7.2	Darllen	168
7.7.3	Mathemateg	168
7.8	Sut gwnaeth merched a bechgyn berfformio?	170
7.8.1	Gwyddoniaeth	170
7.8.2	Darllen	171
7.8.3	Mathemateg	172
7.9	Beth oedd y berthynas rhwng statws economaidd-gymdeithasol a pherfformiad dysgwyr?	173
7.9.1	Gwyddoniaeth	173
7.9.2	Darllen	173
7.9.3	Mathemateg	173
8	Casgliad	176
	Atodiad A: Dadansoddiad o'r duedd diffyg ymateb yng Nghymru	177

A.1 Cyflwyniad	177
A.1.1 Beth yw dadansoddiad o'r duedd diffyg ymateb?	177
A.1.2 Sut cafodd ysgolion a dysgwyr eu dewis i gymryd rhan yn PISA?	177
A.1.3 Cwestiynau allweddol am sampl genedlaethol Cymru	178
A.2 Methodoleg	179
A.2.1 Dadansoddiadau ar lefel ysgolion	179
A.2.2 Dadansoddiadau ar lefel dysgwyr	180
A.2.3 Dadansoddiad ystadegol	180
A.3 Cymharu ysgolion a gymerodd ran ac ysgolion na wnaethant gymryd rhan	180
A.3.1 Dadansoddiad o'r sampl wreiddiol (cyn cynnwys yr ysgolion wrth gefn)	180
A.4 Dadansoddiad o'r sampl derfynol a gymerodd ran (gan gynnwys yr ysgolion wrth gefn)	184
A.5 Cymharu dysgwyr a gymerodd ran a dysgwyr na wnaethant gymryd rhan	187
A.5.1 Dadansoddi dysgwyr (gan ddefnyddio pwysoliadau sylfaenol dysgwyr)	1877
A.5.2 Dadansoddi dysgwyr (gan ddefnyddio pwysoliadau wedi'u haddasu ar gyfer diffyg ymateb)	189
A.6 Crynodeb	191
Atodiad B: Rhestr o'r gwledydd a gymerodd ran yn PISA 2025	192
Atodiad C: Tegwch a Chynhwysiant – tablau a siartiau atodol	194
Rhestr o ffigurau	202
Rhestr o dablau	207

Cydnabyddiaethau

Mae'r adroddiad hwn yn ffrwyth llafur tîm gwirioneddol fyd-eang. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r nifer mawr o ddysgwyr ac athrawon a gymerodd ran ac am eu hamser a'u hymdrech wrth gwblhau'r asesiadau a'r holiaduron ar gyfer PISA 2025. Ni fyddai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl hebddynt.

Rydym yn ddiolchgar i bob un o aelodau Consortiwm Rhyngwladol PISA, y mae eu gwaith caled a'u cymorth wedi cyfrannu at lwyddiant trefniadau gweithredu PISA 2025. Hoffem ddiolch hefyd i'n cydweithwyr yn yr OECD am eu harbenigedd a'u cymorth.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r arweiniad a gawsom ar bob cam o'r astudiaeth gan ein cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn arbennig Sarah Crocker, Rhys Castle Jones, Alexia Hockett a Lisa Weighell.

Tîm Pearson oedd yn gyfrifol am reoli'r broses o recriwtio ysgolion, a chasglu, sgorio a gwirio'r data. Felly rydym yn ddiolchgar i Dr Grace Grima, Dr Alistair Hooper, Lucian Lanteri, Kate Miller, Mish Mohan a Sarah Turner am arwain yr holl agweddau hyn ar y gwaith; hefyd i Carole Caple, Karen Gordon, Vasu Krishnaswamy, Liz Mangan, Steven Russell, Samantha Wilson a Christopher Wymbs, yr arweinwyr tîm ar gyfer y broses sgorio ac i bob un o'r sgorwyr gweithgar yn Pearson.

Yn Athrofa Addysg UCL, hoffem ddiolch i'n cydweithwyr am eu mewnbwn a'u hadborth arbenigol gan gynnwys yr Athro Michael Reiss, yr Athro Eirini Geraniou, Dr Wilton Lodge a Dr Sinead Harmey. Yng Nghanolfan Prifysgol Rhydychen ar gyfer Asesu Addysg (OUCEA) rydym yn ddiolchgar i'n cydweithwyr am eu harweiniad arbenigol, gan gynnwys yr Athro Jo-Anne Baird, yr Athro Sibel Erduran a'r Athro Rebecca Eynon.

Nodiadau i ddarllenwyr

Byddem yn cynghori darllenwyr ag amhariad ar eu golwg y mae angen darlennydd sgrin arnynt i ddarllen yr adroddiad hwn i addasu eu gosodiadau i gynnwys cyfleuster sy'n darllen marciau atalnodi yn uchel gan fod sêr ac arwyddion tynnu yn cael eu defnyddio drwy gydol yr adroddiad.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar Gronfa Ddata Ryngwladol yr OECD ar gyfer PISA 2025 ac mae'n gywir ar 7 Gorffennaf 2026.

Dyfyniadau

Richardson, M., Wilkinson, D., Maris, R., Barnes, I., Swensson, C., Ingram, J., Hillier, J. a Stiff, J. (2026) *PISA 2025: Adroddiad Cenedlaethol Cymru* (Medi 2026). Caerdydd: Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru.

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Mae'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn asesu gwybodaeth a sgiliau dysgwyr 15 oed¹ mewn gwledydd ledled y byd mewn gwyddoniaeth, darllen a mathemateg. Caiff PISA ei chynnal gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), ac fel arfer cynhelir yr asesiad bob 3 blynedd, gan alluogi'r gwledydd i nodi sut mae perfformiad yn newid dros amser ac ar draws gwahanol wledydd. Cynhaliwyd PISA 2022 bedair blynedd ar ôl yr asesiad blaenorol yn 2018 oherwydd pandemig byd-eang COVID-19. Mae PISA 2025 yn dychwelyd i'r cylch 3 blynedd ac yn cynnwys 91 o wledydd, gan gynnwys y Deyrnas Unedig – ceir rhestr lawn o'r gwledydd a gymerodd ran yn Atodiad B.

Mae'r adroddiad hwn, sef Cyfrol 1 o Adroddiad Cenedlaethol Cymru, yn dadansoddi perfformiad dysgwyr mewn tri maes pwnc, sef gwyddoniaeth, darllen a mathemateg. Gwyddoniaeth oedd y maes craidd ar gyfer 2025. Bydd Cyfrol 2² yn dadansoddi eu perfformiad wrth ddatrys problemau cyfrifiadurol, yn crynhoi'r ymatebion i holiaduron PISA, ac yn archwilio detholiad o ganfyddiadau o Gyfrol 1 ymhellach.

Yng Nghymru, cwblhaodd 3,406 o ddysgwyr 15 oed o 113 o ysgolion asesiad 2 awr o hyd ar sgrin a holiadur i ddysgwyr a gymerodd tua 30 munud i'w gwblhau. Gellid sefyll asesiadau PISA yng Nghymru yn Gymraeg, yn Saesneg neu mewn cyfuniad o'r ddwy iaith³. Cynhaliwyd yr asesiadau yn ystod mis Medi a mis Hydref 2025, ac roedd disgwyl i'r dysgwyr a gymerodd ran sefyll eu harholiadau TGAU yn 2026. Mae Cymru wedi cymryd rhan ym mhob un o gylchoedd PISA ers yr un cyntaf yn 2000.

Wrth ddarllen yr adroddiad hwn, mae'n bwysig cofio er bod Cymru wedi cyrraedd y safonau technegol sy'n ofynnol ar gyfer PISA, nad yw'r sampl o gyfranogwyr yng Nghymru o bosibl yn cynrychioli pob dysgwr 15 oed yng Nghymru yn llwyr. Mae hyn, i ryw raddau, bob amser yn wir gydag astudiaethau rhyngwladol fel PISA. Yn achos Cymru, dangosodd y Dadansoddiad o'r Duedd Diffyg Ymateb (NRBA) fod y sampl yng Nghymru yn cynrychioli ysgolion a dysgwyr yn dda. Mae'r materion sy'n gysylltiedig â diffyg ymateb, i Gymru ac i systemau addysg eraill a gymerodd ran, yn golygu bod yn rhaid bod yn arbennig o ofalus wrth ystyried tueddiadau o ran perfformiad dros amser ac wrth lunio cymariaethau rhyngwladol. Gellir dod i gasgliadau mwy hyderus wrth gymharu grwpiau o ddysgwyr yng Nghymru, lle nad ydym yn ceisio cyffredinol y tu hwnt i'n sampl (ceir dadansoddiad o'r fath ym Mhennod 5, lle ceir esboniad manylach).

¹ Cyfeiriwch at Bennod 1 yn y Gyfrol hon i gael disgrifiad manylach o ystod oedran PISA.

² Disgwylir iddi gael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2026.

³ Cwblhaodd 2,969 o ddysgwyr yr holl asesiadau yn Saesneg; cwblhaodd 427 o ddysgwyr yr holl asesiadau yn Gymraeg; cwblhaodd 10 o ddysgwyr yr asesiadau gan ddefnyddio cyfuniad o'r Gymraeg a'r Saesneg.

Defnyddir y termau 'arwyddocaol' neu 'sylweddol' drwy gydol yr adroddiad hwn i gyfeirio at wahaniaethau sy'n arwyddocaol yn ystadegol rhwng sgorau neu werthoedd. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio 'lefel hyder o 95%' i ddiffinio arwyddocâd ystadegol, sy'n golygu bod tebygolrwydd o lai nag 1 mewn 20 bod y canfyddiad yn deillio o wall samplu neu wall mesur. Yn yr un modd, defnyddir y term cyfartalog, er enghraifft 'sgôr gyfartalog', i gyfeirio at y cymedr ystadegol ar gyfer y grŵp perthnasol, oni nodir yn wahanol. Mae'r 35 o wledydd tuedd yr OECD yn PISA 2025 yn cynnwys y gwledydd hynny sy'n rhan o'r OECD sydd wedi cymryd rhan ym mhob cylch ers PISA 2015, ac eithrio Costa Rica a Sbaen⁴.

Perfformiad mewn gwyddoniaeth

Cyflawnodd dysgwyr yng Nghymru sgôr gyfartalog o 476 mewn gwyddoniaeth yn PISA 2025, a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 482. Yng Nghymru, nid oedd sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr yn 2025 yn sylweddol wahanol i'r sgôr o 473 yn PISA 2022 na'r sgôr o 485 yn PISA 2015, ond roedd yn sylweddol is na'r sgôr o 488 yn PISA 2018.

Cyfartaledd tuedd yr OECD yn 2025 oedd 484 nad oedd yn sylweddol wahanol i'r sgorau o 487 yn 2022 na 489 yn 2018, ond roedd yn sylweddol is na'r sgôr o 491 yn PISA 2015.

Roedd sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr mewn 54 o wledydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd a gyflawnwyd gan ddysgwyr yng Nghymru, ac mewn 11 o wledydd eraill, nid oedd y sgôr gwyddoniaeth gyfartalog yn sylweddol wahanol i'r sgôr yng Nghymru. Ym mhob un o'r 25 o wledydd eraill, roedd sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr yn sylweddol uwch na sgôr gyfartalog dysgwyr yng Nghymru.

Roedd y rhan fwyaf o'r gwledydd â pherfformiad uchel yn Nwyrain Asia: rhanbarthau Beijing, Shanghai, Jiangsu, a Zhejiang yn Tsieina (B-S-J-Z (Tsieina)) (597), Singapore (560), Macao (541), Taiwan (540), Japan (538), De Korea (526), a Hong Kong (496). Y gwledydd Ewropeaidd yr oedd sgôr gwyddoniaeth gyfartalog eu dysgwyr yn sylweddol uwch na sgôr dysgwyr yng Nghymru yn 2025 oedd Estonia (527), y Ffindir (504), y Swistir (501), Gweriniaeth Iwerddon (500), Awstria (497), Gwlad Pwyl (495), y Weriniaeth Tsiec (490), Gwlad Belg (490), Lithwania (488), yr Almaen (486), yr Iseldiroedd (485), Sweden (485), a Slofenia (484).

Mae PISA hefyd yn disgrifio perfformiad o ran hyfedredd, gyda lefelau hyfedredd uwch yn cynrychioli gwybodaeth a sgiliau gwell yn y maes pwnc. Ystyrir nad yw dysgwyr sy'n perfformio islaw Lefel hyfedredd 2 yn PISA wedi cyflawni'r lefel hyfedredd sylfaenol sydd ei hangen er mwyn gallu cymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Yng Nghymru, llwyddodd 6% o ddysgwyr i gyrraedd y lefelau hyfedredd uchaf (Lefelau 5 neu 6), a oedd yn sylweddol is

⁴ Ar gyfer Sbaen a Costa Rica, nid yw'r data sydd eu hangen ar gyfer cymariaethau tuedd penodol ar gael ar draws pob cylch. I gael rhagor o fanylion am ddehongli data PISA, gweler Pennod 1 o'r Gyfrol hon.

na chyfartaledd yr OECD, sef 7%. Yng Nghymru, roedd 27% o'r dysgwyr yn gweithio'n unol â'r lefelau hyfedredd is (islaw Lefel 2) nad oedd yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD, sef 26%.

Perfformiad mewn darllen

Cyflawnodd dysgwyr yng Nghymru sgôr gyfartalog o 459 mewn darllen yn PISA 2025, nad oedd yn sylweddol wahanol i sgôr gyfartalog yr OECD, sef 461. Nid oedd sgôr darllen gyfartalog dysgwyr yn 2025 yn sylweddol wahanol i'r sgôr o 466 yn 2022, ond roedd yn sylweddol is na'r sgôr o 483 yn 2018 a'r sgôr o 477 yn 2015. Cyfartaledd tuedd yr OECD yn 2025 oedd 463 a oedd yn sylweddol is na'r sgorau yn 2022 (477), 2018 (488) a 2015 (490).

I'r gwrthwyneb i Gymru, profodd y rhan fwyaf o'r gwledydd â pherfformiad uchel ostyngiadau a oedd yn arwyddocaol yn ystadegol o ran sgorau darllen cyfartalog eu dysgwyr rhwng PISA 2022 a 2025. Er enghraifft, yn Hong Kong (-20), y Weriniaeth Tsiec (-20), Sweden (-21), Hwngari (-21), Croatia (-22), Sbaen (-23), Norwy (-24), Slofenia (-24), a Denmarc (-29), cafwyd gostyngiadau o 20 o bwyntiau sgôr neu fwy. Cafwyd gostyngiad sylweddol hefyd yn y cyfartaledd ar draws gwledydd tuedd yr OECD yn ystod y cyfnod hwn, o 477 yn PISA 2022 i 463 yn PISA 2025.

Roedd sgôr darllen gyfartalog dysgwyr mewn 58 o wledydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd a gyflawnwyd gan ddysgwyr yng Nghymru, ac mewn 11 o wledydd eraill, nid oedd y sgôr darllen gyfartalog yn sylweddol wahanol i'r sgôr yng Nghymru. Ym mhob un o'r 20 o wledydd eraill, roedd sgôr darllen gyfartalog dysgwyr yn sylweddol uwch na sgôr gyfartalog dysgwyr yng Nghymru.

Yng Nghymru, llwyddodd 4% o ddysgwyr i gyrraedd y lefelau hyfedredd darllen uchaf (Lefelau 5 neu 6), a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 6%. Yng Nghymru, roedd 31% o'r dysgwyr yn gweithio'n unol â'r lefelau hyfedredd is (islaw Lefel 2) nad oedd yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD, sef 31%.

Perfformiad mewn mathemateg

Cyflawnodd dysgwyr yng Nghymru sgôr gyfartalog o 456 mewn mathemateg yn PISA 2025, a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 463. Roedd sgôr mathemateg gyfartalog dysgwyr yn 2025 yn sylweddol is na'r sgorau cyfartalog yn PISA 2022 (466), 2018 (487) a 2015 (478).

Cyfartaledd tuedd yr OECD yn 2025 oedd 465, a oedd yn sylweddol is na chyfartaleddau tuedd yr OECD yn PISA 2022 (475), 2018 (490) a 2015 (487). Roedd sgôr mathemateg gyfartalog dysgwyr mewn 51 o wledydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd a gyflawnwyd gan ddysgwyr yng Nghymru, ac mewn 14 o wledydd eraill, nid oedd y sgôr mathemateg gyfartalog yn sylweddol wahanol i sgôr dysgwyr yng Nghymru. Ym mhob un o'r 24 o

wledydd eraill, roedd sgôr mathemateg gyfartalog dysgwyr yn sylweddol uwch na sgôr gyfartalog dysgwyr yng Nghymru.

Yng Nghymru, llwyddodd 6% o ddysgwyr i gyrraedd y lefelau hyfedredd mathemateg uchaf (Lefelau 5 neu 6), a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 8%. Yng Nghymru, roedd 36% o'r dysgwyr yn gweithio'n unol â'r lefelau hyfedredd is (islaw Lefel 2) nad oedd yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD, sef 35%.

Amrywiadau o ran sgorau PISA yn ôl nodweddion dysgwyr

Cafodd sgorau PISA dysgwyr mewn gwyddoniaeth, darllen a mathemateg eu dadansoddi yn ôl rhywedd, statws economaidd-gymdeithasol a statws mewnffido.

Yn 2025, cyflawnodd merched a bechgyn yng Nghymru sgorau cyfartalog o 476 a 475, yn y drefn honno, mewn gwyddoniaeth. Nid oedd y ddwy sgôr yn sylweddol wahanol i'r sgorau a gyflawnwyd yn 2022. Gwelwyd patrwm tebyg yng nghyfartaledd tuedd yr OECD heb unrhyw newidiadau sylweddol o ran sgorau merched na bechgyn rhwng 2022 a 2025.

Dros y tymor hwy, roedd sgorau gwyddoniaeth merched yng Nghymru yn sefydlog rhwng 2015 a 2025 ond roedd sgorau gwyddoniaeth bechgyn yn 2025 yn sylweddol is na'r sgorau a gyflawnwyd yn 2015. Roedd hyn hefyd yn wir am gyfartaleddau tuedd yr OECD ar gyfer merched a bechgyn.

Yng Nghymru yn PISA 2025, nid oedd bwlch rhywedd sylweddol mewn gwyddoniaeth, gan barhau â'r patrwm a welwyd yn y 3 chylch PISA blaenorol. Yn ystod yr un cyfnod, dangosodd cyfartaledd tuedd yr OECD fylchau rhywedd sylweddol yn 2025 a 2018 (o blaid merched) ac yn 2015 (o blaid bechgyn).

Yng Nghymru, cyflawnodd yr un ganran o ferched a bechgyn (6%) y lefelau hyfedredd gwyddoniaeth uchaf (Lefelau 5 neu 6) yn 2025 ac nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol ychwaith yng nghanran y merched (26%) a'r bechgyn (27%) a oedd yn perfformio islaw'r lefel hyfedredd gwyddoniaeth sylfaenol (Lefel 2).

Ar gyfer darllen, cyflawnodd merched a bechgyn yng Nghymru sgorau cyfartalog o 472 a 446, yn y drefn honno, yn 2025. Ar gyfer merched a bechgyn, nid oedd hyn yn sylweddol wahanol i'r sgorau a gyflawnwyd yn 2022. Fodd bynnag, roedd cyfartaleddau tuedd yr OECD ar gyfer sgorau merched a bechgyn yn 2025 yn sylweddol is na'r sgorau yn 2022.

Roedd perfformiad merched yng Nghymru yn sylweddol well na pherfformiad bechgyn o ran sgorau darllen cyfartalog yn 2025. Rhwng 2015 a 2025, roedd sgorau darllen merched yng Nghymru yn sefydlog ond cofnodwyd gostyngiad sylweddol ymhlith bechgyn, gan gyfrannu at gynydd sylweddol yn y bwlch rhywedd o 11 o bwyntiau yn 2015 i 26 o

bwyntiau yn 2025⁵. Fodd bynnag, gostyngodd cyfartaleddau tuedd yr OECD ar gyfer merched a bechgyn yn sylweddol dros yr un cyfnod.

Yng Nghymru, cyflawnodd canran sylweddol fwy o ferched y lefelau hyfedredd darllen uchaf o gymharu â bechgyn (5% a 3% ar Lefelau 5 neu 6) yn 2025 a chyflawnodd canran sylweddol lai islaw'r lefel hyfedredd gwyddoniaeth sylfaenol (25% o gymharu â 35% islaw Lefel 2).

Ar gyfer mathemateg, cyflawnodd merched a bechgyn yng Nghymru sgorau cyfartalog o 450 a 462, yn y drefn honno, yn 2025. Ar gyfer merched, roedd hyn yn sylweddol is na'r sgôr a gyflawnwyd yn 2022 ond, ar gyfer bechgyn, nid oedd y sgôr yn sylweddol wahanol. Roedd sgorau cyfartaledd tuedd yr OECD yn 2025 ar gyfer merched a bechgyn yn sylweddol is na'r rhai a welwyd yn 2022.

Yn 2025, perfformiodd bechgyn yn sylweddol well na merched o ran sgorau mathemateg cyfartalog, gan adlewyrchu'r perfformiad a welwyd yn PISA 2022 a 2015. Mae cyfartaleddau tuedd yr OECD yn dangos bod bechgyn wedi perfformio'n sylweddol well na merched ym mhob un o'r 4 cylch PISA diweddaraf. Roedd bwlch rhywedd sylweddol o ran y sgorau mathemateg cyfartalog o blaid bechgyn yng Nghymru yn 2025. Fodd bynnag, nid oedd y bwlch hwn yn sylweddol wahanol i'r bylchau a gofnodwyd yng nghylchoedd blaenorol PISA.

Ni chofnodwyd unrhyw wahaniaethau sylweddol yng nghanrannau'r merched a'r bechgyn a gyflawnodd y lefelau hyfedredd mathemateg uchaf (5% o gymharu â 7% ar Lefelau 5 neu 6) na chanrannau'r merched a'r bechgyn a berfformiodd islaw'r lefel hyfedredd mathemateg sylfaenol (38% o gymharu â 34% islaw Lefel 2).

O ran statws economaidd-gymdeithasol, ar draws y 3 maes, roedd sgorau'r grŵp lleiaf difreintiedig yn uwch na sgorau'r grŵp mwyaf difreintiedig. Mewn gwyddoniaeth, roedd gwahaniaeth o 65 o bwyntiau sgôr rhwng y grŵp mwyaf difreintiedig o ddysgwyr a'r grŵp lleiaf difreintiedig o ddysgwyr yng Nghymru yn 2025. Mewn darllen, roedd gwahaniaeth o 50 o bwyntiau sgôr ac mewn mathemateg roedd gwahaniaeth o 70 o bwyntiau sgôr. Ym mhob pwnc, roedd yr ystod sgorau yng Nghymru rhwng y dysgwyr mwyaf a lleiaf difreintiedig yn sylweddol gulach na'r ystod ar gyfer cyfartaledd yr OECD.

Cyflawnodd dysgwyr yng Nghymru a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sgorau cyfartalog mewn gwyddoniaeth, darllen a mathemateg a oedd yn sylweddol is na sgorau dysgwyr nad oeddent yn gymwys. Roedd y gwahaniaeth mewn perfformiad sy'n gysylltiedig â chynnydd un uned ym mynegai ESCS yn 2025 yn sylweddol is yng Nghymru ar draws y tri phwnc nag ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD. Mae hyn yn dangos bod statws economaidd-gymdeithasol yn cael llai o effaith ar gyrhaeddiad dysgwyr yng Nghymru nag ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD yn gyffredinol.

⁵ Cyfrifwyd y bylchau rhywedd o ran pwyntiau sgôr drwy dynnu'r sgôr gyfartalog ar gyfer bechgyn o'r sgôr gyfartalog ar gyfer merched (sgôr merched – sgôr bechgyn).

Roedd y sgorau gwyddoniaeth, darllen a mathemateg cyfartalog ar gyfer dysgwyr yng Nghymru â chefnidir mewnfudo ail genhedlaeth yn sylweddol uwch na'r sgorau cyfartalog ar gyfer dysgwyr â chefnidir mewnfudo cenhedlaeth gyntaf a dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr.

PISA yn y DU

Yn PISA 2025, roedd sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr yng Nghymru yn sylweddol is na'r sgorau cyfatebol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Yng Nghymru, ac ym mhob un o wledydd eraill y DU, roedd tuedd sefydlog o ran perfformiad gwyddoniaeth cyfartalog dysgwyr dros amser heb unrhyw wahaniaeth sgôr sylweddol rhwng y sgôr gyfartalog ar gyfer PISA 2015 o gymharu â'r sgôr gyfartalog yn 2025.

Yng Nghymru roedd tuedd sylweddol ar i lawr o ran sgorau darllen cyfartalog dysgwyr rhwng PISA 2015 a 2025, fel yng Ngogledd Iwerddon. Roedd sgorau darllen dysgwyr yn sefydlog yn Lloegr a'r Alban dros yr un cyfnod.

Dros yr un cyfnod, sef 2015-2025, roedd tuedd sylweddol ar i lawr hefyd o ran sgorau cyfartalog dysgwyr ar gyfer mathemateg yng Nghymru. Mae'r un duedd i'w gweld yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, ond arhosodd sgorau cyfartalog dysgwyr yn Lloegr yn sefydlog dros yr un cyfnod hwn.

Mewn gwyddoniaeth, roedd bwlch rhywedd sylweddol o blaid bechgyn yn Lloegr ond nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng sgorau gwyddoniaeth merched a bechgyn yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Roedd y gwahaniaethau rhywedd yn PISA 2025 yn gyson ar draws y 4 gwlad ar gyfer darllen, gyda merched yn cyflawni sgôr gyfartalog sylweddol uwch na bechgyn. Roedd bylchau rhywedd sylweddol o blaid bechgyn o ran sgorau mathemateg cyfartalog dysgwyr i'w gweld ym mhob gwlad ac eithrio Gogledd Iwerddon.

Fel mewn cylchoedd blaenorol, perfformiodd dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol llai difreintiedig yn well na'u cyfoedion o gefndiroedd mwy difreintiedig ar draws pob maes a phob gwlad.

1 Cyflwyniad i PISA

1.1 Beth yw PISA?

Mae'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn cynnal astudiaeth o ddysgwyr 15 oed ledled y byd wedi'i threfnu gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Mae PISA yn asesu'r wybodaeth a'r sgiliau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol er mwyn cymryd rhan mewn bywyd cymdeithasol ac economaidd, yn benodol mewn gwyddoniaeth, darllen a mathemateg. Mae PISA hefyd yn cynnig cyfle i gymryd rhan mewn asesiadau maes arloesol dewisol. Yn 2025, y maes hwn oedd Dysgu mewn Byd Digidol a chymerodd Cymru ran. Fel arfer, caiff PISA ei chynnal bob 3 blynedd; fodd bynnag, cynhaliwyd PISA 2022 bedair blynedd ar ôl yr asesiad blaenorol yn 2018 oherwydd pandemig byd-eang COVID-19. Mae PISA 2025 yn dychwelyd i'r cylch 3 blynedd.

Cafodd astudiaeth PISA 2025 ei chynnal gan Pearson ar ran Adran Addysg Llywodraeth Cymru. Athrofa Addysg UCL a Chanolfan Prifysgol Rhydychen ar gyfer Asesu Addysg (OUCEA) fu'n arwain y broses ddadansoddi a'r gwaith o lunio'r adroddiad i Gymru.

Casglwyd y data ar gyfer Cymru fel rhan o ymdrech ehangach ar y cyd â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig, ac er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Gymru, mae'r OECD yn cyflwyno adroddiadau ar gyfer y DU gyfan. Er mwyn galluogi gwledydd i nodi a monitro tueddiadau o ran perfformiad dysgwyr dros amser, cyflwynir pob sgôr pwnc PISA ar raddfa y gellir ei chymharu dros gylchoedd PISA. Mae pob gwlad a gymerodd ran yn derbyn canlyniadau manwl, sy'n ei galluogi i ddeall sut y perfformiodd gwahanol grwpiau o ddysgwyr, fel y rhai o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol. Mae data PISA hefyd yn galluogi llywodraethau i feincnodi polisi a pherfformiad addysg, i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth ac i ddysgu o bolisiâu ac arferion mewn gwledydd eraill.

Yn y bennod hon, rydym yn cyflwyno trosolwg o astudiaeth PISA gan gynnwys:

- gwybodaeth am wledydd eraill a gymerodd ran yn PISA
- disgrifiad o gyfranogiad Cymru yn y gorffennol
- canllaw ar ddehongli canlyniadau PISA, gan gynnwys manylion y broses o gynllunio'r astudiaeth, y broses casglu data a'r broses ddadansoddi
- trosolwg o strwythur yr adroddiad hwn

1.2 Pwy gymerodd ran yn PISA?

Mae'r nifer o wledydd yr OECD, gwledydd neu economïau cyswllt neu bartner (systemau addysg)⁶ sy'n cymryd rhan yn PISA wedi cynyddu o 43 yn y cylch cychwynnol yn 2000 i 91⁷ yng nghylch presennol PISA 2025 (OECD, 2025)⁸, a chymerodd mwy na 760,000 o ddysgwyr⁹ ran ledled y byd. O blith y 91, roedd 38 yn aelodau o'r OECD, gan gynnwys y DU¹⁰. Nodir yr holl gyfranogwyr yn Atodiad B.

1.2.1 Cyfranogiad Cymru yn PISA

Yng Nghymru, cwblhaodd 3,406 o ddysgwyr 15 oed¹¹ o 113 o ysgolion asesiad 2 awr o hyd ar sgrin a holiadur i ddysgwyr a gymerodd tua 30 munud i'w gwblhau. Gellid sefyll asesiadau PISA yng Nghymru fel a ganlyn:

- **yn Gymraeg** (cwblhaodd 427 o ddysgwyr yr holl asesiadau yn Gymraeg)
- **yn Saesneg** (cwblhaodd 2,969 o ddysgwyr yr holl asesiadau yn Saesneg)
- **cyfuniad o'r ddwy iaith** (Cwblhaodd 10 o ddysgwyr yr asesiadau gan ddefnyddio cyfuniad o'r Gymraeg a'r Saesneg)

Gofynnwyd i benaethiaid yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan gwblhau holiadur hefyd, a oedd yn gofyn cwestiynau am gyd-destun eu hysgol, eu staff a'u dysgwyr. Cwblhawyd yr asesiadau a'r holiaduron yn ystod mis Medi a mis Hydref 2025, ac roedd disgwyl i'r dysgwyr a gymerodd ran gwblhau eu harholiadau TGAU yn 2026. Mae Cymru wedi cymryd rhan ym mhob cylch ers astudiaeth gyntaf PISA yn 2000.

1.3 Beth mae PISA yn ei fesur?

Caiff gwyddoniaeth, darllen a mathemateg eu hasesu bob tro ond mae pob cylch PISA yn canolbwyntio'n benodol ar un o'r tri maes hyn – cyfeirir at y maes hwn fel y 'prif faes'. Y prif faes ar gyfer PISA 2025 oedd gwyddoniaeth, felly hefyd yn 2015 a 2006, a darllen a mathemateg oedd yr is-feysydd pwnc. Roedd PISA 2025 hefyd yn cynnwys asesiad Dysgu yn y Byd Digidol. Mae'r maes hwn yn mesur gallu dysgwyr i gymryd rhan mewn proses iteraidd o feithrin gwybodaeth a datrys problemau gan ddefnyddio adnoddau cyfrifiadurol¹².

⁶At ddiben yr adroddiad hwn, defnyddir y term gwlad ar gyfer pob cyfranogwr oni bai bod cyfeiriad penodol at system addysg.

⁷ Cymerodd 91 o wledydd ran yn yr asesiadau gwyddoniaeth a 90 yn yr asesiadau darllen a mathemateg. Ni chafodd y wlad dan sylw ei chynnwys yng nghyfrifiadau cyfartaledd tuedd yr OECD (gweler Adran 1.4.8)

⁸ Gweler [OECD \(2025\) Gwledydd ac economïau sydd wedi cymryd rhan yn PISA hyd yn hyn](#)

⁹ Dysgwyr yw'r term a ffefrir yng Nghymru, yn hytrach na disgyblion neu fyfyrwyr.

¹⁰ Cymerodd 91 o wledydd ran yn PISA 2025 ar gyfer gwyddoniaeth, cymerodd 90 o wledydd ran ar gyfer darllen a mathemateg.

¹¹ Mae [Safonau Technegol PISA 2025 yr OECD \(2025\)](#) yn nodi bod Poblogaeth Darged PISA yn cynnwys dysgwyr rhwng 15 oed a 3 mis (cyflawn) ac 16 oed a 2 fis (cyflawn) ar ddechrau'r cyfnod profi.

¹² Gweler [OECD \(2025\) Dysgu mewn Byd Digidol](#).

1.3.1 Fframweithiau asesu PISA 2025

Cafodd perfformiad dysgwyr ei asesu gan ddefnyddio mesurau a amlinellwyd yn y fframweithiau gwyddoniaeth, darllen a mathemateg. Mae'r fframweithiau yn amlinellu'r cymwyseddau (sgiliau) a ddatblygir drwy astudio pob un o'r pynciau hyn a'r wybodaeth y mae'n rhaid i ddysgwyr ei meithrin i ddangos y cymwyseddau hyn. Mae'r cymwyseddau hyn yn dynodi'r hyn y dylai dysgwyr ei wybod, ei werthfawrogi, a gallu ei wneud wrth gymhwyso gwybodaeth wyddonol, gwybodaeth am ddarllen a gwybodaeth fathemategol at gyd-destunau go iawn.

Defnyddiodd gwyddoniaeth fframwaith wedi'i ddiweddarau yn 2025 ond ni fu unrhyw newidiadau i'r fframweithiau darllen a mathemateg ers y fframweithiau a ddefnyddiwyd yng nghylch PISA 2022. Cafodd y fframwaith asesu gwyddoniaeth ei ehangu ers 2015, sef y tro diwethaf y cafodd gwyddoniaeth ei chynnwys fel y prif faes. Yn lle canolbwyntio ar y cysyniad o 'lythrennedd gwyddoniaeth' fel y gwnaed yn 2015, canolbwyntiwyd ar ganlyniadau cyffredinol addysg gwyddoniaeth, gan ei gysoni â'r fframweithiau darllen a mathemateg. Mae fframwaith gwyddoniaeth PISA 2025 ar gael ar [wefan yr OECD](#), ac mae'n cynnwys enghreifftiau o asesiadau gwyddoniaeth.

Mae'r fframwaith gwyddoniaeth yn disgrifio'r canlynol:

- y 3 phrif gymhwysedd gwyddoniaeth ac is-set o 3 chymhwysedd gwyddor yr amgylchedd a ddatblygir drwy addysg gwyddoniaeth
- y 3 math o wybodaeth sydd eu hangen i ddatblygu'r cymwyseddau hyn
- y 3 phrif gyd-destun lle bydd dysgwyr yn defnyddio'r cymwyseddau
- agweddau ar hunaniaeth gwyddoniaeth yr ystyrir eu bod yn bwysig, fel ymwybyddiaeth o'r amgylchedd a phryder tuag ato

Cymwyseddau gwyddoniaeth

Mae'r 3 chymhwysedd gwyddoniaeth¹³ fel a ganlyn:

- **esbonio ffenomena mewn ffordd wyddonol:** wedi'i gadw o PISA 2015, mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr adnabod, cynhyrchu, cymhwyso a gwerthuso esboniadau a datrysiadau ar gyfer amrywiaeth o ffenomena a phroblemau naturiol a thechnolegol
- **llunio a gwerthuso dyluniadau ar gyfer ymholiadau gwyddonol a dehongli data a thystiolaeth wyddonol mewn ffordd feirniadol:** yn uno 2 gymhwysedd blaenorol yn PISA 2015 ('Gwerthuso a dylunio ymholiad gwyddonol' a 'Dehongli data a thystiolaeth mewn ffordd wyddonol') sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr lunio, arfarnu a gwerthuso ymchwiliadau gwyddonol
- **ymchwilio i wybodaeth wyddonol, ei gwerthuso a'i defnyddio i wneud penderfyniadau ac i weithredu:** cymhwysedd newydd ar gyfer 2025, sy'n ei

¹³ Gweler [Fframwaith Gwyddoniaeth PISA yr OECD \(2025\)](#)

gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gynnal asesiad beirniadol o hygyrdded gwybodaeth wyddonol, gan gynnwys gwybodaeth ddilys a gwybodaeth honedig

Mae'r fframwaith newydd hefyd yn pwysleisio ymwybyddiaeth a galluedd amgylcheddol dysgwyr drwy gyflwyno 3 chymhwysedd gwyddor yr amgylchedd¹⁴:

- esbonio effaith rhyngweithiadau rhwng pobl a systemau'r Ddaear
- defnyddio tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau, ynghyd â ffordd o feddwl greadigol a ffordd o feddwl yn seiliedig ar systemau, i wneud penderfyniadau gwybodus sy'n helpu i adfywio'r amgylchedd a sicrhau ei gynaliadwyedd hirdymor
- dangos parch tuag at amrywiol safbwyntiau wrth geisio dod o hyd i ddatrysiadau i argyfyngau cymdeithasol-ecolegol

Mae'r cymwyseddau hyn yn cydnabod y dylanwad a'r effaith sylweddol y mae pobl wedi'u cael ar y Ddaear.

Gwybodaeth wyddonol

Yn PISA 2015 a 2025, roedd angen i ddysgwyr ddangos 3 math o wybodaeth i ddatblygu'r cymwyseddau gwyddoniaeth hyn¹⁵, sef:

- **cynnwys:** gwybodaeth a dealltwriaeth o syniadau a damcaniaethau gwyddonol, wedi'u hasesu drwy:
 - 3 prif elfen: systemau ffisegol, systemau byw a systemau'r Ddaear a'r gofod
 - y 4 prif bwnc: ffiseg, cemeg, bioleg, a gwyddorau'r Ddaear a'r gofod¹⁶
- **gweithdrefnol:** gwybodaeth am y gweithdrefnau a'r arferion safonol y mae gwyddonwyr yn eu defnyddio i gael gafael ar ddata dibynadwy a dilys
- **epistemig:** gwybodaeth am gysyniadau a nodweddion sy'n hanfodol wrth gynhyrchu a chyfiawnhau gwybodaeth wyddonol fel pwysigrwydd ailadrodd mesuriadau

Cyd-destunau gwyddoniaeth

Cafodd cymwyseddau a gwybodaeth eu hasesu gan ddefnyddio cyfres o gyd-destunau yr ystyriwyd eu bod yn cyd-fynd ar y cyfan â'r ffordd y cafodd llythrennedd gwyddonol ei gymhwyso yn fframweithiau blaenorol PISA¹⁷. Roedd yr eitemau asesu yn canolbwyntio ar y sefyllfaoedd canlynol:

- yr unigolyn ei hun, y teulu, a grwpiau cyfoedion (personol)
- y gymuned (lleol a chenedlaethol)

¹⁴ Gweler [Fframwaith Gwyddoniaeth PISA yr OECD \(2025\)](#)

¹⁵ Gweler [Fframwaith Gwyddoniaeth PISA yr OECD \(2025\)](#) am ddiffiniadau llawn.

¹⁶ Mae'r fframwaith yn defnyddio'r term "systemau" yn lle "gwyddorau" yn y disgrifiyddion gwybodaeth am gynnwys, gan fod yn rhaid i ddysgwyr ddeall cysyniadau o'r gwyddorau ffisegol a bywyd, gwyddorau'r Ddaear a'r gofod, a sut y cânt eu cymhwyso. Gweler [Fframwaith Gwyddoniaeth PISA yr OECD \(2025\)](#)

¹⁷ Gweler [Fframwaith Gwyddoniaeth PISA yr OECD \(2025\)](#)

- bywyd ledled y byd (byd-eang)

Cafodd y broses o gymhwyso gwyddoniaeth a thechnoleg yn y 3 chyd-destun uchod ei hasesu'n bennaf gan ddefnyddio'r testunau isod:

- iechyd a chlefydau
- adnoddau naturiol
- ansawdd amgylcheddol (gan gynnwys effeithiau amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd)
- peryglon
- ffiniau gwyddoniaeth a thechnoleg (gan gynnwys datblygiadau a heriau cyfoes)

Nodir i ba raddau y mae'r cymwyseddau, y wybodaeth a'r cyd-destunau a gynrychiolir yn fframwaith gwyddoniaeth PISA yn adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru ym Mhennod 2 Adran 2.3. Fodd bynnag, dylid nodi na chafodd dysgwyr yng Nghymru a gymerodd ran yn PISA 2025 eu haddysgu'n llwyr drwy'r Cwricwlwm i Gymru.

Asesiadau eraill PISA

Ochr yn ochr â'r asesiadau mewn gwyddoniaeth, gofynnwyd i'r dysgwyr sefyll asesiadau mewn:

- **darllen:** y gallu i ddeall, defnyddio a myfyrio ar destunau ysgrifenedig i gyflawni nodau personol, meithrin gwybodaeth a photensial, a chymryd rhan mewn cymdeithas¹⁸
- **mathemateg:** y gallu i resymu mewn modd mathemategol ac i fformiwleiddio, defnyddio a dehongli mathemateg er mwyn datrys problemau mewn amrywiaeth o gyd-destunau go iawn. Mae'n cynnwys cysyniadau, gweithdrefnau, ffeithiau ac adnoddau i ddisgrifio, esbonio a rhagfynegi ffenomena. Mae'n helpu unigolion i fod yn ymwybodol o'r rôl y mae mathemateg yn ei chwarae yn y byd ac i lunio'r barnau a gwneud y penderfyniadau gwybodus sydd eu hangen ar ddinasyddion adeiladol, ymgysylltiol a myfyriol yn yr 21ain Ganrif¹⁹
- **dysgu yn y byd digidol:** y gallu i gymryd rhan mewn proses iteraidd o feithrin gwybodaeth a datrys problemau gan ddefnyddio adnoddau cyfrifiadurol...wedi'i ddangos drwy ddysgu hunan-reoledig effeithiol gan ar yr un pryd gymhwyso arferion ymholi cyfrifiadurol a gwyddonol²⁰

1.3.2 Holiaduron PISA

Ochr yn ochr ag asesiadau PISA mewn gwyddoniaeth, darllen a mathemateg a Dysgu mewn Byd Digidol, gofynnwyd i'r ysgolion a'r dysgwyr a oedd yn cymryd rhan gwblhau holiaduron. Roedd yr holiadur i ddysgwyr yn gofyn am wybodaeth am gefndir y dysgwyr a

¹⁸ Gweler [OECD 2025 Perfformiad Darllen \(PISA\)](#)

¹⁹ Gweler [Fframwaith Asesu a Dadansoddi PISA 2022 yr OECD](#)

²⁰ Gweler [Dysgu yn y Byd Digidol PISA 2025 yr OECD](#)

oedd yn cymryd rhan (gan gynnwys galwedigaeth eu rhieni fel rhan o'r mesur statws economaidd-gymdeithasol); eu hagweddau (er enghraifft, at ddysgu); teimladau tuag at yr ysgol; profiadau addysgol, a dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Gofynnwyd i ddysgwyr sôn am eu profiadau a'u hagweddau at wyddoniaeth yn fanylach gan mai gwyddoniaeth oedd prif faes PISA 2025. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar ffactorau affeithiol (fel agweddau a chymhellion) yn 2025, drwy gyflwyno 'hunaniaeth gwyddoniaeth'. Roedd hyn yn canolbwyntio ar bwysigrwydd galluedd a dinasyddiaeth weithgar dysgwyr mewn byd sy'n newid yn gyflym, ochr yn ochr â'r broses o ddatblygu eu cymwyseddau a'u gwybodaeth²¹. Cafodd y rhain eu hasesu gan ddefnyddio holiadur.

Roedd yr holiadur i ysgolion yn gofyn am wybodaeth gan benaethiaid am hinsawdd yr ysgol, adnoddau ac unrhyw rwystrau canfyddedig i ddysgu.

1.3.3 Asesiad PISA

Cynhaliodd yr OECD adolygiad iteradd o'r eitemau prawf arfaethedig (cwestiynau) gan ddefnyddio gwahanol arbenigwyr lleol a rhyngwladol. Nod y prawf maes, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2024 yn y DU, oedd sicrhau bod yr eitemau asesu yn cyrraedd Safonau Technegol PISA²² a'u bod yn addas i'w cynnwys yn y prif gasgliad data. Cafodd y broses ei hailadrodd ar draws yr holl wledydd a oedd yn cymryd rhan er mwyn sicrhau bod yr eitemau yn cyrraedd y safonau hyn a bod modd eu cymharu ar draws systemau addysg.

Mae dull gweithredu PISA wrth ddylunio a gweinyddu'r broses asesu yn gymhleth. Mae hyn yn wahanol i asesiadau mwy confensiynol, fel arholiadau TGAU, lle bydd pob dysgwr yn sefyll yr un prawf sy'n cynnwys yr un eitemau, ac y bydd perfformiad cyfartalog y garfan yn cael ei gyfrifo drwy gyfuno perfformiadau'r dysgwyr unigol hyn. Asesiad cyfrifiadurol²³ yw asesiad PISA ac mae'n defnyddio profion addasol aml-gam (ar gyfer gwyddoniaeth, darllen a mathemateg). Mae prawf addasol yn dewis eitemau yn awtomatig i gyfateb i berfformiad y dysgwr. Felly roedd 'blociau' o eitemau yn cael eu cyflwyno i'r dysgwyr, wedi'u dewis ar sail eu perfformiad yn y blociau cwestiynau blaenorol. O ganlyniad, nid atebodd pob dysgwr yr un cwestiynau²⁴.

1.3.4 Dylunio a samplu astudiaeth PISA

Ni fyddai'n ymarferol gofyn i bob dysgwr unigol ym mhob gwlad sy'n cymryd rhan ymgymryd ag asesiad PISA. Felly, mae'r gwledydd sy'n cymryd rhan yn asesu sampl o'r dysgwyr cymwys. Mae'r OECD yn defnyddio dull samplu dau gam er mwyn gwneud yn siŵr bod y dysgwyr a ddewisir i gymryd rhan yn yr astudiaeth yn cynrychioli'r boblogaeth ddysgwyr genedlaethol. Y cam cyntaf yw samplu ysgolion a'r ail gam yw samplu dysgwyr

²¹ Gweler [Fframwaith Gwyddoniaeth PISA yr OECD \(2025\)](#)

²² Gweler [OECD \(2025\) Safonau Technegol PISA 2025](#)

²³ Defnyddiodd rhai gwledydd brofion papur: Cambodia, Rhanbarth Cwrdistan (Irac), Mauritius, Rwanda, Tajikistan, a Zambia.

²⁴ Gweler [OECD \(2023\) Dylunio Integredig PISA 2025](#)

yn yr ysgolion a ddewiswyd. Roedd yn ofynnol i'r gwledydd a gymerodd ran yn PISA ddilyn gweithdrefnau samplu rhyngwladol caeth sy'n hwyluso'r broses o gymharu samplau. Mae Ffigur 1.1 yn dangos y broses hon i Gymru.

Ffigur 1.1 Gweithdrefn samplu PISA 2025 i Gymru

Cam	Proses
Cam 1	Roedd y broses samplu ar gyfer PISA 2025 yn ei gwneud yn ofynnol i Gymru ddewis sampl gynrychioliadol o 125 o ysgolion uwchradd
Cam 2	Cafodd ysgolion arbennig, Darpariaeth Amgen, Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion ieithoedd tramor eu heithrio
Cam 3	Lle roedd hynny'n bosibl, dewisodd yr OECD 2 ysgol wrth gefn â nodweddion tebyg i bob ysgol a oedd yn rhan o'r sampl. Gofynnwyd iddynt gymryd rhan pe bai'r ysgolion a oedd yn rhan o'r sampl yn optio allan
Cam 4	O fewn pob ysgol a ddewiswyd, dewiswyd sampl o 40 o ddysgwyr, ag oedran cyfartalog o 15, i gymryd rhan
Cam 5	Yng Nghymru, cymerodd 3406 o ddysgwyr o 113 o ysgolion ran yn PISA 2025

Yn unol â'r weithdrefn hon, dewiswyd sampl o ysgolion uwchradd i gymryd rhan yn PISA 2025. Dewiswyd yr ysgolion i gynrychioli'r gwahanol ranbarthau daearyddol yng Nghymru, y gwahanol fathau o ysgolion y mae dysgwyr o bosibl yn eu mynychu (er enghraifft, ysgolion a gynhelir neu ysgolion annibynnol) ac amrywiaeth o lefelau cyrhaeddiad academiaidd ar lefel yr ysgol (yn seiliedig ar berfformiad TGAU carfanau blaenorol o ddysgwyr).

Dewiswyd hapsampl o 40 o ddysgwyr cymwys²⁵ i sefyll yr asesiad ym mhob ysgol a oedd yn cymryd rhan. Roedd yr holl ddysgwyr hyn ym mlwyddyn 11. Yn achos unrhyw sampl, mae'n bosibl y bydd rhai is-boblogaethau wedi'u tangynrychioli neu wedi'u gorgynrychioli unwaith y ceir gafael ar y data terfynol. Mae'n bwysig nodi bod y ffordd y cafodd PISA ei dylunio yn atal hyn, cyn belled ag y bo'n bosibl, drwy ddulliau ystadegol (pwysoli'r sampl)²⁶. Caiff cyfraddau ymateb Cymru mewn perthynas â'r Safonau Technegol hyn eu trafod yn adran 1.4.7.

²⁵ Dewiswyd 40 o ddysgwyr o bob ysgol oni bai bod llai na 40 o ddysgwyr cymwys mewn ysgol

²⁶ Gweler [OECD \(2025\) Safonau Technegol PISA 2025](#)

1.4 Dehongli data o PISA: canllaw i ddarllenwyr

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth a chyd-destun ar gyfer dehongli canlyniadau Cymru yn PISA 2025.

1.4.1 Gwallau samplu a mesur

Roedd data PISA 2025 i Gymru yn seiliedig ar sampl o ddysgwyr yn hytrach na chyfrifiad o bob dysgwr. O ganlyniad, mae rhyw raddau o ansicrwydd yn gysylltiedig â'r canfyddiadau, oherwydd ni waeth pa mor ofalus y caiff y sampl ei dewis, bydd o leiaf rhywfaint o debygolrwydd na fydd yn cynrychioli'r boblogaeth ddysgwyr gyfan yn llawn. Caiff yr ansicrwydd hwn ei ddisgrifio fel 'gwall samplu'. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod camgymeriad wedi'i wneud. Mae'n bodoli ym mhob darn o waith ymchwil sy'n dibynnu ar ddadansoddi data sy'n deillio o sampl. Ffynhonnell arall o ansicrwydd yw 'gwall mesur', sy'n ymwneud â'r graddau y mae perfformiad dysgwr unigol ym mhrawf PISA yn adlewyrchu ei allu gwirioneddol. Mae gwall mesur yn digwydd pan fydd ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â gallu'r dysgwr, fel sut y bydd yn dehongli'r eitemau y bydd yn ymateb iddynt neu lefel ei gymhelliant ar ddiwrnod y prawf, o bosibl yn dylanwadu ar sgôr y dysgwr hwnnw.

1.4.2 Arwyddocâd ystadegol

Er mwyn rhoi'r ansicrwydd hwn yn ei gyd-destun a rhoi cyfrif amdano, cynhelir dadansoddiad ystadegol o'r gwahaniaethau rhwng gwledydd a rhwng grwpiau o ddysgwyr yn yr adroddiad hwn er mwyn penderfynu a ydynt 'yn arwyddocaol yn ystadegol'. Nid yw gwahaniaethau sy'n arwyddocaol yn ystadegol yn debygol o ddeillio o wall samplu na gwall mesur ac maent yn debygol o adlewyrchu gwahaniaeth go iawn rhwng y gwledydd neu'r grwpiau sy'n cael eu cymharu. Defnyddir 'lefel hyder o 95%' i ddiffinio arwyddocâd ystadegol yn yr adroddiad hwn, sy'n golygu bod tebygolrwydd o lai nag 1 mewn 20 bod y canfyddiad yn deillio o wall samplu neu wall mesur. Defnyddir y termau 'arwyddocaol' neu 'sylweddol' drwy gydol yr adroddiad hwn i gyfeirio at wahaniaethau sy'n arwyddocaol yn ystadegol rhwng sgorau neu werthoedd. Yn yr un modd, defnyddir y term cyfartalog, er enghraifft 'sgôr gyfartalog', i gyfeirio at y cymedr ystadegol ar gyfer y grŵp perthnasol, oni nodir yn wahanol.

Oherwydd talgrynnu, mae'n bosibl y bydd effaith ar arwyddocâd y data a gyflwynir. Er enghraifft, wrth gymharu'r gwahaniaeth rhwng 2 ganran, mewn un achos gall canran a adroddir fod yn sylweddol wahanol i ganran arall, ond mewn achos arall efallai na fydd yn sylweddol wahanol er bod y ganran yr un peth.

1.4.3 Trefn restrol

Dylid bod yn ofalus wrth ystyried 'trefn restrol' gwledydd a gymerodd ran yn PISA gan nad yw'n seiliedig ar wahaniaethau sy'n arwyddocaol yn ystadegol. Gall amrywiad o ran nifer y

gwledydd sy'n cymryd rhan ym mhob cylch effeithio ar y drefn, er enghraifft, gall y ffaith bod llai o wledydd yn cymryd rhan yn y cylch diweddaraf achosi i safle gwlad mewn trefn restrol fod yn uwch o gymharu â'r cylch blaenorol. Yn ogystal, mae'r ddau fath o ansicrwydd a drafodir uchod yn golygu, pe byddai'r prawf yn cael ei ailsefyll, ei bod hi'n debygol y byddai gwahaniaethau o ran sgorau cyfartalog pob gwlad a fyddai'n newid trefn restrol perfformiadau'r gwledydd hynny. Felly, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar wahaniaethau sy'n arwyddocaol yn ystadegol rhwng gwledydd a grwpiau, sy'n rhoi mwy o hyder bod y canfyddiadau yn gadarn.

1.4.4 Cymharu grwpiau o ddysgwyr

Mae'n bosibl na fydd eitemau'r prawf yr un mor anodd i ddysgwyr o wahanol gefndiroedd diwylliannol-gymdeithasol neu ieithyddol, neu mewn gwahanol wledydd a chyfieithiadau. Mae gwaith ymchwil blaenorol²⁷ yn awgrymu na wnaeth rhai eitemau prawf o reidrwydd berfformio mewn ffordd y gellir ei chymharu ar draws gwahanol wledydd ac ieithoedd, gan felly o bosibl danseilio cymaradwyedd y canlyniadau²⁸. Er bod y dysgwyr a gymerodd ran yn PISA yn yr un ystod oedran, mae'n bosibl bod eu profiadau addysgol yn wahanol, gan ddibynnu ar ba adeg o'r flwyddyn academaidd y gwnaethant sefyll y profion. Ledled y DU (heb gynnwys yr Alban), roedd gwahanol gyfnodau profi:

- Cymru a Gogledd Iwerddon (yn ystod mis Medi a mis Hydref 2025)
- Lloegr (rhwng mis Chwefror a mis Mai 2025: tua dwy ran o dair o ddysgwyr a oedd ym mlwyddyn 11 a thraean a oedd ym mlwyddyn 10)

1.4.5 Termau ystadegol

Cyfeirir at y mesurau canlynol yn yr adroddiad:

Ystodau rhyngddegradd

Gellir archwilio amrediad perfformiad pob gwlad drwy edrych ar ddosbarthiad sgorau â chanraddau yn rhannu'r data yn 100 o rannau cyfartal ac yn rhannu deigraddau yn 10 rhan gyfartal, fel sydd i'w weld yn Ffigur 1.2. Y sgôr ar y 90ain canradd yw'r sgôr y mae'r 10% o'r dysgwyr â'r perfformiad uchaf yn ei chyrraedd (y dysgwyr yn y deigradd â'r perfformiad uchaf), a'r 10fed canradd yw'r sgôr uchaf y mae'r 10% o ddysgwyr â'r perfformiad isaf yn ei chyrraedd (y dysgwyr yn y deigradd â'r perfformiad isaf). Disgrifir y gwahaniaeth rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf ar y 90ain a'r 10fed canradd fel yr ystod rhyngddegradd (y gwahaniaeth rhwng dysgwyr yn y deigradd â'r perfformiad uchaf a'r deigradd â'r perfformiad isaf). Mae hyn yn well mesur o'r amrediad sgorau wrth

²⁷ Kreiner S a Christensen KB. (2014) 'Analyses of Model Fit and Robustness. A New Look at the PISA Scaling Model Underlying Ranking of Countries According to Reading Literacy.' *Psychometrika.*, 79(2), tt.210-231. a Rutkowski, L. a Rutkowski, D. (2016) 'A Call for a More Measured Approach to Reporting and Interpreting PISA Results.' *Educational Researcher*, 45(4), tt.252-257.


²⁸ I gael rhagor o wybodaeth am sut mae PISA yn mesur llwyddiant dysgwyr yn yr ysgol, gweler [What is PISA data and how does it measure students' success at school? – The Education Hub](#)

gymharu gwledydd na defnyddio'r dysgwyr â'r perfformiad uchaf un a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf un, gan y gallai nifer bach o ddysgwyr â sgorau anarferol o uchel neu isel effeithio ar yr ail ddull cymharu.

Ystodau rhyngchwartel

Ym Mhennod 6, caiff amrediad perfformiad dysgwyr hefyd ei fesur gan ddefnyddio mynegai statws economaidd, cymdeithasol a diwylliannol (ESCS) yr OECD. Cwblhaodd dysgwyr holiadur a oedd yn gofyn cwestiynau iddynt am addysg a galwedigaeth eu rhieni ac eitemau yn eu cartrefi. Gan ddefnyddio eu hymatebion, cafodd dysgwyr eu dyrannu i un o 4 Chwartel ESCS (gyda 25% o'r dysgwyr ym mhob un). Rhoddwyd y 25% o ddysgwyr mwyaf difreintiedig yn Chwartel 1 a'r 25% o ddysgwyr lleiaf difreintiedig yn Chwartel 4. Yn yr adroddiad hwn, caiff perfformiad cymharol dysgwyr yn Chwartel 1 a Chwartel 4 ei gymharu gan ddefnyddio eu sgorau cyfartalog. Defnyddir yr ystod ryngchwartel i bennu amrediad perfformiad rhwng y dysgwyr lleiaf difreintiedig (Chwartel 4) a'r dysgwyr mwyaf difreintiedig (Chwartel 1) drwy dynnu sgôr gyfartalog Chwartel 1 o sgôr gyfartalog Chwartel 4 (sgôr gyfartalog Chwartel 4 – sgôr gyfartalog Chwartel 1).

Ffigur 1.2 Cyfrifo ystodau rhyngddegradd a rhyngchwartel



Y bwlch rhywedd

Ym Mhennod 5, disgrifir y gwahaniaeth sgôr rhwng merched a bechgyn fel y bwlch rhywedd. Cafodd hyn ei gyfrifo fel y sgôr gyfartalog ar gyfer merched minws y sgôr gyfartalog ar gyfer bechgyn. Er y gofynnwyd i ddysgwyr nodi eu rhyw yn yr holiadur i ddysgwyr, cyfeirir at rywedd yn yr adroddiad hwn er mwyn cynnal cysondeb ag adroddiadau cenedlaethol PISA 2025 ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a Fframwaith Asesu a Dadansoddi PISA yr OECD.

Gwledydd â pherfformiad uchel

Lle mae'r adroddiad yn cyfeirio at wledydd â pherfformiad uchel, mae hyn yn cyfeirio at bob gwlad a gymerodd ran â sgorau cyfartalog o dros 440 yn PISA 2025. Bydd y gwledydd yn y categori hwn yn wahanol gan ddibynnu ar y pwnc.

Y cyfnodau a astudiwyd a thueddiadau dros amser

Mae'r adroddiad yn dadansoddi canfyddiadau o PISA 2025 a'r newidiadau dros amser ers PISA 2015, y cylch PISA diwethaf a oedd yn canolbwyntio ar wyddoniaeth. Caiff tueddiadau eu cofnodi fel a ganlyn:

- Cofnodir tuedd sefydlog lle na fu unrhyw wahaniaeth sylweddol o ran sgorau dros amser
- Mae tuedd ar i lawr yn cyfeirio at ostyngiad sylweddol o ran sgorau PISA dros gyfnod penodol
- Mae tuedd ar i fyny yn cyfeirio at gynydd sylweddol o ran sgorau PISA dros gyfnod penodol

1.4.6 PISA a phandemig COVID-19

Bu cryn darfu ar ysgolion, addysgu a dysgu dros gyfnod y pandemig, gan gynnwys cyfnodau sylweddol o amser pan oedd adeiladau ysgolion ar gau. Cyflwynwyd adnoddau addysg neu ddysgu o bell yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth ar y pryd. Yn ogystal, roedd amrywiaeth o raglenni a mathau o gymorth ar gael i ysgolion eu cynnig i'r dysgwyr hynny yr effeithiwyd ar eu dysgu a'u llesiant. Fodd bynnag, roedd effaith y tarfu hwn yn wahanol rhwng rhanbarthau, ysgolion a dysgwyr unigol o fewn yr ysgolion hynny, yn ogystal â rhwng gwahanol wledydd a systemau addysg. O ystyried y cymhlethdod hwn, nid oes modd canfod yn union sut yr effeithiodd pandemig COVID-19 ar berfformiad y rhai hynny a gymerodd ran yn asesiadau PISA 2025 neu 2022, na sut y gallai fod wedi effeithio ar eu hymatebion i'r holiaduron.

Cynhaliwyd y broses casglu data ar gyfer PISA 2022 ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022 a chafodd effeithiau parhaus COVID-19 ddylanwad ar gyfraddau recriwtio, cadw ac ymgysylltu. Mae hyn yn bwysig yng nghyd-destun PISA 2025 am y rhesymau canlynol:

- gwneir cymariaethau tuedd yn yr adroddiad hwn rhwng perfformiad dysgwyr a brofwyd ar gyfer PISA 2022 a chylchoedd PISA eraill
- mae'n bosibl bod y tarfu ar ddysgu a achoswyd gan bandemig COVID-19 wedi effeithio ar ddysgwyr a brofwyd yn PISA 2025 hefyd pan oeddent yn 10 oed ac yn dod at ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd ar gam dysgu hanfodol

Mae'r siartiau a'r tablau yn yr adroddiad hwn wedi'u hanodi i ddangos lle na chyrhaeddwyd safonau samplu PISA.

1.4.7 Cyfraddau ymateb PISA 2025 i Gymru

Cyfradd eithrio

Y gyfradd eithrio gyffredinol ar gyfer ysgolion yn y DU²⁹ oedd 7.6% a oedd yn uwch na tharged yr OECD, sef 5%. Er bod hyn yn dangos tuedd ar i fyny (cyfradd eithrio'r DU³⁰ yn 2022 oedd 4.9% ac yn 2018, 5.4%), mae'r OECD wedi cadarnhau y gellir cynnwys canlyniadau PISA 2025 yn llawn mewn adroddiadau a'u defnyddio ar gyfer cymariaethau rhyngwladol a chymariaethau tuedd.

Cyfradd cyfranogiad

Mae'n ofynnol gan PISA i gyfradd ymateb ysgolion bwysol derfynol gwlad gyfateb i o leiaf 85% o'r ysgolion cymwys a'r ysgolion na chawsant eu heithrio a oedd yn rhan o'r sampl. I Gymru, y gyfradd ymateb bwysol derfynol oedd 87% (i fyny o 78% ar ôl defnyddio ysgolion wrth gefn), gan gyrraedd y trothwy hwn. Yn yr un modd, dylai'r gyfradd ymateb dysgwyr bwysol derfynol fod yn 80% o leiaf o'r holl ddysgwyr sy'n rhan o'r sampl yn yr ysgolion a wnaeth ymateb. I Gymru, y gyfradd ymateb dysgwyr bwysol derfynol oedd 83%, gan gyflawni'r targed.

Tuedd ymateb

Cynhaliwyd Dadansoddiad o'r Duedd Diffyg Ymateb (NRBA) er mwyn deall, ymhlith pethau eraill, y gwahaniaethau rhwng yr ysgolion a wnaeth ymateb a'r ysgolion na wnaethant ymateb a rhwng yr ysgolion a oedd yn rhan o'r sampl wreiddiol a'r ysgolion wrth gefn. Diben y dadansoddiad hwn oedd cadarnhau a oedd y sampl derfynol o ddysgwyr yn cynrychioli'r boblogaeth ddysgwyr yng Nghymru a gwirio data'r astudiaeth yn fanwl. Disgrifir canfyddiadau allweddol y dadansoddiad, a'u goblygiadau wrth ddehongli canlyniadau PISA 2025 Cymru yn gryno isod, a cheir adroddiad llawn ar y dadansoddiad yn Atodiad A³¹.

Yn achos Cymru, dangosodd y dadansoddiad diffyg ymateb fod y sampl yng Nghymru yn cynrychioli ysgolion a dysgwyr yn dda. Roedd tuedd bosibl fach o ran canran yr ysgolion a gymerodd ran o'r band cyrhaeddiad ysgolion isaf, a gafodd ei dileu drwy'r pwysoliad wedi'i addasu ar gyfer diffyg ymateb a gymhwyswyd yn y dadansoddiad. Mae'r materion sy'n gysylltiedig â diffyg ymateb, i Gymru ac i systemau addysg eraill a gymerodd ran, yn golygu bod yn rhaid bod yn arbennig o ofalus wrth ystyried tueddiadau o ran perfformiad dros amser ac wrth lunio cymariaethau rhyngwladol. Gellir dod i gasgliadau mwy hyderus wrth gymharu grwpiau o ddysgwyr yng Nghymru, lle nad ydym yn ceisio cyffredinoli y tu hwnt i'n sampl (ceir dadansoddiad o'r fath ym Mhennod 5, lle ceir esboniad manylach). Yn gyffredinol, er y dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canlyniadau, mae'r dadansoddiad yn cynnig cipolwg gwerthfawr o hyd ar wybodaeth a sgiliau dysgwyr 15 oed yng Nghymru mewn mathemateg, gwyddoniaeth a darllen, a sut maent yn cymharu â dysgwyr 15 oed eraill o bob cwr o'r byd.

²⁹ DU minws yr Alban

³⁰ DU minws yr Alban

³¹ Gweler [OECD \(2025\) Safonau Technegol PISA 2025](#), llwyddodd Cymru i gyrraedd y safonau samplu ond dewisodd gynnal NRBA gwirfoddol.

1.4.8 Dewis gwledydd cymharol a chyfartaleddau'r OECD at ddibenion cymharu

Mae angen bod yn ddetholus wrth wneud cymariaethau rhyngwladol o ystyried y nifer mawr o wledydd a gymerodd ran yn PISA 2025. Dewiswyd pedair gwlad i'w cymharu â Chymru ar gyfer yr adroddiad hwn: Gwlad Belg, Denmarc, Seland Newydd a Gweriniaeth Iwerddon, ar y sail eu bod yn darparu cymariaethau dilys, ystyrlon a gwerthfawr, er mwyn gallu rhoi cyd-destun i berfformiad dysgwyr o Gymru. Mae gan Wlad Belg a Seland Newydd gyd-destun dwyieithog neu amlieithog, fel Cymru, ac mae gan Weriniaeth Iwerddon a Denmarc gwricwla integreiddiol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r plentyn cyfan sy'n cyd-fynd â chyfeiriad polisi Cymru.

Mae'r adroddiad yn cymharu gwybodaeth am berfformiad Cymru â pherfformiad cyfartalog yr OECD sydd wedi'i ddewis ar gyfer cymariaethau o'r fath, yn hytrach na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl wledydd a gymerodd ran yn PISA 2025. Mae hyn oherwydd bod y gwledydd a ddefnyddir i gyfrifo cyfartaledd yr OECD yn fwy cymharol o safbwynt economaidd â Chymru a'u bod wedi cymryd rhan yn PISA yn fwy cyson dros amser.

Mae nifer y gwledydd sy'n rhan o'r OECD wedi cynyddu dros amser gan effeithio ar y broses o gyfrifo cyfartaleddau. Mae'r OECD wedi cyfrifo cyfartaleddau gwahanol er mwyn sicrhau bod cymariaethau yn gyson ac nad ydynt yn cael eu hystumio'n ormodol gan wledydd sydd wedi'u cynnwys neu wedi'u heithrio fel rhan o gymhariaeth benodol. Mae'r rhain yn cynnwys gwahanol setiau o wledydd, sy'n golygu y gellir llunio cymariaethau cywir o newid dros amser.

Mae'r adroddiad hwn yn cymharu perfformiad Cymru â dau o gyfartaleddau'r OECD, gan ddibynnu ar y gymhariaeth fwyaf priodol. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- **cyfartaledd yr OECD** – cyfartaledd pob un o'r 38 o wledydd sy'n rhan o'r OECD (gan gynnwys y DU) a gymerodd ran yng nghylch 2025
- **cyfartaledd tuedd yr OECD** – y cyfartaledd ar draws y 35³² o wledydd sy'n aelod o'r OECD a gymerodd ran yn 2015, 2018, 2022 a 2025 (gan gynnwys y DU) ac y mae eu canlyniadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau rhyngwladol ar gyfer pob cylch

1.5 Trefn yr adroddiad hwn

Mae gweddill yr adroddiad Cyfrol 1 hwn wedi'i rannu'n 7 prif bennod ac mae'r NRBA wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

³² O'r 38 o wledydd sy'n aelodau o'r OECD a gymerodd ran yn PISA yn 2025, nid oedd unrhyw wlad yn cymryd rhan am y tro cyntaf. O'r 38 o'r gwledydd hyn, dim ond Lwcsembwrg na chymerodd ran ym mhob un o gylchoedd PISA gan ei bod yn absennol yn 2022. Felly ni chaiff ei chynnwys yn y cyfartaledd tuedd. Nid yw Sbaen na Costa Rica wedi'u cynnwys yn y cyfartaledd tuedd ychwaith gan na wnaethant gyrraedd y safonau cyfranogi ar draws pob cylch.

- mae penodau 2 i 4 yn canolbwyntio ar berfformiad Cymru mewn gwyddoniaeth, darllen a mathemateg yn PISA
- mae penodau 5 a 6 yn canolbwyntio ar themâu Tegwch a Chynhwysiant, gan gyflwyno perfformiad yn ôl rhywedd (pennod 5) a statws economaidd-gymdeithasol a statws mewnfudo (pennod 6)
- mae pennod 7 yn canolbwyntio ar nodweddion tebyg a gwahaniaethau o ran perfformiad dysgwyr ar draws y gwledydd a gymerodd ran yn y DU
- mae pennod 8 yn dod â Chyfrol 1 i ben ac yn edrych ymlaen at Gyfrol 2

Mae pob pennod yn gyffredinol yn cynnwys gwybodaeth am ddosbarthiad sgorau profion dysgwyr yn ôl nodweddion dysgwyr ac ysgolion, a throsolwg o sut mae perfformiad Cymru wedi newid dros amser mewn perthynas â'r gwledydd eraill a gymerodd ran.

Mae Cyfrol 2 yn cynnwys penodau ar yr is-feysydd gwyddoniaeth a ddewiswyd ac ymatebion i'r holiaduron. Bydd Cyfrol 2 hefyd yn cyflwyno casgliad i'r ddwy gyfrol.

2 Perfformiad mewn gwyddoniaeth

2.1 Trosolwg o'r bennod

Mae'r bennod hon yn adrodd ar berfformiad dysgwyr yng Nghymru ym maes gwyddoniaeth PISA 2025. Mae'n seiliedig ar ganfyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad rhyngwladol (OECD, 2026) ac mae'n gosod canlyniadau dysgwyr Cymru yng nghydestun y canfyddiadau hynny. Caiff y perfformiad hwn ei ystyried ochr yn ochr â pherfformiad mewn cylchoedd blaenorol: PISA 2022, 2018, a 2015. Mae'n amlinellu sut mae perfformiad dysgwyr yng Nghymru yn 2025 yn cymharu â pherfformiad dysgwyr yn y gwledydd eraill a gymerodd ran, ac yn nodi sut mae'r perfformiad hwnnw wedi newid dros amser. Aseswyd gwyddoniaeth gan ddefnyddio'r [fframwaith gwyddoniaeth a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer PISA 2025](#).

2.2 Canfyddiadau allweddol

- Cyflawnodd dysgwyr yng Nghymru sgôr gyfartalog o 476 mewn gwyddoniaeth yn PISA 2025, a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 482.
- Nid oedd sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr yng Nghymru yn PISA 2025, sef 476, yn sylweddol wahanol i'r sgôr o 473 yn PISA 2022 na'r sgôr o 485 yn PISA 2015, ond roedd yn sylweddol is na'r sgôr o 488 yn PISA 2018.
- Ar gyfartaledd ar draws gwledydd tuedd yr OECD³³, nid oedd y sgôr gwyddoniaeth gyfartalog yn PISA 2025, sef 484, yn sylweddol wahanol i'r sgorau o 487 yn 2022 na 489 yn 2018, ond roedd yn sylweddol is na'r sgôr o 491 yn PISA 2015.
- Roedd sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr mewn 54 o wledydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd a gyflawnwyd gan ddysgwyr yng Nghymru, ac mewn 11 o wledydd eraill, nid oedd y sgôr gwyddoniaeth gyfartalog yn sylweddol wahanol i'r sgôr yng Nghymru. Ym mhob un o'r 25 o wledydd eraill, roedd sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr yn sylweddol uwch na sgôr gyfartalog dysgwyr yng Nghymru.
- Yr ystod rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf yng Nghymru oedd 261 o bwyntiau, nad oedd yn sylweddol wahanol i'r ystod yn PISA 2022, sef 255 o bwyntiau. Nid oedd hyn yn sylweddol wahanol ychwaith i ystod gyfartalog yr OECD yn PISA 2025, sef 258 o bwyntiau.
- Yng Nghymru, llwyddodd 6% o ddysgwyr i gyrraedd y lefelau hyfedredd uchaf (Lefelau 5 neu 6), a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 7%. Yng Nghymru, roedd 27% o'r dysgwyr yn gweithio'n unol â'r lefelau hyfedredd is (islaw Lefel 2) nad oedd yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD, sef 26%.

³³ Mae'r 35 o wledydd tuedd yr OECD yn PISA 2025 yn cynnwys y gwledydd hynny sy'n rhan o'r OECD sydd wedi cymryd rhan ym mhob cylch ers PISA 2015, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

2.3 Cyflwyniad i wyddoniaeth yn PISA

Ym Mhennod 1, adran 1.3.1, ceir trosolwg o fframwaith gwyddoniaeth PISA 2025, gan gynnwys rhai o'r newidiadau i fframweithiau gwyddoniaeth blaenorol PISA.

2.4 Perfformiad dysgwyr yng Nghymru mewn gwyddoniaeth

Cyflawnodd dysgwyr yng Nghymru a gymerodd ran yn PISA 2025 sgôr gyfartalog o 476 mewn gwyddoniaeth. Roedd hyn yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 482.

Cyflawnodd dysgwyr mewn 54 allan o'r 90 o wledydd eraill a gymerodd ran sgôr gwyddoniaeth gyfartalog a oedd yn sylweddol is na'r sgôr yng Nghymru, ac mewn 11 o wledydd eraill, nid oedd sgorau gwyddoniaeth cyfartalog dysgwyr yn sylweddol wahanol i'r sgorau yng Nghymru. Ym mhob un o'r 25 o wledydd eraill, roedd sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr yn sylweddol uwch na'r sgôr yng Nghymru. Mae Tabl 2.1 yn dangos sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr yng Nghymru o gymharu â dysgwyr mewn gwledydd eraill â pherfformiad uchel³⁴ ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD.

Ymhlith y 37 o wledydd eraill yr OECD a gymerodd ran yn 2025, roedd gan ddysgwyr mewn 7 gwlad sgôr gyfartalog a oedd yn sylweddol is na'r sgôr yng Nghymru. Roedd gan ddysgwyr mewn 10 gwlad sgôr gyfartalog nad oedd yn sylweddol wahanol i'r sgôr yng Nghymru, ac roedd gan ddysgwyr mewn 20 o wledydd sgôr gyfartalog a oedd yn sylweddol uwch na'r sgôr yng Nghymru.

Mewn perthynas â'r gwledydd cymharol, nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr yng Nghymru (476) a sgôr dysgwyr yn Nenmarc (478). Roedd sgorau cyfartalog dysgwyr yng Ngwlad Belg (490), Seland Newydd (509) a Gweriniaeth Iwerddon (500) yn sylweddol uwch na sgôr gyfartalog dysgwyr yng Nghymru.

³⁴ Gwledydd â pherfformiad uchel ym maes gwyddoniaeth yw'r gwledydd hynny y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr gyfartalog o fwy na 440 o bwyntiau.

Tabl 2.1 gorau gwyddoniaeth cyfartalog dysgwyr mewn gwledydd â pherfformiad uchel yn PISA 2025 o gymharu â sgôr gyfartalog dysgwyr yng Nghymru

Perfformiad gwyddoniaeth o gymharu â dysgwyr yng Nghymru	Y wlad a'r sgôr gwyddoniaeth gyfartalog
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr gwyddoniaeth gyfartalog a oedd yn sylweddol uwch na'r sgôr yng Nghymru yn PISA 2025	Rhanbarthau Beijing, Shanghai, Jiangsu, a Zhejiang yn Tsieina (B-S-J-Z, Tsieina) (597), Singapore (560), Macao (541), Taiwan (540), Japan (538), Estonia (527), De Korea (526), Canada (510), Seland Newydd (509), Awstralia (509), y Ffindir (504), yr Unol Daleithiau (502), y Swistir (501), Gweriniaeth Iwerddon (500), Awstria (497), Hong Kong (496), Gwlad Pwyl (495), Türkiye (494), y Weriniaeth Tsiec (490), Gwlad Belg (490), Lithwania (488), yr Almaen (486), yr Iseldiroedd (485), Sweden (485), Slofenia (484), a chyfartaledd yr OECD (482)
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr gwyddoniaeth gyfartalog nad oedd yn sylweddol wahanol i'r sgôr yng Nghymru yn PISA 2025	Ffrainc (483), yr Eidal (483), Portiwgal (482), Hwngari (480), Denmarc (478), Sbaen (477), Croatia (476), Cymru (476) , Y Weriniaeth Slofac (475), Lwcsembwrg (474), Norwy (470), a Latfia (468)
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr gwyddoniaeth gyfartalog a oedd yn sylweddol is na'r sgôr yng Nghymru yn PISA 2025	Yr Emiradau Arabaidd Unedig (458), Fietnam (457), Malta (453), rhanbarthau Wcráin (17 o 27) (448), Uruguay (445), Chile (442), Israel (442), a Gwlad yr Iâ (441), yn ogystal â'r 46 o wledydd eraill y cyflawnodd eu dysgwyr sgorau cyfartalog islaw 440 o bwyntiau.

Sail: Pob gwlad a gymerodd ran â sgorau cyfartalog dros 440 mewn gwyddoniaeth yn PISA 2025.

Gall canlyniadau profion arwyddocâd dwy wlad â'r un sgôr fod yn wahanol oherwydd gwahanol feintiau samplau a thalgrynau.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

Yn 2025, o gyfanswm o 91 o wledydd a gymerodd ran³⁵, gan gynnwys Cymru, roedd sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr mewn 21 o wledydd yn sylweddol uwch na chyfartaledd yr OECD, ac mewn 9 gwlad nid oedd y sgôr gyfartalog yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD. Roedd sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr yn y 61 o wledydd eraill yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD.

³⁵ Mae hyn yn cynnwys 1 wlad oedd ag amcangyfrifon perfformiad ar gyfer dysgwyr mewn gwyddoniaeth ond nid darllen na mathemateg.

2.5 Perfformiad gwyddoniaeth dros amser

Cyflawnodd dysgwyr yng Nghymru sgôr gyfartalog o 476 mewn gwyddoniaeth yn PISA 2025, nad oedd yn sylweddol wahanol i sgôr yn PISA 2022, sef 473, na'r sgôr gyfartalog yn PISA 2015, sef 485. Roedd y sgôr gyfartalog yn PISA 2025 yn sylweddol is na'r sgôr gyfartalog yn PISA 2018, sef 488.

Sgôr gwyddoniaeth cyfartaledd tuedd yr OECD yn 2025 oedd 484 o bwyntiau. Nid oedd hyn yn sylweddol wahanol i gyfartaleddau tuedd yr OECD yn PISA 2022, sef 487 nac yn PISA 2018, sef 489. Yn PISA 2015, roedd sgôr gwyddoniaeth cyfartaledd tuedd yr OECD, sef 491, yn sylweddol uwch na'r sgôr gyfartalog yn PISA 2025. Mae Tabl 2.2 yn dangos y newidiadau o ran sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr mewn gwledydd â pherfformiad uchel, gan gynnwys Cymru, a chyfartaledd tuedd yr OECD rhwng PISA 2022 a PISA 2025.

Tabl 2.2 Newidiadau o ran sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr rhwng PISA 2022 a PISA 2025 mewn gwledydd â pherfformiad uchel

Tuedd o ran perfformiad gwyddoniaeth	Y wlad a'r newid yn y sgôr gwyddoniaeth gyfartalog
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr gwyddoniaeth gyfartalog yn PISA 2025 a oedd yn sylweddol uwch na'r sgôr gwyddoniaeth gyfartalog yn PISA 2022	Yr Emiradau Arabaidd Unedig (+26), Türkiye (+18), y Weriniaeth Slofac (+13), ac Uruguay (+9)
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr gwyddoniaeth gyfartalog yn PISA 2025 nad oedd yn sylweddol wahanol i'r sgôr gwyddoniaeth gyfartalog yn PISA 2022	Awstria (+6), yr Eidal (+6), Seland Newydd (+5), Lithwania (+3), Cymru (+3) , Taiwan (+2), yr Unol Daleithiau (+2), Awstralia (+2), Estonia (+1), Gwlad Belg (-1), Chile (-1), y Swistir (-1), Singapore (-2), De Korea (-2), Macao (-2), Portiwgal (-3), cyfartaledd tuedd yr OECD (-3) , yr Iseldiroedd (-3), Ffrainc (-4), Gwlad Pwyl (-4), Gweriniaeth Iwerddon (-4), Canada (-5), Gwlad yr Iâ (-6), Hwngari (-6), Croatia (-6), y Ffindir (-7), yr Almaen (-7), Sbaen (-7), y Weriniaeth Tsiec (-7), Norwy (-8), Sweden (-8), a Japan (-9)
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr gwyddoniaeth gyfartalog yn PISA 2025 a oedd yn sylweddol is na'u sgôr gwyddoniaeth gyfartalog yn PISA 2022	Malta (-13), Fietnam (-15), Slofenia (-16), Denmarc (-16), Israel (-23), Hong Kong (-25), a Latfia (-25)

Sail: Pob gwlad â pherfformiad uchel yn PISA 2025 a gymerodd ran yn PISA 2022 hefyd.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch ers PISA 2015, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli newidiadau amcangyfrifedig mewn sgorau gan na lwyddodd rhai o'r gwledydd sydd wedi'u cynnwys i gyrraedd un neu fwy o safonau samplu PISA yn PISA 2022.

Gall canlyniadau profion arwyddocâd dwy wlad â newid tebyg yn eu sgôr fod yn wahanol oherwydd gwahanol feintiau samplau a thalgrynnu.

Mae'n bosibl y bydd newidiadau mewn sgorau yn ymddangos yn anghyson â'r sgorau gan eu bod wedi'u talgrynnu.


Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025 a 2022

At ei gilydd, o'r 75 o wledydd, gan gynnwys Cymru, a gymerodd ran yn PISA 2022 a 2025, gwelodd 15 o wledydd gynnydd sylweddol yn sgôr gwyddoniaeth gyfartalog eu dysgwyr yn 2025 o gymharu â 2022. Gwelodd 12 o wledydd eraill ostyngiad sylweddol yn sgôr gwyddoniaeth gyfartalog eu dysgwyr, ac ni welodd y 48 o wledydd eraill unrhyw newid sylweddol o ran sgorau gwyddoniaeth gyfartalog eu dysgwyr.

Mae Ffigur 2.1 yn dangos y tueddiadau dros amser o ran sgorau gwyddoniaeth cyfartalog dysgwyr yng Nghymru, Gwlad Belg, Denmarc, Seland Newydd a Gweriniaeth Iwerddon, yn ogystal â chyfartaledd tuedd yr OECD. Nid oedd unrhyw arwyddocâd rhwng sgôr gyfartalog dysgwyr yng Ngwlad Belg yn PISA 2025 (490) a'r sgôr yn PISA 2022 (491) a 2018 (499), ond roedd y sgôr hon yn sylweddol is na'r sgôr yn PISA 2015 (502). Yn Nenmarc, roedd sgôr gyfartalog dysgwyr yn PISA 2025 (478) yn sylweddol is na'r sgorau cyfartalog yn PISA 2022 (494), 2018 (493) a 2015 (502). Yn Seland Newydd a Gweriniaeth Iwerddon, nid oedd sgôr gyfartalog dysgwyr yn PISA 2025 (509 a 500, yn y drefn honno) yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog yn PISA 2022 (504 a 504), 2018 (508 a 496) a 2015 (513 a 503).

Ffigur 2.1 Tueddiadau o ran perfformiad gwyddoniaeth yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd tuedd yr OECD

Sgôr gwyddoniaeth gyfartalog gyffredinol



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	485	* 488	473	476
Gwlad Belg	* 502	499	491	490
Denmarc	* 502	* 493	* 494	478
Seland Newydd	513	508	504	509
Gweriniaeth Iwerddon	503	496	504	500
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* 491	489	487	484

Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio data PISA 2025 ar gyfer gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

2.6 Y gwahaniaethau rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf mewn gwyddoniaeth


Mae'n bwysig archwilio'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf mewn gwyddoniaeth. Hyd yn oed pan fydd gan ddysgwyr mewn dwy wlad sgorau cyfartalog tebyg mewn gwyddoniaeth, mae'n bosibl y bydd gwahaniaethau sylweddol o ran eu perfformiad ar draws yr ystod cyrhaeddiad. Er enghraifft, gall fod gan wlad ag amrediad cyrhaeddiad eang ganran gymharol uchel o ddysgwyr sy'n perfformio ar y lefelau isaf a chanran uchel o ddysgwyr sy'n perfformio ar y lefelau uchaf – bydd mwy o anghysondeb ymhlith ei phoblogaeth ddysgwyr. Ar y llaw arall, gall fod gan wlad ag amrediad cyrhaeddiad is lai o ddysgwyr â pherfformiad uchel iawn ond gall hefyd fod llai o ddysgwyr â pherfformiad isel – bydd llai o anghysondeb ymhlith ei dysgwyr. Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, byddai'n bosibl i ddysgwyr yn y ddwy wlad hyn gyflawni'r un sgôr gyfartalog, gan guddio gwahaniaethau pwysig rhyngddynt.

Un ffordd y gellir archwilio amrediad perfformiad pob gwlad yw drwy ystyried dosbarthiad sgorau'r wlad honno. Y 90ain canradd yw'r sgôr y mae'r 10% o'r dysgwyr â'r perfformiad uchaf yn ei chyrraedd, a'r 10fed canradd yw'r sgôr uchaf y mae'r 10% o ddysgwyr â'r perfformiad isaf yn ei chyrraedd. Mae'r gwahaniaeth rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf ar y 90ain a'r 10fed canradd, sef yr ystod ryngddegradd, yn well mesur o'r amrediad sgorau wrth gymharu gwledydd na defnyddio'r dysgwyr â'r perfformiad uchaf un a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf un gan y gallai nifer bach o ddysgwyr â sgorau anarferol o uchel neu isel effeithio ar yr ail ddull cymharu.

Yn PISA 2025, 261 o bwyntiau oedd yr ystod ryngddegradd rhwng y dysgwyr yng Nghymru â'r perfformiad uchaf a'r rhai â'r perfformiad isaf. Nid oedd yr ystod hon yn sylweddol wahanol i'r ystod yn PISA 2022, sef 255 o bwyntiau. Nid oedd yr ystod hon yn

sylweddol wahanol ychwaith i gyfartaledd yr OECD yn PISA 2025, sef 258 o bwyntiau. Mae Ffigur 2.2 yn dangos y duedd o ran dosbarthiad sgorau gwyddoniaeth PISA yng Nghymru ers PISA 2015.

Ffigur 2.2 Tueddiadau yn yr ystod o ran perfformiad gwyddoniaeth rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf yng Nghymru



Cylch PISA	Sgôr ar y 10fed canradd	Sgôr ar y 90ain canradd	Ystod rhyngddegradd
2025	345	606	261
2022	348	603	255
2018	* 371	603	* 232
2015	* 368	602	* 235

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru.
Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr berthnasol ar gyfer PISA 2025. Cyfrifwyd yr ystodau rhyngddegradd fel 90ain canradd – 10fed canradd.
Mae'n bosibl y bydd yr ystodau rhyngddegradd yn ymddangos yn anghyson â'r sgorau canradd gan eu bod wedi'u talgrynnu.


Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

Yn PISA 2025, y sgôr ar y 90ain canradd mewn gwyddoniaeth yng Nghymru oedd 606 o bwyntiau, a'r sgôr ar y 10fed canradd oedd 345 o bwyntiau. Nid oedd y sgorau hyn yn sylweddol wahanol i gyfartaleddau'r OECD, sef 610 a 351 o bwyntiau, yn y drefn honno.

Roedd yr ystod ryngddegradd yn Seland Newydd (284) yn sylweddol fwy na'r ystod yng Nghymru, ac roedd yr ystod yng Ngweriniaeth Iwerddon (243) yn sylweddol lai nag yng Nghymru. Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng yr ystod yng Nghymru a'r ystod yng Ngwlad Belg (270) a Denmarc (249).

Mae Ffigur 2.3 yn dangos y gwahaniaethau rhwng y sgôr ar y 90ain a'r 10fed canradd yng Nghymru, Gwlad Belg, Denmarc, Seland Newydd, a Gweriniaeth Iwerddon, yn ogystal ag ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD.

Ffigur 2.3 Ystod o ran perfformiad gwyddoniaeth rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD



Gwlad	Sgôr ar y 10fed canradd	Sgôr ar y 90ain canradd	Ystod rhyngddegradd
Cymru	345	606	261
Gwlad Belg	349	* 619	270
Denmarc	351	600	249
Seland Newydd	* 366	* 650	* 284
Gweriniaeth Iwerddon	* 376	* 619	* 243
Cyfartaledd yr OECD	351	610	258

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Mae seren () yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr berthnasol yng Nghymru.*

Cyfrifwyd yr ystodau rhyngddegradd fel 90ain canradd – 10fed canradd.

Mae'n bosibl y bydd yr ystodau rhyngddegradd yn ymddangos yn anghyson â'r sgorau canradd gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025


Er mwyn ystyried y gwahaniaethau hyn rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf mewn gwyddoniaeth yng Nghymru ymhellach, gellir cymharu'r sgorau ar y 90ain a'r 10fed canradd â sgorau gwledydd eraill. Nid oedd y sgôr ar y 90ain canradd yng Nghymru (606) yn sylweddol wahanol i'r sgôr ar y 90ain canradd yn Nenmarc (600) na'r cyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD (610). Roedd yn sylweddol is na'r sgorau perthnasol yng Ngwlad Belg (619), Seland Newydd (650) a Gweriniaeth Iwerddon (619).

Mae Ffigur 2.4 yn dangos y tueddiadau o ran perfformiad ar y 90ain canradd ers PISA 2015 ar gyfer Cymru, Gwlad Belg, Denmarc, Seland Newydd a Gweriniaeth Iwerddon, a chyfartaledd tuedd yr OECD. Nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y sgorau ar y 90ain canradd yng Nghymru yn PISA 2025 (606) o gymharu â 2022 (603), 2018 (603) a 2015 (602). Roedd yr un peth hefyd yn wir yng Ngweriniaeth Iwerddon ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD.

Yng Ngwlad Belg, nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y sgôr ar y 90ain canradd yn PISA 2025 (619) a'r sgorau perthnasol yn 2022 (618) a 2018 (624), ond roedd y sgôr hon yn sylweddol is na'r sgôr berthnasol yn 2015 (629). Yn Nenmarc, roedd y sgôr ar y 90ain canradd yn PISA 2025 (600) yn sylweddol is na'r sgorau perthnasol yn 2022 (615) a 2015 (617), ond nid oedd yn sylweddol wahanol i'r sgôr yn PISA 2018 (609). Yn Seland Newydd, nid oedd y sgôr ar y 90ain canradd yn PISA 2025 (650) yn sylweddol wahanol i'r sgorau perthnasol yn PISA 2022 (643) na PISA 2015 (647), ond roedd yn sylweddol uwch na'r sgôr berthnasol yn PISA 2018 (640).

Ffigur 2.4 Tueddiadau o ran perfformiad gwyddoniaeth ar y 90ain canradd yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd tuedd yr OECD

Sgôr gwyddoniaeth (90ain canradd)



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	602	603	603	606
Gwlad Belg	* 629	624	618	619
Denmarc	* 617	609	* 615	600
Seland Newydd	647	* 640	643	650
Gweriniaeth Lwerddon	618	610	621	619
Cyfartaledd tuedd yr OECD	612	609	614	612

Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio gwledydd PISA 2025 yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

Nid oedd y sgôr ar y 10fed canradd yng Nghymru (345) yn PISA 2025 yn sylweddol wahanol i'r sgôr ar y 10fed canradd yng Ngwlad Belg (349) a Denmarc (351) na'r sgôr


berthnasol ar gyfartaledd ar draws gwledydd tuedd yr OECD (353). Roedd yn sylweddol is na'r sgorau perthnasol yn Seland Newydd (366) a Gweriniaeth Iwerddon (376).

Yng Nghymru, nid oedd y sgôr ar y 10fed canradd yn PISA 2025 (345) yn sylweddol wahanol i'r sgôr berthnasol yn PISA 2022 (348) ond roedd yn sylweddol is na'r sgorau ar y 10fed canradd yn PISA 2018 (371) a PISA 2015 (368). Yn yr un modd, nid oedd sgôr cyfartaledd tuedd yr OECD ar y 10fed canradd yn PISA 2025 (353) yn sylweddol wahanol i'r sgôr berthnasol yn PISA 2022 (258), ond roedd yn sylweddol is na'r sgorau perthnasol yn PISA 2018 (365) a PISA 2015 (366).

Mae Ffigur 2.5 yn dangos y tueddiadau o ran perfformiad ar y 10fed canradd ar draws 4 cylch diweddaraf PISA ar gyfer Cymru, Gwlad Belg, Denmarc, Seland Newydd a Gweriniaeth Iwerddon a chyfartaledd tuedd yr OECD.

Yng Ngwlad Belg, nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y sgôr ar y 10fed canradd yn PISA 2025 (349) a'r sgorau perthnasol yn PISA 2022 (352) a PISA 2018 (363). Roedd y sgôr hon yn sylweddol is na'r sgôr berthnasol yn PISA 2015 (364). Yn Nenmarc, roedd y sgôr ar y 10fed canradd yn PISA 2025 (351) yn sylweddol is na'r sgorau perthnasol yn PISA 2022 (370), PISA 2018 (372) a PISA 2015 (383). Yn Seland Newydd a Gweriniaeth Iwerddon, nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y sgorau ar y 10fed canradd yn PISA 2025 (366 a 376 yn y drefn honno) a'r sgorau perthnasol yn PISA 2022, 2018 a 2015.

Ffigur 2.5 Tueddiadau o ran perfformiad gwyddoniaeth ar y 10fed canradd yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd tuedd yr OECD



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	* 368	* 371	348	345
Gwlad Belg	* 364	363	352	349
Denmarc	* 383	* 372	* 370	351
Seland Newydd	374	371	362	366
Gweriniaeth Iwerddon	387	380	384	376
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* 366	* 365	358	353

Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch PISA ers 2015, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.


Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

2.7 Perfformiad ar draws lefelau hyfedredd gwyddoniaeth

Ffordd arall o archwilio'r amrediad perfformiad yw ystyried perfformiad yng Nghymru ar bob un o lefelau hyfedredd gwyddoniaeth PISA. Mae lefelau hyfedredd PISA yn disgrifio'r tasgau y gall dysgwyr sy'n perfformio ar bob lefel eu gwneud. Cânt eu llunio ar sail ryngwladol ac maent wedi'u nodi yn yr adroddiad rhyngwladol (OECD, 2026). Caiff perfformiad gwyddoniaeth yn PISA ei ddisgrifio gan gyfeirio at 6 lefel hyfedredd (Lefelau 1-6, gyda Lefel 1 wedi'i his-rannu i 1b ac 1a). Caiff y lefelau hyfedredd hyn eu hamlinellu yn [Fframwaith Asesu a Dadansoddi PISA 2025](#). Ystyrir mai Lefel 2 yw'r lefel hyfedredd sylfaenol mewn gwyddoniaeth lle gall dysgwyr ddechrau defnyddio gwyddoniaeth mewn sefyllfaoedd go iawn, syml, y mae angen gallu ei wneud er mwyn cymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

Llwyddodd cyfanswm o 6% o ddysgwyr yng Nghymru i gyrraedd y lefelau hyfedredd gwyddoniaeth uchaf (Lefelau 5 neu 6) a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 7%. Yng Nghymru, roedd 27% o'r dysgwyr yn gweithio'n unol â'r lefelau hyfedredd is (islaw Lefel 2), nad oedd yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD, sef 26%. Mae Ffigur 2.6 yn dangos canran y dysgwyr yng Nghymru a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd gwyddoniaeth dros 4 cylch diweddaraf PISA.

Ffigur 2.6 Canran y dysgwyr a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd gwyddoniaeth yng Nghymru yn PISA 2025, 2022, 2018 a 2015



Cylch PISA	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu 6
2025	27%	27%	25%	15%	6%
2022	27%	28%	25%	14%	6%
2018	20%	28%	30%	18%	5%
2015	22%	29%	28%	17%	5%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru.


Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oedd modd cyfrifo a oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng canrannau ar draws cylchoedd PISA.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

Mae Ffigur 2.7 yn dangos canran y dysgwyr yng Nghymru, Gwlad Belg, Denmarc, Seland Newydd, a Gweriniaeth Iwerddon ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD, a gyrhaeddodd bob un o'r lefelau hyfedredd ar gyfer gwyddoniaeth yn PISA 2025.

Ffigur 2.7 Canran y dysgwyr a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd gwyddoniaeth yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol, ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD yn 2025



Gwlad	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu 6
Cymru	27%	27%	25%	15%	6%
Gwlad Belg	23%	* 22%	27%	* 20%	7%
Denmarc	25%	27%	28%	16%	5%
Seland Newydd	* 19%	* 22%	25%	* 20%	* 13%
Gweriniaeth Iwerddon	* 18%	25%	* 30%	* 20%	7%
Cyfartaledd yr OECD	26%	25%	25%	17%	* 7%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys

Mae seren () yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr berthnasol yng Nghymru.*

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol ar gyfer gwlad yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

Ar y lefelau hyfedredd uchaf (Lefelau 5 neu 6), nid oedd canran y dysgwyr yng Nghymru (6%) yn sylweddol wahanol i'r ganran yng Ngwlad Belg (7%), Denmarc (5%), na Gweriniaeth Iwerddon (7%) ond roedd yn sylweddol lai na chanran y dysgwyr yn Seland Newydd (13%).

Ar y lefelau hyfedredd isaf (islaw Lefel 2), nid oedd canran y dysgwyr yng Nghymru (27%) yn sylweddol wahanol i ganran y dysgwyr yng Ngwlad Belg (23%) na Denmarc (25%). Roedd y ganran hon yn sylweddol fwy na'r canrannau perthnasol yn Seland Newydd (19%) a Gweriniaeth Iwerddon (18%).

3 Perfformiad mewn darllen

3.1 Trosolwg o'r bennod

Mae'r bennod hon yn adrodd ar berfformiad dysgwyr yng Nghymru ym maes darllen PISA 2025. Mae'n seiliedig ar ganfyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad rhyngwladol (OECD, 2026) ac mae'n gosod canlyniadau dysgwyr Cymru yng nghyd-destun y canfyddiadau hynny. Caiff y perfformiad hwn ei ystyried ochr yn ochr â pherfformiad mewn cylchoedd blaenorol: PISA 2022, 2018, a 2015. Mae'n amlinellu sut mae perfformiad dysgwyr yng Nghymru yn 2025 yn cymharu â pherfformiad dysgwyr yn y gwledydd eraill a gymerodd ran, ac yn nodi sut mae'r perfformiad hwnnw wedi newid dros amser. Aseswyd darllen gan ddefnyddio'r [fframwaith darllen](#) a ddatblygwyd ar gyfer PISA 2018.

3.2 Canfyddiadau allweddol

- Cyflawnodd dysgwyr yng Nghymru sgôr gyfartalog o 459 mewn darllen yn PISA 2025, nad oedd yn sylweddol wahanol i sgôr gyfartalog yr OECD, sef 461 o bwyntiau.
- Nid oedd sgôr darllen gyfartalog dysgwyr yng Nghymru yn PISA 2025, sef 459, yn sylweddol wahanol i'r sgôr o 466 yn PISA 2022 ond roedd yn sylweddol is na'r sgôr o 483 yn PISA 2018 a'r sgôr o 477 yn PISA 2015.
- I'r gwrthwyneb i Gymru, profodd y rhan fwyaf o'r gwledydd â pherfformiad uchel³⁶ ostyngiadau sylweddol o ran sgorau darllen cyfartalog eu dysgwyr rhwng PISA 2022 a 2025. Cafwyd gostyngiad sylweddol hefyd yn y cyfartaledd ar draws gwledydd tuedd yr OECD³⁷ yn ystod y cyfnod hwn, o 477 yn PISA 2022 i 463 yn PISA 2025.
- Roedd sgôr darllen gyfartalog dysgwyr mewn 58 o wledydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd a gyflawnwyd gan ddysgwyr yng Nghymru, ac mewn 11 o wledydd eraill, nid oedd y sgôr darllen gyfartalog yn sylweddol wahanol i'r sgôr yng Nghymru. Ym mhob un o'r 20 o wledydd eraill, roedd sgôr darllen gyfartalog dysgwyr yn sylweddol uwch na sgôr gyfartalog dysgwyr yng Nghymru.
- Yr ystod rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf yng Nghymru oedd 258 o bwyntiau, nad oedd yn sylweddol wahanol i'r ystod yn PISA 2022, sef 263 o bwyntiau. Nid oedd hyn yn sylweddol wahanol ychwaith i ystod gyfartalog yr OECD yn PISA 2025, sef 264 o bwyntiau.
- Yng Nghymru, llwyddodd 4% o ddysgwyr i gyrraedd y lefelau hyfedredd darllen uchaf (Lefelau 5 neu 6), a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 6%.

³⁶ Gwledydd â pherfformiad uchel ym maes darllen yw'r gwledydd hynny y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr gyfartalog o dros 440 o bwyntiau.

³⁷ Mae'r 35 o wledydd tuedd yr OECD yn PISA 2025 yn cynnwys y gwledydd hynny sy'n rhan o'r OECD sydd wedi cymryd rhan ym mhob cylch ers PISA 2015, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Yng Nghymru, roedd 31% o'r dysgwyr yn gweithio'n unol â'r lefelau hyfedredd is (islaw Lefel 2) nad oedd yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD, sef 31%.

3.3 Cyflwyniad i ddarllen yn PISA

Diffinnir llythrennedd darllen yn PISA fel gallu dysgwyr i ddeall testunau, eu defnyddio, eu gwerthuso, myfyrio arnynt ac ymgysylltu â nhw er mwyn cyflawni eu nodau, meithrin eu gwybodaeth, datblygu eu potensial a chyfranogi mewn cymdeithas (OECD, 2023). Diwygiwyd y fframwaith ar gyfer asesu llythrennedd darllen dysgwyr ddiwethaf fel rhan o PISA 2018. Darllen oedd y prif faes asesu yn ystod y cylch hwnnw.

Mae fframwaith llythrennedd darllen PISA yn nodi 4 sgil darllen y mae darllenwyr yn eu defnyddio ac yn dibynnu arnynt wrth ymgysylltu â thestunau. Mae hefyd yn darparu disgrifyddion cryno o'r mathau o dasgau y gallai dysgwyr sy'n cymryd rhan ddod ar eu traws, y mae pob un wedi'i chynllunio i asesu'r gwahanol brosesau deall hyn. Y sgiliau hyn yw:

1. **canfod gwybodaeth** – mae'n ofynnol i ddysgwyr chwilio am destunau priodol a'u dewis er mwyn helpu i ateb cwestiynau, a/neu nodi gwybodaeth berthnasol yn y testunau hynny
2. **deall** – mae'n ofynnol i ddysgwyr nodi ystyron penodol testunau yn ogystal â dod i gasgliadau – bydd angen i ddysgwyr integreiddio gwybodaeth o fewn y testunau hynny hefyd
3. **gwerthuso a myfyrio** – mae'n ofynnol i ddysgwyr asesu ansawdd a hygrededd testun, gan fyfyrar gynnwys testunau a'u ffurf, a chanfod a datrys achosion o wrthdaro o fewn testunau a rhwng testunau
4. **rhuglder darllen** – pa mor dda y mae dysgwyr yn prosesu geiriau a thestunau'n gywir ac yn awtomatig i ddeall ystyr penodol – yn PISA, dim ond drwy dasgau lefel is ar destunau symlach y caiff hyn ei fesur

Ceir rhagor o wybodaeth am fframwaith llythrennedd darllen cyfredol PISA ac enghreifftiau o eitemau o brofion darllen o gylchoedd blaenorol PISA yn [Fframwaith Darllen PISA 2025](#) yr OECD.

3.4 Perfformiad dysgwyr yng Nghymru mewn darllen

Cyflawnodd dysgwyr yng Nghymru a gymerodd ran yn PISA 2025 sgôr gyfartalog o 459 mewn darllen. Nid oedd hyn yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD, sef 461.

Cyflawnodd dysgwyr mewn 58 allan o'r 89 o wledydd eraill a gymerodd ran sgôr darllen gyfartalog a oedd yn sylweddol is na'r sgôr yng Nghymru, ac mewn 11 o wledydd eraill, nid oedd sgorau darllen cyfartalog dysgwyr yn sylweddol wahanol i'r sgorau yng Nghymru. Ym mhob un o'r 20 o wledydd eraill, roedd sgôr darllen gyfartalog dysgwyr yn sylweddol uwch

na'r sgôr yng Nghymru. Mae Tabl 3.1 yn dangos sgôr darllen gyfartalog dysgwyr yng Nghymru o gymharu â dysgwyr mewn gwledydd eraill â pherfformiad uchel ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD.

Tabl 3.1 Sgorau darllen cyfartalog dysgwyr mewn gwledydd â pherfformiad uchel yn PISA 2025 o gymharu â sgôr gyfartalog dysgwyr yng Nghymru

Perfformiad darllen o gymharu â dysgwyr yng Nghymru	Y wlad a'r sgôr darllen gyfartalog
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr darllen gyfartalog a oedd yn sylweddol uwch na'r sgôr yng Nghymru yn PISA 2025	Singapore (535), rhanbarthau Beijing, Shanghai, Jiangsu, a Zhejiang yn Tsieina (B-S-J-Z Tsieina) (527), Taiwan (508), Japan (503), Macao (501), De Korea (501), Gweriniaeth Iwerddon (500), Estonia (499), Seland Newydd (497), Awstralia (491), Canada (490), yr Unol Daleithiau (490), Gwlad Pwyl (482), Hong Kong (480), y Ffindir (474), yr Eidal (474), Türkiye (472), y Swistir (470), y Weriniaeth Tsiec (468), ac Awstria (467)
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr darllen gyfartalog nad oedd yn sylweddol wahanol i'r sgôr yng Nghymru yn PISA 2025	Sweden (466), Gwlad Belg (466), yr Almaen (465), Lithwania (464), Portiwgal (462), cyfartaledd yr OECD (461) , Denmarc (460), Cymru (459) , Ffrainc (456), Croatia (453), Norwy (453), Hwngari (452), a Sbaen (451)
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr darllen gyfartalog a oedd yn sylweddol is na'r sgôr yng Nghymru yn PISA 2025	Y Weriniaeth Slofac (448), Slofenia (445), Lwcsembwrg (443), a'r Iseldiroedd (441), yn ogystal â'r 54 o wledydd eraill y cyflawnodd eu dysgwyr sgorau cyfartalog islaw 440 o bwyntiau.

Sail: Pob gwlad a gymerodd ran â sgorau cyfartalog dros 440 mewn darllen yn PISA 2025.

Gall canlyniadau profion arwyddocâd dwy wlad â'r un sgôr fod yn wahanol oherwydd gwahanol feintiau samplau a thalgrynau.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

Ymhlith y 37 o wledydd eraill yr OECD a gymerodd ran yn 2025, roedd gan ddysgwyr mewn 12 gwlad sgôr gyfartalog a oedd yn sylweddol is na'r sgôr yng Nghymru. Roedd gan ddysgwyr mewn 10 gwlad sgôr gyfartalog nad oedd yn sylweddol wahanol i'r sgôr yng Nghymru, ac roedd gan ddysgwyr mewn 15 o wledydd sgôr gyfartalog a oedd yn sylweddol uwch na'r sgôr yng Nghymru.

O blith y 90 o wledydd a gymerodd ran, gan gynnwys Cymru, roedd sgôr darllen gyfartalog dysgwyr mewn 20 o wledydd yn sylweddol uwch na chyfartaledd yr OECD, ac mewn 8 gwlad, gan gynnwys Cymru, nid oedd y sgôr gyfartalog yn sylweddol wahanol i gyfartaledd

yr OECD. Roedd sgôr darllen gyfartalog dysgwyr yn y 62 o wledydd eraill yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD.

Mewn perthynas â'r gwledydd cymharol, nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng sgôr darllen gyfartalog dysgwyr yng Nghymru (459) a sgôr dysgwyr yng Ngwlad Belg (466) a Denmarc (460). Roedd sgorau cyfartalog dysgwyr yn Seland Newydd (497) a Gweriniaeth Iwerddon (500) yn sylweddol uwch na sgôr gyfartalog dysgwyr yng Nghymru.

3.5 Perfformiad darllen dros amser

Cyflawnodd dysgwyr yng Nghymru sgôr gyfartalog o 459 mewn darllen yn PISA 2025, nad oedd yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog yn PISA 2022, sef 466. I'r gwrthwyneb, gostyngodd sgorau cyfartalog dysgwyr yn y rhan fwyaf o'r gwledydd â pherfformiad uchel yn PISA 2025 o gymharu â PISA 2022, gyda gostyngiad cyfartalog o 14 pwynt ar draws gwledydd tuedd yr OECD. Mae Tabl 3.2 yn dangos y newidiadau o ran sgorau darllen cyfartalog dysgwyr mewn gwledydd â pherfformiad uchel, gan gynnwys Cymru, a chyfartaledd tuedd yr OECD rhwng PISA 2022 a PISA 2025.

Roedd sgôr darllen gyfartalog dysgwyr yn PISA 2025 (459) yng Nghymru yn sylweddol is na'r sgorau yn PISA 2018 (483) a 2015 (477). Yn yr un modd, ar gyfartaledd ar draws gwledydd tuedd yr OECD, roedd y sgôr darllen gyfartalog yn PISA 2025 (463) hefyd yn sylweddol is na'r sgorau yn PISA 2022 (477), 2018 (488) a 2015 (490).

At ei gilydd, o'r 75 o wledydd, gan gynnwys Cymru, a gymerodd ran yn PISA 2022 a 2025, gwelodd 9 gwlad gynnydd sylweddol yn sgôr darllen gyfartalog eu dysgwyr yn 2025 o gymharu â 2022. Gwelodd 43 o wledydd eraill ostyngiad sylweddol yn sgôr darllen gyfartalog eu dysgwyr, ac ni welodd y 23 o wledydd eraill unrhyw newid sylweddol o ran sgorau darllen cyfartalog eu dysgwyr.

Tabl 3.2 Newidiadau o ran sgôr darllen gyfartalog dysgwyr rhwng PISA 2022 a PISA 2025 mewn gwledydd â pherfformiad uchel

Tuedd o ran perfformiad darllen	Y wlad a'r newid yn y sgôr darllen gyfartalog
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr darllen gyfartalog yn PISA 2025 a oedd yn sylweddol uwch na'r sgôr darllen gyfartalog yn PISA 2022	Türkiye (+16)
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr darllen gyfartalog yn PISA 2025 nad oedd yn sylweddol wahanol i'r sgôr darllen gyfartalog yn PISA 2022	Y Weriniaeth Slofac (+1), Seland Newydd (-4), Cymru (-7) , Gwlad Pwyl (-7), yr Eidal (-7), a Taiwan (-7)
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr darllen gyfartalog yn PISA 2025 a oedd yn sylweddol is na'r sgôr darllen gyfartalog yn PISA 2022	Awstralia (-7), Singapore (-8), Lithwania (-8), Macao (-9), Estonia (-12), Gwlad Belg (-13), Japan (-13), Awstria (-13), y Swistir (-13), cyfartaledd tuedd yr OECD (-14) , yr Unol Daleithiau (-14), yr Almaen (-15), Portiwgal (-15), De Korea (-15), Gweriniaeth Iwerddon (-16), y Ffindir (-16), Canada (-17), Ffrainc (-18), yr Iseldiroedd (-18), Hong Kong (-20), y Weriniaeth Tsiec (-20), Sweden (-21), Hwngari (-21), Croatia (-22), Sbaen (-23), Norwy (-24), Slofenia (-24), a Denmarc (-29)

Sail: Pob gwlad â pherfformiad uchel, h.y. â sgôr gyfartalog dros 440 mewn darllen, yn PISA 2025 a gymerodd ran yn PISA 2022 hefyd.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch ers PISA 2015, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli newidiadau amcangyfrifedig mewn sgorau gan na lwyddodd rhai o'r gwledydd sydd wedi'u cynnwys i gyrraedd un neu fwy o safonau samplu PISA yn PISA 2022.

Gall canlyniadau profion arwyddocaâ dwy wlad â newid tebyg yn eu sgôr fod yn wahanol oherwydd gwahanol feintiau samplau a thalgrynau.


Mae'n bosibl y bydd newidiadau mewn sgorau yn ymddangos yn anghyson â'r sgorau gan eu bod wedi'u talgrynau.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025 a 2022

Mae Ffigur 3.1 yn dangos y tueddiadau dros amser o ran sgorau darllen cyfartalog dysgwyr yng Nghymru, Gwlad Belg, Denmarc, Seland Newydd a Gweriniaeth Iwerddon, yn ogystal â chyfartaledd tuedd yr OECD. Roedd sgôr darllen gyfartalog dysgwyr yn PISA 2025 yng Ngwlad Belg, Denmarc a Gweriniaeth Iwerddon oll yn sylweddol is na'r sgorau perthnasol ym mhob un o'r 3 chylch PISA blaenorol. Roedd hyn yn gyson â'r duedd ehangach ymhlith gwledydd tuedd yr OECD, fel y dangosir gan y gostyngiad cyson yng nghyfartaledd tuedd yr OECD ers 2015. Yn Seland Newydd, nid oedd sgôr darllen

gyfartalog dysgwyr yn PISA 2025 (497) yn sylweddol wahanol i'r sgôr yn 2022 (501) ond roedd yn sylweddol is na'r sgôr yn 2018 (506) a 2015 (509).

Ffigur 3.1 Tueddiadau o ran perfformiad darllen yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd tuedd yr OECD



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	* 477	* 483	466	459
Gwlad Belg	* 499	* 493	* 479	466
Denmarc	* 500	* 501	* 489	460
Seland Newydd	* 509	* 506	501	497
Gweriniaeth Iwerddon	* 521	* 518	* 516	500
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* 490	* 488	* 477	463

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Mae seren () yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.*

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio data PISA 2025 ar gyfer gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015


3.6 Y gwahaniaethau rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf mewn darllen

Mae'n bwysig archwilio'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf mewn darllen. Hyd yn oed pan fydd gan ddysgwyr mewn dwy wlad sgorau cyfartalog tebyg mewn darllen, mae'n bosibl y bydd gwahaniaethau sylweddol o ran perfformiad eu dysgwyr ar draws yr ystod cyrhaeddiad. Er enghraifft, gall fod gan wlad ag amrediad cyrhaeddiad eang ganran gymharol uchel o ddysgwyr sy'n perfformio ar y lefelau isaf a chanran uchel o ddysgwyr sy'n perfformio ar y lefelau uchaf – bydd mwy o anghysondeb ymhlith ei phoblogaeth ddysgwyr. Ar y llaw arall, gall fod gan wlad ag amrediad cyrhaeddiad is lai o ddysgwyr â pherfformiad uchel iawn ond gall hefyd fod llai o ddysgwyr â pherfformiad isel – bydd llai o anghysondeb ymhlith ei dysgwyr. Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, byddai'n bosibl i ddysgwyr yn y ddwy wlad hyn gyflawni'r un sgôr gyfartalog, gan guddio gwahaniaethau pwysig rhyngddynt.

Un ffordd y gellir archwilio amrediad perfformiad pob gwlad yw drwy ystyried dosbarthiad sgorau'r wlad honno. Y 90ain canradd yw'r sgôr y mae'r 10% o'r dysgwyr â'r perfformiad uchaf yn ei chyrraedd, a'r 10fed canradd yw'r sgôr uchaf y mae'r 10% o ddysgwyr â'r perfformiad isaf yn ei chyrraedd. Mae'r gwahaniaeth rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf ar y 90ain a'r 10fed canradd, sef yr ystod ryngddegradd, yn well mesur o'r amrediad sgorau wrth gymharu gwledydd na defnyddio'r dysgwyr â'r perfformiad uchaf un a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf un gan y gallai nifer bach o ddysgwyr â sgorau anarferol o uchel neu isel effeithio ar yr ail ddull cymharu.

Yn PISA 2025, 258 o bwyntiau oedd yr ystod ryngddegradd rhwng y dysgwyr yng Nghymru â'r perfformiad uchaf a'r rhai â'r perfformiad isaf. Nid oedd yr ystod hon yn sylweddol wahanol i'r ystod yn PISA 2022, sef 263 o bwyntiau, na chyfartaledd yr OECD yn PISA 2025, sef 264 o bwyntiau. Mae Ffigur 3.2 yn dangos y duedd o ran dosbarthiad sgorau darllen PISA yng Nghymru ers PISA 2015.

Ffigur 3.2 Tueddiadau yn yr ystod o ran perfformiad darllen rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf yng Nghymru



Cylch PISA	Sgôr ar y 10fed canradd	Sgôr ar y 90ain canradd	Ystod rhyngddegradd
2025	327	585	258
2022	334	597	263
2018	* 359	* 608	250
2015	* 368	588	* 219

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru.

Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr berthnasol ar gyfer PISA 2025.

Cyfrifwyd yr ystodau rhyngddegradd fel 90ain canradd – 10fed canradd.

Mae'n bosibl y bydd yr ystodau rhyngddegradd yn ymddangos yn anghyson â'r sgorau canradd gan eu bod wedi'u talgrynnu.


Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

Yn PISA 2025, y sgôr ar y 90ain canradd mewn darllen yng Nghymru oedd 585 o bwyntiau, a'r sgôr ar y 10fed canradd oedd 327 o bwyntiau. Nid oedd y sgorau hyn yn sylweddol wahanol i gyfartaleddau'r OECD, sef 590 a 326 o bwyntiau, yn y drefn honno.

Roedd yr ystod ryngddegradd yng Ngwlad Belg (278) a Seland Newydd (301) yn sylweddol fwy na'r ystod yng Nghymru, ac roedd yr ystod yng Ngweriniaeth Iwerddon (242) yn sylweddol lai nag yng Nghymru. Nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng yr ystod yng Nghymru a'r ystod yn Nenmarc (248). Mae Ffigur 3.3 yn dangos y gwahaniaethau rhwng y sgôr ar y 90ain a'r 10fed canradd yng Nghymru, Gwlad Belg, Denmarc, Seland Newydd, a Gweriniaeth Iwerddon, yn ogystal ag ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD.

Er mwyn ystyried y gwahaniaethau hyn rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf mewn darllen yng Nghymru ymhellach, gellir cymharu'r sgorau ar y 90ain a'r 10fed canradd â sgorau gwledydd eraill. Nid oedd y sgôr ar y 90ain canradd yng Nghymru (585) yn sylweddol wahanol i'r sgôr ar y 90ain canradd yn Nenmarc (583) na'r cyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD (590). Roedd yn sylweddol is na'r sgorau perthnasol yng Ngwlad Belg (599), Seland Newydd (645) a Gweriniaeth Iwerddon (618).

Ffigur 3.3 Ystod o ran perfformiad darllen rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD



Gwlad	Sgôr ar y 10fed canradd	Sgôr ar y 90ain canradd	Ystod rhyngddegradd
Cymru	327	585	258
Gwlad Belg	321	* 599	* 278
Denmarc	334	583	248
Seland Newydd	* 344	* 645	* 301
Gweriniaeth Iwerddon	* 376	* 618	* 242
Cyfartaledd yr OECD	326	590	264

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Mae seren () yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr berthnasol yng Nghymru.*

Cyfrifwyd yr ystodau rhyngddegradd fel 90ain canradd – 10fed canradd.

Mae'n bosibl y bydd yr ystodau rhyngddegradd yn ymddangos yn anghyson â'r sgorau canradd gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025


Mae Ffigur 3.4 yn dangos y tueddiadau o ran perfformiad ar y 90ain canradd ers PISA 2015 ar gyfer Cymru, Gwlad Belg, Denmarc, Seland Newydd a Gweriniaeth Iwerddon, a chyfartaledd tuedd yr OECD. Nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y sgorau ar y 90ain canradd yng Nghymru yn PISA 2025 (585) o gymharu â 2022 (597), a 2015 (588), er bod y sgôr hon yn sylweddol is na'r sgôr yn 2018 (608).

Roedd y sgôr ar y 90ain canradd yng Ngwlad Belg, Denmarc, Gweriniaeth Iwerddon a chyfartaledd tuedd yr OECD yn sylweddol is na'r sgôr berthnasol yn PISA 2022, 2018 a 2015. Yn Seland Newydd, nid oedd y sgôr ar y 90ain canradd yn PISA 2025 (645) yn sylweddol wahanol i'r sgôr yn PISA 2022 (641), 2018 (640) a 2015 (643).

Nid oedd y sgôr ar y 10fed canradd yng Nghymru (327) yn PISA 2025 yn sylweddol wahanol i'r sgôr ar y 10fed canradd yng Ngwlad Belg (321) a Denmarc (334) na'r sgôr berthnasol ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD (326). Roedd yn sylweddol is na'r sgorau perthnasol yn Seland Newydd (344) a Gweriniaeth Iwerddon (376).

Yng Nghymru, nid oedd y sgôr ar y 10fed canradd yn PISA 2025 (327) yn sylweddol wahanol i'r sgôr berthnasol yn PISA 2022 (334) ond roedd yn sylweddol is na'r sgorau ar y 10fed canradd yn PISA 2018 (359) a PISA 2015 (368). Roedd sgôr cyfartaledd tuedd yr OECD ar y 10fed canradd yn PISA 2025 (327) yn sylweddol is na'r sgorau perthnasol yn PISA 2022 (343), PISA 2018 (355) a PISA 2015 (362).

Ffigur 3.4 Tueddiadau o ran perfformiad darllen ar y 90ain canradd yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd tuedd yr OECD



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	588	* 608	597	585
Gwlad Belg	* 623	* 623	* 610	599
Denmarc	* 608	* 618	* 605	583
Seland Newydd	643	640	641	645
Gweriniaeth Iwerddon	* 629	* 635	* 627	618
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* 610	* 614	* 606	593

Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.


Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio gwledydd PISA 2025 yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

Mae Ffigur 3.5 yn dangos y tueddiadau o ran perfformiad ar y 10fed canradd ar draws 4 cylch diweddaraf PISA ar gyfer Cymru, Gwlad Belg, Denmarc, Seland Newydd a Gweriniaeth Iwerddon a chyfartaledd tuedd yr OECD.

Ffigur 3.5 Tueddiadau o ran perfformiad darllen ar y 10fed canradd yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd tuedd yr OECD

Sgôr darllen (10fed canradd)



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	* 368	* 359	334	327
Gwlad Belg	* 360	* 352	* 337	321
Denmarc	* 383	* 380	* 368	334
Seland Newydd	* 368	* 362	354	344
Gweriniaeth Iwerddon	* 406	* 398	* 400	376
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* 362	* 355	* 343	327

Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch PISA ers 2015, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

Yn yr un modd â chyfartaledd tuedd yr OECD, yng Ngwlad Belg, Denmarc a Gweriniaeth Iwerddon roedd y sgôr ar y 10fed canradd yn PISA 2025 yn sylweddol is na sgôr y wlad honno yn PISA 2022, 2018 a 2015. Yn Seland Newydd, nid oedd y sgôr ar y 10fed


canradd yn PISA 2025 (344) yn sylweddol wahanol i'r sgôr yn PISA 2022 (354) ond roedd yn sylweddol is na'r sgôr yn PISA 2018 (362) a 2015 (368).

3.7 Perfformiad ar draws lefelau hyfedredd darllen

Ffordd arall o archwilio'r amrediad perfformiad yw ystyried perfformiad ar bob un o lefelau hyfedredd PISA. Mae lefelau hyfedredd PISA yn disgrifio'r tasgau y gall dysgwyr sy'n perfformio ar bob lefel eu gwneud. Cânt eu llunio ar sail ryngwladol ac maent wedi'u nodi yn yr adroddiad rhyngwladol (OECD, 2026). Caiff perfformiad darllen yn PISA ei ddisgrifio gan gyfeirio at 6 lefel hyfedredd (Lefelau 1-6, gyda Lefel 1 wedi'i his-rannu i 1a, 1b ac 1c). Caiff y lefelau perfformiad hyn eu hamlinellu yn [Fframwaith Asesu a Dadansoddi PISA 2025](#). Ystyrir mai Lefel 2 yw'r lefel hyfedredd sylfaenol mewn darllen lle mae dysgwyr yn meddu ar sgiliau darllen digonol i allu cymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

Llwyddodd cyfanswm o 4% o ddysgwyr yng Nghymru i gyrraedd y lefelau hyfedredd darllen uchaf (Lefelau 5 neu 6) a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 6%. Yng Nghymru, roedd 31% o'r dysgwyr yn gweithio'n unol â'r lefelau hyfedredd is (islaw Lefel 2), nad oedd yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD, sef 31%. Mae Ffigur 3.6 yn dangos canran y dysgwyr yng Nghymru a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd darllen dros 4 cylch diweddaraf PISA.

Ffigur 3.6 Canran y dysgwyr a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd darllen yng Nghymru yn PISA 2025, 2022, 2018 a 2015



Cylch PISA	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu 6
2025	31%	27%	25%	14%	4%
2022	29%	27%	24%	15%	5%
2018	22%	26%	27%	18%	7%
2015	21%	31%	29%	16%	4%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru.

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.


Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oedd modd cyfrifo a oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng canrannau ar draws cylchoedd PISA.

Ni chaiff canrannau islaw 4.5% eu harddangos ar y siart er mwyn sicrhau eglurder gweledol.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

Mae Ffigur 3.7 yn dangos canran y dysgwyr yng Nghymru, Gwlad Belg, Denmarc, Seland Newydd, a Gweriniaeth Iwerddon ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD, a gyflawnodd bob un o'r lefelau hyfedredd ar gyfer darllen yn PISA 2025.

Ffigur 3.7 Canran y dysgwyr a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd darllen yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD yn 2025



Gwlad	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu 6
Cymru	31%	27%	25%	14%	4%
Gwlad Belg	29%	* 24%	25%	* 17%	* 6%
Denmarc	29%	28%	26%	13%	4%
Seland Newydd	* 23%	* 21%	24%	* 19%	* 14%
Gweriniaeth Iwerddon	* 16%	* 24%	* 29%	* 22%	* 8%
Cyfartaledd yr OECD	31%	25%	24%	14%	* 6%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd yr adroddwyd arnynt.

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol ar gyfer gwlad yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Mae seren () yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr berthnasol yng Nghymru.*

Ni chaiff canrannau islaw 4.5% eu harddangos ar y siart er mwyn sicrhau eglurder gweledol.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

Ar y lefelau hyfedredd uchaf (Lefelau 5 neu 6), nid oedd canran y dysgwyr yng Nghymru (4%) yn sylweddol wahanol i'r ganran yn Nenmarc (4%) ond roedd yn sylweddol lai na chanran y dysgwyr yng Ngwlad Belg (6%), Seland Newydd (14%) a Gweriniaeth Iwerddon (8%).

Ar y lefelau hyfedredd isaf (islaw Lefel 2), nid oedd canran y dysgwyr yng Nghymru (31%) yn sylweddol wahanol i'r ganran yng Ngwlad Belg (29%) na Denmarc (29%), ond roedd yn sylweddol uwch na'r ganran yn Seland Newydd (23%) a Gweriniaeth Iwerddon (16%).

4 Perfformiad mewn mathemateg

4.1 Trosolwg o'r bennod

Mae'r bennod hon yn adrodd ar berfformiad dysgwyr yng Nghymru ym maes mathemateg PISA 2025. Mae'n seiliedig ar ganfyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad rhyngwladol (OECD, 2026) ac mae'n gosod canlyniadau dysgwyr Cymru yng nghyd-destun y canfyddiadau hynny. Caiff y perfformiad hwn ei ystyried ochr yn ochr â pherfformiad mewn cylchoedd blaenorol: PISA 2022, 2018, a 2015. Mae'n amlinellu sut mae perfformiad dysgwyr yng Nghymru yn 2025 yn cymharu â pherfformiad dysgwyr yn y gwledydd eraill a gymerodd ran, ac yn nodi sut mae'r perfformiad hwnnw wedi newid dros amser. Aseswyd mathemateg gan ddefnyddio'r [fframwaith mathemateg](#) a ddatblygwyd ar gyfer PISA 2022, sef y tro diwethaf y dewiswyd mathemateg fel y prif faes.

4.2 Canfyddiadau allweddol

- Cyflawnodd dysgwyr yng Nghymru sgôr mathemateg gyfartalog o 456 yn PISA 2025, a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 463.
- Roedd sgôr mathemateg gyfartalog dysgwyr yng Nghymru yn PISA 2025, sef 456, yn sylweddol is na'r sgorau cyfartalog yn PISA 2022 (466), 2018 (487) a 2015 (478).
- Yn yr un modd, cyfartaledd tuedd yr OECD³⁸ yn 2025 oedd 465, a oedd yn sylweddol is na chyfartaleddau tuedd yr OECD yn PISA 2022 (475), PISA 2018 (490) a PISA 2015 (487).
- Roedd sgôr mathemateg gyfartalog dysgwyr mewn 51 o wledydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd a gyflawnwyd gan ddysgwyr yng Nghymru, ac mewn 14 o wledydd eraill, nid oedd y sgôr mathemateg gyfartalog yn sylweddol wahanol i sgôr dysgwyr yng Nghymru. Ym mhob un o'r 24 o wledydd eraill, roedd sgôr mathemateg gyfartalog dysgwyr yn sylweddol uwch na sgôr gyfartalog dysgwyr yng Nghymru.
- Yr ystod rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf yng Nghymru yn PISA 2025 oedd 249 o bwyntiau. Nid oedd hyn yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD, sef 244 o bwyntiau. Fodd bynnag, roedd yr ystodau yn PISA 2022 (233), 2018 (211) a 2015 (201) oll yn sylweddol lai na'r ystod yn PISA 2025 (249). Roedd ystodau cyfartaledd tuedd yr OECD yn PISA 2022 (237), 2018 (234) a 2015 (231) hefyd yn sylweddol lai na PISA 2025 (246).
- Yng Nghymru, llwyddodd 6% o ddysgwyr i gyrraedd y lefelau hyfedredd uchaf (Lefelau 5 neu 6), a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 8%. Yng

³⁸ Mae'r 35 o wledydd tuedd yr OECD yn PISA 2025 yn cynnwys y gwledydd hynny sy'n rhan o'r OECD sydd wedi cymryd rhan ym mhob cylch ers PISA 2015, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Nghymru, roedd 36% o'r dysgwyr yn gweithio'n unol â'r lefelau hyfedredd is (islaw Lefel 2) nad oedd yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD, sef 35%.

4.3 Cyflwyniad i fathemateg yn PISA

Ystyr llythrennedd mathemategol yn PISA yw gallu dysgwr i resymu mewn modd mathemategol ac i fformiwleiddio, defnyddio a dehongli mathemateg er mwyn datrys problemau mewn amrywiaeth o gyd-destunau go iawn (OECD, 2023). Diwygiwyd y fframwaith ar gyfer asesu llythrennedd mathemategol dysgwyr ddiwethaf fel rhan o PISA 2022. Mathemateg oedd y prif faes asesu yn ystod y cylch hwnnw.

Mae fframwaith mathemateg PISA yn cysylltu rhesymu mathemategol a thair proses sy'n rhan o'r cylch datrys problemau (modelu mathemategol): fformiwleiddio, defnyddio, a dehongli a gwerthuso. Mae hefyd yn disgrifio sut y caiff gwybodaeth am gynnwys mathemategol ei threfnu'n bedwar is-faes cynnwys: swm, ansicrwydd a data, newid a pherthnasoedd, gofod a siâp.

Ceir rhagor o wybodaeth am fframwaith mathemateg cyfredol PISA ac enghreifftiau o eitemau o brofion mathemateg yn [fframwaith mathemateg](#) yr OECD.

4.4 Perfformiad dysgwyr yng Nghymru mewn mathemateg

Cyflawnodd dysgwyr yng Nghymru a gymerodd ran yn PISA 2025 sgôr gyfartalog o 456 mewn mathemateg. Roedd hyn yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 463.

Cyflawnodd dysgwyr mewn 51 allan o'r 89 o wledydd eraill a gymerodd ran sgôr gyfartalog a oedd yn sylweddol is na'r sgôr yng Nghymru, ac mewn 14 o wledydd eraill, nid oedd sgorau mathemateg gyfartalog dysgwyr yn sylweddol wahanol i'r sgorau yng Nghymru. Ym mhob un o'r 24 o wledydd eraill, roedd sgôr mathemateg gyfartalog dysgwyr yn sylweddol uwch na'r sgôr yng Nghymru. Mae Tabl 4.1 yn dangos sgôr mathemateg gyfartalog dysgwyr yng Nghymru o gymharu â dysgwyr mewn gwledydd eraill â pherfformiad uchel³⁹ ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD.

Ymhlith y 37 o wledydd eraill yr OECD a gymerodd ran yn 2025, roedd gan ddysgwyr mewn 6 gwlad sgôr gyfartalog a oedd yn sylweddol is na'r sgôr yng Nghymru. Roedd gan ddysgwyr mewn 12 gwlad sgôr gyfartalog nad oedd yn sylweddol wahanol i'r sgôr yng Nghymru, ac roedd gan ddysgwyr mewn 19 o wledydd sgôr gyfartalog a oedd yn uwch na'r sgôr yng Nghymru.

³⁹ Gwledydd â pherfformiad uchel ym maes mathemateg yw'r gwledydd hynny y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr gyfartalog o dros 440 o bwyntiau.

Tabl 4.1 Sgorau mathemateg gyfartalog dysgwyr mewn gwledydd â pherfformiad uchel yn PISA 2025 o gymharu â sgôr gyfartalog dysgwyr yng Nghymru

Perfformiad mathemateg o gymharu â dysgwyr yng Nghymru	Y wlad a'r sgôr mathemateg gyfartalog
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr mathemateg gyfartalog a oedd yn sylweddol uwch na'r sgôr yng Nghymru yn PISA 2025	Rhanbarthau Beijing, Shanghai, Jiangsu, a Zhejiang yn Tsieina (B-S-J-Z Tsieina) (612), Singapore (563), Macao (549), Taiwan (546), Japan (525), De Korea (522), Hong Kong (522), Estonia (508), y Swistir (499), Canada (485), Gwlad Pwyl (484), yr Iseldiroedd (483), Gweriniaeth Iwerddon (480), Gwlad Belg (480), Seland Newydd (480), Awstralia (478), Awstria (477), y Weriniaeth Tsiec (477), Denmarc (471), Lithwania (470), y Weriniaeth Slofac (469), y Ffindir (469), yr Eidal (468), Sweden (464), a chyfartaledd yr OECD (463)
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr mathemateg gyfartalog nad oedd yn sylweddol wahanol i'r sgôr yng Nghymru yn PISA 2025	Yr Almaen (464), yr Unol Daleithiau (463), Türkiye (462), Latfia (460), Portiwgal (460), Slofenia (460), Hwngari (459), Lwcsembwrg (458), Ffrainc (458), Sbaen (457), Cymru (456) , Croatia (455), yr Emiradau Arabaidd Unedig (453), Norwy (452), a Gwlad yr Iâ (450)
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr mathemateg gyfartalog a oedd yn sylweddol is na'r sgôr yng Nghymru yn PISA 2025	Fietnam (443) a'r 50 o wledydd eraill y cyflawnodd eu dysgwyr sgorau cyfartalog islaw 440 o bwyntiau.

Sail: Pob gwlad a gymerodd ran â sgorau cyfartalog dros 440 mewn mathemateg yn PISA 2025.

Gall canlyniadau profion arwyddocâd dwy wlad â'r un sgôr fod yn wahanol oherwydd gwahanol feintiau samplau a thalgrynau.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

Yn PISA 2025, o blith y 90 o wledydd a gymerodd ran, gan gynnwys Cymru, roedd gan ddysgwyr mewn 22 o wledydd sgôr mathemateg gyfartalog a oedd yn sylweddol uwch na chyfartaledd yr OECD, ac roedd gan ddysgwyr mewn 9 gwlad sgôr gyfartalog nad oedd yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD. Roedd gan ddysgwyr yn y 59 o wledydd eraill sgôr gyfartalog a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD.

Mewn perthynas â'r gwledydd cymharol, roedd sgorau cyfartalog dysgwyr yng Ngwlad Belg (480), Denmarc (471), Seland Newydd (480) a Gweriniaeth Iwerddon (480) yn sylweddol uwch na sgôr gyfartalog dysgwyr yng Nghymru (456).

4.5 Perfformiad mathemateg dros amser

Cyflawnodd dysgwyr yng Nghymru sgôr gyfartalog o 456 mewn mathemateg yn PISA 2025, a oedd yn sylweddol is na'r sgôr gyfartalog yn PISA 2022, sef 466. Roedd y sgôr gyfartalog yn PISA 2025 hefyd yn sylweddol is na'r sgôr gyfartalog yn PISA 2018, sef 487 a'r sgôr gyfartalog yn 2015, sef 478.

Yn yr un modd, roedd cyfartaledd tuedd yr OECD mewn mathemateg yn PISA 2025 (465) yn sylweddol is na chyfartaleddau tuedd yr OECD yn PISA 2022 (475), 2018 (490) a 2015 (487). Mae Tabl 4.2 yn dangos y newidiadau o ran sgorau mathemateg cyfartalog dysgwyr mewn gwledydd â pherfformiad uchel, gan gynnwys Cymru, a chyfartaledd tuedd yr OECD rhwng PISA 2022 a PISA 2025.

At ei gilydd, o'r 75 o wledydd, gan gynnwys Cymru, a gymerodd ran yn PISA 2022 a PISA 2025, gwelodd 9 gwlad gynnydd sylweddol yn sgôr mathemateg gyfartalog eu dysgwyr yn 2025 o gymharu â 2022. Gwelodd 40 o wledydd eraill ostyngiad sylweddol yn sgôr mathemateg gyfartalog eu dysgwyr, ac ni welodd y 26 o wledydd eraill unrhyw newid sylweddol o ran sgorau mathemateg cyfartalog eu dysgwyr.

Tabl 4.2 Newidiadau o ran sgôr mathemateg gyfartalog dysgwyr rhwng PISA 2022 a PISA 2025 mewn gwledydd â pherfformiad uchel

Tuedd o ran perfformiad mathemateg	Y wlad a'r newid yn sgôr mathemateg gyfartalog dysgwyr
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr mathemateg gyfartalog yn PISA 2025 a oedd yn sylweddol uwch na'r sgôr mathemateg gyfartalog yn PISA 2022	Yr Emiradau Arabaidd Unedig (+21) a Türkiye (+8)
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr mathemateg gyfartalog yn PISA 2025 nad oedd yn sylweddol wahanol i'r sgôr mathemateg gyfartalog yn PISA 2022	Y Weriniaeth Slofac (+5), Seland Newydd (+1), Taiwan (-1), yr Unol Daleithiau (-2), Estonia (-2), Macao (-3), yr Eidal (-3), Lithwania (-5), Gwlad Pwyl (-5), De Korea (-5), yr Iseldiroedd (-9), a Japan (-10)
Gwledydd y cyflawnodd eu dysgwyr sgôr mathemateg gyfartalog yn PISA 2025 a oedd yn sylweddol is na'r sgôr mathemateg gyfartalog yn PISA 2022	Croatia (-8), y Swistir (-9), Gwlad yr Iâ (-9), cyfartaledd tuedd yr OECD (-9) , Awstralia (-10), Cymru (-10) , Gwlad Belg (-10), y Weriniaeth Tsiec (-10), Awstria (-10), yr Almaen (-11), Canada (-12), Singapore (-12), Gweriniaeth Iwerddon (-12), Portiwgal (-12), Hwngari (-13), y Ffindir (-15), Sbaen (-16), Ffrainc (-16), Norwy (-17), Sweden (-18), Hong Kong (-19), Denmarc (-19), Latfia (-23), Slofenia (-25), a Fietnam (-26)

Sail: Pob gwlad â pherfformiad uchel yn PISA 2025 a gymerodd ran yn PISA 2022 hefyd.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch ers PISA 2015, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli newidiadau amcangyfrifedig mewn sgorau gan na lwyddodd rhai o'r gwledydd sydd wedi'u cynnwys i gyrraedd un neu fwy o safonau samplu PISA yn PISA 2022.

Gall canlyniadau profion arwyddocâd dwy wlad â newid tebyg yn eu sgôr fod yn wahanol oherwydd gwahanol feintiau samplau a thalgrynnu.


Mae'n bosibl y bydd newidiadau mewn sgorau yn ymddangos yn anghyson â'r sgorau gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025 a 2022

Mae Ffigur 4.1 yn dangos y tueddiadau dros amser o ran sgorau mathemateg cyfartalog dysgwyr yng Nghymru, Gwlad Belg, Denmarc, Seland Newydd a Gweriniaeth Iwerddon, yn ogystal â chyfartaledd tuedd yr OECD. Yn debyg i Gymru, roedd sgôr gyfartalog dysgwyr yng Ngwlad Belg (480), Denmarc (471) a Gweriniaeth Iwerddon (480) yn PISA 2025 yn sylweddol is na'r sgôr gyfartalog gyfatebol yn y wlad berthnasol yn PISA 2022 (489, 489 a 492, yn y drefn honno), 2018 (508, 509, a 500, yn y drefn honno), a 2015 (507, 511, a 504, yn y drefn honno). Yn Seland Newydd, nid oedd unrhyw wahaniaeth

sylweddol rhwng sgôr gyfartalog dysgwyr yn PISA 2025 (480) a'r sgôr yn PISA 2022 (479), ond roedd y sgôr hon yn sylweddol is na'r sgorau yn PISA 2018 (494) a 2015 (495).

Ffigur 4.1 Tueddiadau o ran perfformiad mathemateg yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd tuedd yr OECD



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	* 478	* 487	* 466	456
Gwlad Belg	* 507	* 508	* 489	480
Denmarc	* 511	* 509	* 489	471
Seland Newydd	* 495	* 494	479	480
Gweriniaeth Iwerddon	* 504	* 500	* 492	480
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* 487	* 490	* 475	465

Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio data PISA 2025 ar gyfer gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

4.6 Y gwahaniaethau rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf mewn mathemateg


Mae'n bwysig archwilio'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf mewn mathemateg. Hyd yn oed pan fydd gan ddysgwyr mewn dwy wlad sgorau cyfartalog tebyg mewn mathemateg, mae'n bosibl y bydd gwahaniaethau sylweddol o ran perfformiad eu dysgwyr ar draws yr ystod cyrhaeddiad. Er enghraifft, gall fod gan wlad ag amrediad cyrhaeddiad eang ganran gymharol uchel o ddysgwyr sy'n perfformio ar y lefelau isaf a chanran uchel o ddysgwyr sy'n perfformio ar y lefelau uchaf – bydd mwy o anghysondeb ymhlith ei phoblogaeth ddysgwyr. Ar y llaw arall, gall fod gan wlad ag amrediad cyrhaeddiad is lai o ddysgwyr â pherfformiad uchel iawn ond gall hefyd fod llai o ddysgwyr â pherfformiad isel – bydd llai o anghysondeb ymhlith ei dysgwyr. Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, byddai'n bosibl i ddysgwyr yn y ddwy wlad hyn gyflawni'r un sgôr gyfartalog, gan guddio gwahaniaethau pwysig rhyngddynt.

Un ffordd y gellir archwilio amrediad perfformiad pob gwlad yw drwy ystyried dosbarthiad sgorau'r wlad honno. Y 90ain canradd yw'r sgôr y mae'r 10% o'r dysgwyr â'r perfformiad uchaf yn ei chyrraedd, a'r 10fed canradd yw'r sgôr uchaf y mae'r 10% o ddysgwyr â'r perfformiad isaf yn ei chyrraedd. Mae'r gwahaniaeth rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf ar y 90ain a'r 10fed canradd, sef yr ystod ryngddegradd, yn well mesur o'r amrediad sgorau wrth gymharu gwledydd na defnyddio'r dysgwyr â'r perfformiad uchaf un a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf un gan y gallai nifer bach o ddysgwyr â sgorau anarferol o uchel neu isel effeithio ar yr ail ddull cymharu.

Yn PISA 2025, 249 o bwyntiau oedd yr ystod ryngddegradd rhwng y dysgwyr yng Nghymru â'r perfformiad uchaf a'r rhai â'r perfformiad isaf. Roedd yr ystod hon yn sylweddol fwy na'r ystod yn PISA 2022, sef 233 o bwyntiau, ond nid oedd yn sylweddol wahanol i ystod ryngddegradd cyfartaledd yr OECD yn PISA 2025, sef 244 o bwyntiau. Mae Ffigur 4.2 yn dangos y duedd o ran dosbarthiad sgorau mathemateg PISA yng Nghymru ers PISA 2015. Roedd y cynnydd yn yr ystod ryngddegradd yng Nghymru yn deillio'n bennaf o'r ffaith bod y sgôr ar y 10fed canradd wedi gostwng yn sylweddol ers hynny, ond bod y sgôr ar y 90ain canradd wedi aros yn gymharol sefydlog.

Yn PISA 2025, y sgôr ar y 90ain canradd mewn mathemateg yng Nghymru oedd 581 o bwyntiau. Nid oedd hyn yn sylweddol wahanol i'r cyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD, sef 585 o bwyntiau. Ar y 10fed canradd, y sgôr gyfartalog yng Nghymru oedd 331 o bwyntiau, a oedd yn sylweddol is na'r sgôr gyfartalog ar draws gwledydd yr OECD, sef 341 o bwyntiau.

Ffigur 4.2 Tueddiadau yn yr ystod o ran perfformiad mathemateg rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf yng Nghymru



Cylch PISA	Sgôr ar y 10fed canradd	Sgôr ar y 90ain canradd	Ystod rhyngddegradd
2025	331	581	249
2022	* 351	584	* 233
2018	* 381	592	* 211
2015	* 377	578	* 201

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru.

Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr berthnasol ar gyfer PISA 2025.


Cyfrifwyd yr ystodau rhyngddegradd fel 90ain canradd – 10fed canradd.

Mae'n bosibl y bydd yr ystodau rhyngddegradd yn ymddangos yn anghyson â'r sgorau canradd gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

Roedd yr ystod yn Seland Newydd (269) yn sylweddol fwy na'r ystod yng Nghymru, ac roedd yr ystod yng Ngweriniaeth Iwerddon (217) a Denmarc (224) yn sylweddol lai nag yng Nghymru. Nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng yr ystod yng Nghymru a'r ystod yng Ngwlad Belg (258). Mae Ffigur 4.3 yn dangos y gwahaniaethau rhwng y sgôr ar y 90ain a'r 10fed canradd yng Nghymru, Gwlad Belg, Denmarc, Seland Newydd, a Gweriniaeth Iwerddon, yn ogystal ag ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD.

Ffigur 4.3 Ystod o ran perfformiad mathemateg rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD



Gwlad	Sgôr ar y 10fed canradd	Sgôr ar y 90ain canradd	Ystod rhyngddegradd
Cymru	331	581	249
Gwlad Belg	* 347	* 605	258
Denmarc	* 357	581	* 224
Seland Newydd	* 346	* 615	* 269
Gweriniaeth Iwerddon	* 370	587	* 217
Cyfartaledd yr OECD	* 341	585	244

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Mae seren () yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr berthnasol yng Nghymru.*

Cyfrifwyd yr ystodau rhyngddegradd fel 90ain canradd – 10fed canradd.

Mae'n bosibl y bydd yr ystodau rhyngddegradd yn ymddangos yn anghyson â'r sgorau canradd gan eu bod wedi'u talgrynnu.


Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

Er mwyn ystyried y gwahaniaethau hyn rhwng y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf mewn mathemateg yng Nghymru ymhellach, gellir cymharu'r sgorau ar y 90ain a'r 10fed canradd â sgorau gwledydd eraill. Nid oedd y sgôr ar y 90ain canradd yng Nghymru (581) yn sylweddol wahanol i'r sgôr ar y 90ain canradd yn Nenmarc (581), Gweriniaeth Iwerddon (587), nac ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD (585). Roedd yn sylweddol is na'r sgorau perthnasol yng Ngwlad Belg (605) a Seland Newydd (615).

Mae Ffigur 4.4 yn dangos y tueddiadau o ran perfformiad ar y 90ain canradd ar draws 4 cylch diweddaraf PISA ar gyfer Cymru, Gwlad Belg, Denmarc, Seland Newydd, Gweriniaeth Iwerddon, a chyfartaledd tuedd yr OECD. Er na fu unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y sgôr ar y 90ain canradd yng Nghymru na Seland Newydd ers PISA 2015, bu gostyngiad yn y sgorau ar y 90ain canradd ar gyfartaledd ar draws gwledydd tuedd yr OECD ers PISA 2018. Mae hyn hefyd yn wir yn Nenmarc.

Ffigur 4.4 Tueddiadau o ran perfformiad mathemateg ar y 90ain canradd yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd tuedd yr OECD

Sgôr mathemateg (90ain canradd)



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	578	592	584	581
Gwlad Belg	* 630	* 628	614	605
Denmarc	* 614	* 613	* 595	581
Seland Newydd	613	614	609	615
Gweriniaeth Iwerddon	* 606	* 599	594	587
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* 601	* 605	* 594	588

Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.


Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio gwledydd PISA 2025 yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

Roedd y sgôr ar y 10fed canradd yng Nghymru (331) yn sylweddol is na'r sgorau perthnasol yng Ngwlad Belg (347), Denmarc (357), Seland Newydd (346), Gweriniaeth Iwerddon (370) ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD (342).

Mae Ffigur 4.5 yn dangos y duedd o ran perfformiad ar y 10fed canradd ar draws 4 cylch diweddaraf PISA ar gyfer Cymru, Gwlad Belg, Denmarc, Seland Newydd, Gweriniaeth Iwerddon, a chyfartaledd tuedd yr OECD.

Ffigur 4.5 Tueddiadau o ran perfformiad mathemateg ar y 10fed canradd yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd tuedd yr OECD



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	* 377	* 381	* 351	331
Gwlad Belg	* 374	* 377	* 359	347
Denmarc	* 405	* 401	* 383	357
Seland Newydd	* 375	* 372	350	346
Gweriniaeth Iwerddon	* 400	* 397	* 387	370
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* 370	* 371	* 356	342

Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio gwledydd PISA 2025 yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015


Roedd y sgôr ar y 10fed canradd yng Nghymru (331) yn PISA 2025 yn sylweddol is na'r sgorau yn PISA 2022, PISA 2018 a PISA 2015. Mae hyn yn adlewyrchu tuedd gyffredinol ar draws gwledydd tuedd yr OECD a'r rhan fwyaf o'r gwledydd cymharol, gyda gostyngiad yn y sgôr ar y 10fed canradd.

4.7 Perfformiad ar draws lefelau hyfedredd mathemateg

Ffordd arall o archwilio'r amrediad perfformiad yw ystyried perfformiad ar bob un o lefelau hyfedredd mathemateg PISA. Mae lefelau hyfedredd PISA yn disgrifio'r tasgau y gall dysgwyr sy'n perfformio ar bob lefel eu gwneud. Cânt eu llunio ar sail ryngwladol ac maent wedi'u nodi yn yr adroddiad rhyngwladol (OECD, 2026). Caiff perfformiad mathemateg yn PISA ei ddisgrifio gan gyfeirio at 6 lefel hyfedredd (Lefelau 1-6, gyda Lefel 1 wedi'i his-rannu i 1a, 1b ac 1c). Caiff y lefelau hyfedredd hyn eu hamlinellu yn [Fframwaith Asesu a Dadansoddi PISA 2025](#). Ystyrir mai Lefel 2 yw'r lefel hyfedredd sylfaenol mewn mathemateg lle gall dysgwyr ddechrau defnyddio mathemateg mewn sefyllfaoedd go iawn, syml, y mae angen gallu ei wneud er mwyn cymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

Cyfanswm o 6% o ddysgwyr yng Nghymru a lwyddodd i gyrraedd y lefelau hyfedredd uchaf (Lefelau 5 neu 6) a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 8%. Yng Nghymru, roedd 36% o'r dysgwyr yn gweithio'n unol â'r lefelau hyfedredd is (islaw Lefel 2), nad oedd yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD, sef 35%. Mae Ffigur 4.6 yn dangos canran y dysgwyr yng Nghymru a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd mathemateg dros 4 cylch diweddaraf PISA.

Ffigur 4.6 Canran y dysgwyr a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd mathemateg yng Nghymru yn PISA 2025, 2022, 2018 a 2015



Cylch PISA	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu 6
2025	36%	25%	21%	12%	6%
2022	32%	27%	23%	12%	6%
2018	21%	26%	28%	18%	7%
2015	23%	29%	28%	16%	5%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru.

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oedd modd cyfrifo a oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng canrannau ar draws cylchoedd PISA.


Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

Mae Ffigur 4.7 yn dangos dosbarthiad y dysgwyr yng Nghymru, Gwlad Belg, Denmarc, Seland Newydd, Gweriniaeth Iwerddon, ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD, a gyrhaeddodd bob un o'r lefelau hyfedredd ar gyfer mathemateg yn PISA 2025.

Ar y lefelau hyfedredd uchaf (Lefelau 5 neu 6), nid oedd canran y dysgwyr yng Nghymru (6%) yn sylweddol wahanol i ganran y dysgwyr yn Nenmarc (5%) na Gweriniaeth

Iwerddon (6%) ond roedd yn sylweddol lai na chanran y dysgwyr yng Ngwlad Belg (10%) a Seland Newydd (11%).

Ffigur 4.7 Canran y dysgwyr a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd mathemateg yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD yn 2025



Gwlad	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu 6
Cymru	36%	25%	21%	12%	6%
Gwlad Belg	* 28%	* 21%	23%	* 18%	* 10%
Denmarc	* 28%	26%	* 26%	* 15%	5%
Seland Newydd	* 29%	23%	21%	* 16%	* 11%
Gweriniaeth Iwerddon	* 24%	26%	* 27%	* 17%	6%
Cyfartaledd yr OECD	35%	23%	21%	14%	* 8%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Mae seren () yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr berthnasol yng Nghymru.*

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol ar gyfer gwlad yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

Ar y lefelau hyfedredd isaf (islaw Lefel 2), roedd canran y dysgwyr yng Nghymru (36%) yn sylweddol uwch na chanran y dysgwyr yng Ngwlad Belg (28%), Denmarc (28%), Seland Newydd (29%) a Gweriniaeth Iwerddon (24%).

5 Tegwch a Chynhwysiant – Rhywedd

5.1 Trosolwg o'r Bennod

Yn y bennod hon, rydym yn ystyried y gwahaniaethau rhwng sgorau PISA dysgwyr mewn gwyddoniaeth, darllen a mathemateg yn ôl rhywedd. Fel y disgrifiwyd ym mhennod 1, cyfartaledd yr OECD yw'r cyfartaledd ar gyfer y 38 o wledydd sy'n rhan o'r OECD a gymerodd ran yn 2025. Cyfartaledd tuedd yr OECD yw'r cyfartaledd ar gyfer y 35 o wledydd a gymerodd ran ym mhob un o 4 cylch diweddaraf PISA (2015, 2018, 2022 a 2025)⁴⁰.

5.2 Canfyddiadau allweddol

5.2.1 Gwyddoniaeth

- Yn 2025, cyflawnodd merched a bechgyn yng Nghymru sgorau cyfartalog o 476 a 475, yn y drefn honno, mewn gwyddoniaeth. Nid oedd y ddwy sgôr yn sylweddol⁴¹ wahanol i'r sgorau a gyflawnwyd yn 2022. Gwelwyd patrwm tebyg yng nghyfartaledd tuedd yr OECD heb unrhyw newidiadau sylweddol o ran sgorau merched na bechgyn rhwng 2022 a 2025.
- Dros y tymor hwy, roedd sgorau gwyddoniaeth merched yn sefydlog rhwng 2015 a 2025 ond roedd sgorau gwyddoniaeth bechgyn yn 2025 yn sylweddol is na'r sgorau a gyflawnwyd yn 2015. Roedd hyn yn wir i Gymru a chyfartaledd tuedd yr OECD.
- Yng Nghymru yn 2025, nid oedd bwch rhywedd sylweddol mewn gwyddoniaeth, gan barhau â'r patrwm a welwyd yn y 3 chylch PISA blaenorol. Dros yr un cyfnod, dangosodd cyfartaledd tuedd yr OECD fylchau rhywedd sylweddol yn 2025 a 2018 (o blaid merched) ac yn 2015 (o blaid bechgyn).
- Nid oedd unrhyw fwlch rhywedd ychwaith yng Nghymru yn 2025 o ran sgorau gwyddoniaeth ar y 10fed canradd na'r 90ain canradd yn y sgorau gwyddoniaeth.
- Yng Nghymru, cyflawnodd yr un ganran o ferched a bechgyn (6%) y lefelau hyfedredd gwyddoniaeth uchaf (Lefelau 5 neu 6) yn 2025 ac nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol ychwaith yng nghanran y merched (26%) a'r bechgyn (27%) a oedd yn perfformio islaw'r lefel hyfedredd gwyddoniaeth sylfaenol (Lefel 2).

⁴⁰ Mae'r 35 o wledydd tuedd yr OECD yn PISA 2025 yn cynnwys y gwledydd hynny sy'n rhan o'r OECD sydd wedi cymryd rhan ym mhob cylch ers PISA 2015, ac eithrio Costa Rica a Sbaen. Gweler pennod 1 am ragor o fanylion.

⁴¹ Yn yr adroddiad hwn, mae canfyddiadau a ddisgrifir fel rhai arwyddocaol neu sylweddol yn arwyddocaol yn ystadegol. Gweler pennod 1 am ragor o fanylion.

5.2.2 Darllen

- Yn 2025, cyflawnodd merched a bechgyn yng Nghymru sgorau darllen cyfartalog o 472 a 446, yn y drefn honno. Nid oedd y ddwy sgôr yn sylweddol wahanol i'r sgorau a gyflawnwyd yn 2022. I'r gwrthwyneb, roedd sgorau cyfartaledd tuedd yr OECD ar gyfer merched a bechgyn yn 2025 yn sylweddol is na'r sgorau a gyflawnwyd yn 2022.
- Dros y tymor hwy, roedd sgorau darllen merched yn sefydlog rhwng 2015 a 2025 ond cofnodwyd gostyngiad sylweddol o ran sgorau darllen bechgyn dros yr un cyfnod. Gostyngodd cyfartaleddau tuedd yr OECD ar gyfer merched a bechgyn yn sylweddol dros yr un cyfnod.
- Yn 2025, roedd perfformiad merched yng Nghymru yn sylweddol well na pherfformiad bechgyn o ran eu sgorau darllen cyfartalog, gyda'r bwlch rhywedd yn cynyddu'n sylweddol o 11 o bwyntiau yn 2015 i 26 o bwyntiau yn 2025. Dros yr un cyfnod, cafwyd bylchau rhywedd sylweddol hefyd o blaid merched o ran cyfartaleddau tuedd yr OECD gyda'r bwlch yn ehangu o 27 o bwyntiau yn 2015 i 30 o bwyntiau yn 2025.
- Adlewyrchwyd y bwlch rhywedd o ran sgorau darllen cyfartalog o blaid merched yng Nghymru yn 2025 ar y 10fed canradd a'r 90ain canradd o sgorau darllen ac o ran hyfedredd darllen. Yng Nghymru, cyflawnodd canran sylweddol fwy o ferched y lefelau hyfedredd darllen uchaf o gymharu â bechgyn (5% a 3% ar Lefelau 5 neu 6) yn 2025 a chyflawnodd canran sylweddol lai islaw'r lefel hyfedredd darllen sylfaenol (25% o gymharu â 35%).

5.2.3 Mathemateg

- Yn 2025, cyflawnodd merched a bechgyn yng Nghymru sgorau cyfartalog o 450 a 462, yn y drefn honno, mewn mathemateg. Ar gyfer merched, roedd hyn yn sylweddol is na'r sgôr a gyflawnwyd yn 2022 ond, ar gyfer bechgyn, nid oedd y sgôr yn sylweddol wahanol. Roedd cyfartaleddau tuedd yr OECD ar gyfer bechgyn a merched yn 2025 yn sylweddol is na'r cyfartaleddau tuedd yn 2022.
- Dros y tymor hwy, roedd sgorau mathemateg merched a bechgyn yn 2025 yn sylweddol is na'r sgorau yn 2015. Roedd hyn yn wir i Gymru ac ar gyfer cyfartaledd tuedd yr OECD.
- Yn 2025, perfformiodd bechgyn yn sylweddol well na merched o ran sgorau mathemateg cyfartalog, gan adlewyrchu'r perfformiad a welwyd yn PISA 2022 a 2015. Mae cyfartaleddau tuedd yr OECD yn dangos bod bechgyn wedi perfformio'n sylweddol well na merched ym mhob un o'r 4 cylch diweddaraf. Nid oedd unrhyw gynnydd na gostyngiad sylweddol yn y bwlch rhywedd mathemateg dros y cyfnod hwn yng Nghymru. Fodd bynnag, cynyddodd y bwlch rhywedd yn sylweddol o blaid bechgyn ar gyfer cyfartaledd tuedd yr OECD.

- Nid oedd y sgorau ar gyfer merched a bechgyn yng Nghymru ar y 10fed canradd a'r 90ain canradd yn sylweddol wahanol yn 2025.
- Ni chofnodwyd unrhyw wahaniaethau sylweddol yng nghanrannau'r merched a'r bechgyn a gyflawnodd y lefelau hyfedredd mathemateg uchaf (5% o gymharu â 7% ar Lefelau 5 neu 6) na chanrannau'r merched a'r bechgyn a berfformiodd islaw'r lefel hyfedredd mathemateg sylfaenol (38% o gymharu â 34% islaw Lefel 2).

5.3 A oedd gwahaniaeth o ran perfformiad gwyddoniaeth yn ôl rhywedd?


5.3.1 Sut gwnaeth merched yng Nghymru berfformio mewn gwyddoniaeth?

- Cyflawnodd merched sgôr gyfartalog o 476 mewn gwyddoniaeth yn 2025.
- Nid oedd y sgôr ar gyfer merched yn 2025 yn sylweddol wahanol i'r sgorau cyfartalog a gyflawnwyd yn 2022 na 2015.
- Roedd sgôr 2025 yn sylweddol is na'r sgôr a gyflawnwyd yn 2018, sef 491 (gweler Ffigur 5.1).

5.3.2 Sut gwnaeth bechgyn yng Nghymru berfformio mewn gwyddoniaeth?

- Perfformiodd bechgyn ar lefel debyg i ferched mewn gwyddoniaeth gan gyflawni sgôr o 475 yn 2025 (nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y sgorau).
- Nid oedd y sgôr yn 2025 yn sylweddol wahanol i'r sgorau a gyflawnwyd yn 2022 na 2018, ond roedd yn sylweddol is na'r sgôr a gyflawnwyd yn 2015, sef 487 (gweler Ffigur 5.1).

Ffigur 5.1 Tuedd o ran perfformiad gwyddoniaeth merched a bechgyn yng Nghymru



Rhywedd	2015	2018	2022	2025
Merched	482	* 491	469	476
Bechgyn	* 487	486	477	475

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru.

Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog ar gyfer PISA 2025.

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.


Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

5.3.3 Beth mae PISA yn ei ddweud wrthym am berfformiad merched mewn gwyddoniaeth?

Mae Ffigur 5.2 yn dangos bod tuedd sefydlog ar gyfer perfformiad gwyddoniaeth merched yng Nghymru rhwng 2015 a 2025 heb unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y sgorau (482 a 476 yn y drefn honno). Gwelwyd yr un duedd ym mhob un o'r gwledydd cymharol (ac eithrio Denmarc) a chafodd ei hadlewyrchu yng nghyfartaledd tuedd yr OECD. Yn Nenmarc, roedd tuedd sylweddol ar i lawr o ran sgorau gwyddoniaeth merched rhwng 2015 (499) a 2025 (477).

Nid oedd y sgôr gyfartalog ar gyfer merched yng Nghymru yn 2022 (469) yn sylweddol wahanol i'r sgôr yn 2025 (476) ychwaith. Gwelwyd y patrwm hwn hefyd ym mhob un o'r gwledydd cymharol (ac eithrio Denmarc) ac yng nghyfartaleddau tuedd yr OECD. Fodd bynnag, roedd y sgôr ar gyfer merched yng Nghymru yn 2025 (476) yn sylweddol is na sgôr 2018 (491), patrwm a welwyd hefyd yn Nenmarc.

Ffigur 5.2 Tueddiadau o ran perfformiad gwyddoniaeth merched yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	482	* 491	469	476
Gwlad Belg	496	496	491	491
Denmarc	* 499	* 494	* 490	477
Seland Newydd	511	508	504	510
Gweriniaeth Iwerddon	497	497	501	496
Cyfartaledd tuedd yr OECD	489	490	487	485

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.
Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio data PISA 2025 ar gyfer gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015


5.3.4 Beth mae PISA yn ei ddweud wrthym am berfformiad bechgyn mewn gwyddoniaeth?

Mae Ffigur 5.3 yn dangos rhwng 2015 a 2025 y bu tuedd ar i lawr o ran sgôr gwyddoniaeth gyfartalog bechgyn yng Nghymru gyda'r sgôr yn 2025 (475) yn sylweddol is na'r sgôr gyfatebol yn 2015 (487). Adlewyrchwyd y patrwm hwn yng Ngwlad Belg a Denmarc yn ogystal ag yng nghyfartaledd tuedd yr OECD. Yn Seland Newydd a Gweriniaeth Iwerddon, nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng sgorau gwyddoniaeth bechgyn yn 2015 a 2025.

Fodd bynnag, nid oedd y sgorau cyfartalog ar gyfer bechgyn yng Nghymru yn 2018 (486) na 2022 (477) yn sylweddol wahanol i'r sgôr yn 2025 (475). Gwelwyd y patrwm hwn hefyd yn Seland Newydd, Gweriniaeth Iwerddon ac yng nghyfartaleddau tuedd yr OECD. Yng Ngwlad Belg, roedd y sgôr gwyddoniaeth gyfartalog ar gyfer 2025 (489) yn sylweddol is na'r sgôr ar gyfer 2018 (501) ac yn Nenmarc roedd y sgôr gwyddoniaeth gyfartalog ar gyfer 2025 (478) yn sylweddol is na'r sgorau ar gyfer 2018 (492) a 2022 (497).

Ffigur 5.3 Tueddiadau o ran perfformiad gwyddoniaeth bechgyn yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD

Sgôr gwyddoniaeth gyfartalog gyffredinol i fechgyn



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	* 487	486	477	475
Gwlad Belg	* 508	* 501	491	489
Denmarc	* 505	* 492	* 497	478
Seland Newydd	516	509	504	508
Gweriniaeth Iwerddon	508	495	507	503
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* 492	488	486	483

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Mae seren () yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.*

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio data PISA 2025 ar gyfer gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015


5.3.5 Sut mae bylchau rhywedd mewn perfformiad gwyddoniaeth wedi newid dros amser?

Fel y dangosir yn Ffigur 5.4, nid oedd unrhyw fwlch sylweddol rhwng sgorau gwyddoniaeth cyfartalog merched a bechgyn yng Nghymru yn PISA 2025 (2 bwynt) nac ym mhob un o'r 3 chylch blaenorol⁴². Gwelwyd y patrwm hwn hefyd o ran perfformiad merched a bechgyn yn Seland Newydd.

Yng Ngwlad Belg, roedd bwlch sylweddol (–12 pwynt) rhwng perfformiad merched a bechgyn yn 2015 (o blaid bechgyn) ac roedd hyn hefyd yn wir yn Nenmarc yn 2022 (–7 pwynt) a Gweriniaeth Iwerddon yn 2015 (–11 pwynt) a 2025 (–7 pwynt). Ym mhob achos, roedd y bylchau o blaid bechgyn. Dangosodd cyfartaleddau tuedd yr OECD fylchau sylweddol yn 2025 a 2018 (2 bwynt ar gyfer y ddau gylch) o blaid merched ac yn 2015 (–3) o blaid bechgyn, heb unrhyw wahaniaeth sylweddol yn 2022.

⁴² Cafodd y bylchau eu cyfrifo fel y sgôr gyfartalog ar gyfer merched – y sgôr gyfartalog ar gyfer bechgyn. Mae rhif negatif yn nodi bod y sgôr gyfartalog ar gyfer merched yn is na'r sgôr ar gyfer bechgyn.

Ffigur 5.4 Bylchau rhywedd o ran perfformiad gwyddoniaeth yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	-5	5	-7	2
Gwlad Belg	* -12	-5	0	2
Denmarc	-6	2	* -7	-1

Gwlad	2015	2018	2022	2025
Seland Newydd	-5	-2	1	2
Gweriniaeth Iwerddon	* -11	1	-6	* -7
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* -3	* 2	1	* 2

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Cyfrifwyd y bylchau fel sgorau merched – sgorau bechgyn.

Mae seren (*) yn nodi bod sgorau cyfartalog merched yn sylweddol wahanol i sgorau cyfartalog bechgyn o fewn cylchoedd PISA unigol.

Ni lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA yn PISA 2022.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio data PISA 2025 ar gyfer gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

Fel y dangosir yn Nhabl 5.1, nid oedd unrhyw newid sylweddol yn y bwlch rhywedd wrth gymharu perfformiad gwyddoniaeth merched a bechgyn yng Nghymru rhwng 2025 a phob un o'r 3 chylch blaenorol. Gwelwyd y patrymau hyn hefyd yn Nenmarc, Seland Newydd a Gweriniaeth Iwerddon. I'r gwrthwyneb, yng Ngwlad Belg roedd gwahaniaeth sylweddol yn y bwlch rhywedd yn 2015 o gymharu â 2025. Mae cyfartaledd tuedd yr OECD hefyd yn dangos gwahaniaeth sylweddol yn y bwlch rhywedd yn 2015 (-3 phwynt) o gymharu â 2025 (2 bwynt).

Tabl 5.1 Tueddiadau mewn bylchau rhywedd o ran perfformiad gwyddoniaeth yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD

Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	-5	5	-7	2
Gwlad Belg	* -12	-5	0	2
Denmarc	-6	2	-7	-1
Seland Newydd	-5	-2	1	2
Gweriniaeth Iwerddon	-11	1	-6	-7
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* -3	2	1	2

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Cyfrifwyd y bylchau fel sgorau merched – sgorau bechgyn.

Mae seren (*) yn nodi gwahaniaeth sylweddol yn y bwlch rhywedd o gymharu â'r bwlch rhywedd yn y wlad honno yn 2025.

Ni lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA yn PISA 2022.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio data PISA 2025 ar gyfer gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

Archwiliwyd y bwlch rhywedd gwyddoniaeth ar gyfer dysgwyr yng Nghymru yng nghydestun yr holl wledydd â pherfformiad uchel yn PISA 2025 (lle cyflawnodd dysgwyr sgôr gwyddoniaeth gyfartalog uwchlaw 440)⁴³. Mewn 6 gwlad, roedd y sgôr gyfartalog ar gyfer merched yn sylweddol is na'r sgôr ar gyfer bechgyn. Mewn 28 o wledydd (gan gynnwys Cymru), nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng sgorau cyfartalog merched a bechgyn. Mewn 11 gwlad, roedd y sgôr gyfartalog ar gyfer merched yn sylweddol uwch na'r sgôr ar gyfer bechgyn, ac roedd yr un peth yn wir ar gyfer cyfartaledd yr OECD.

5.3.6 Sut gwnaeth merched a bechgyn yng Nghymru berfformio ar y 10fed a'r 90ain canradd mewn gwyddoniaeth?

Mae'r adran hon yn cymharu perfformiad y merched a'r bechgyn â'r cyflawniad uchaf ac isaf gan ddefnyddio sgorau'r 10fed canradd (isaf) a'r 90ain canradd (uchaf) ar gyfer gwyddoniaeth ac mae'n darparu'r gwahaniaeth (yr ystod ryngddegradd, wedi'i byrhau i 'ystod') rhwng y ddwy sgôr hyn⁴⁴.

Mae Ffigur 5.5 yn dangos y sgorau cyfartalog ar y 10fed a'r 90ain canradd a'r ystodau rhyngddegradd ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, ei gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD ac mae Tabl 5.2 yn dangos arwyddocâd y gwahaniaethau rhwng sgorau cyfartalog merched a bechgyn a'r bylchau rhywedd.


Yng Nghymru, nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng sgorau gwyddoniaeth merched a bechgyn ar y 10fed canradd na'r 90ain canradd. Felly, yng Nghymru, nid oedd yr ystod ar gyfer sgorau gwyddoniaeth merched (257) yn sylweddol wahanol i'r ystod ar gyfer sgorau bechgyn (265).

I'r gwrthwyneb, roedd yr ystod ar gyfer sgorau merched yn sylweddol gulach na'r ystod ar gyfer bechgyn ym mhob un o'r gwledydd cymharol. Gwelwyd yr un patrwm yng nghyfartaledd yr OECD lle cafwyd ystod o 247 ar gyfer sgorau merched o gymharu ag ystod o 269 ar gyfer sgorau bechgyn.

⁴³ Cyfrifwyd y bylchau fel sgorau merched – sgorau bechgyn. Mae rhif negatif yn nodi bod y sgôr gyfartalog ar gyfer merched yn is na'r sgôr gyfartalog ar gyfer bechgyn.

⁴⁴ Gweler Pennod 1 (1.4.5) am ddiffiniadau o ganraddau a'r ystod ryngddegradd.

Ffigur 5.5 Perfformiad merched a bechgyn ar y 10fed a'r 90ain canradd mewn gwyddoniaeth yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD



Gwlad	Grŵp	Sgôr ar y 10fed canradd	Sgôr ar y 90ain canradd	Ystod ryngddegradd
Cymru	Merched	348	606	257
Cymru	Bechgyn	342	607	265
Gwlad Belg	Merched	355	613	258

Gwlad	Grŵp	Sgôr ar y 10fed canradd	Sgôr ar y 90ain canradd	Ystod rhyngddegradd
Gwlad Belg	Bechgyn	343	624	280
Denmarc	Merched	355	594	239
Denmarc	Bechgyn	348	604	257
Seland Newydd	Merched	373	646	273
Seland Newydd	Bechgyn	360	653	293
Gweriniaeth Iwerddon	Merched	379	611	233
Gweriniaeth Iwerddon	Bechgyn	374	628	253
Cyfartaledd yr OECD	Merched	357	604	247
Cyfartaledd yr OECD	Bechgyn	346	615	269

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Cyfrifwyd yr ystodau rhyngddegradd fel 90ain canradd – 10fed canradd.

Mae'n bosibl y bydd yr ystodau rhyngddegradd yn ymddangos yn anghyson gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

Tabl 5.2 Y bwlch rhywedd ar y 10fed a'r 90ain canradd mewn gwyddoniaeth yng Nghymru a chyfartaledd yr OECD

Gwlad	Y bwlch rhywedd ar y 10fed canradd	Y bwlch rhywedd ar y 90ain canradd	Y bwlch rhywedd yn yr ystod ryngddegradd
Cymru	7	-1	-7
Gwlad Belg	12	* -10	* -22
Denmarc	7	-10	* -17
Seland Newydd	13	-8	* -21
Gweriniaeth Iwerddon	5	* -16	* -21
Cyfartaledd yr OECD	* 12	* -10	* -22

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Cyfrifwyd y bylchau fel sgorau merched – sgorau bechgyn ac ystod sgorau merched – ystod sgorau bechgyn.

Mae seren () yn nodi bwlch rhywedd sylweddol (gwahaniaeth sylweddol rhwng sgorau merched a bechgyn a gwahaniaeth sylweddol yn ystodau'r sgorau).*

Gall canlyniadau profion arwyddocâd dwy wlad â'r un bwlch neu fwlch tebyg fod yn wahanol oherwydd gwahanol feintiau samplau a thalgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

5.3.7 I ba raddau y llwyddodd merched a bechgyn yng Nghymru i gyrraedd y lefelau hyfedredd PISA uchaf ac isaf mewn gwyddoniaeth o gymharu â chyfartaleddau'r OECD a'r gwledydd cymharol?


Mae'r adran hon yn cymharu perfformiad merched a bechgyn o ran y canrannau a llwyddodd i gyrraedd pob un o lefelau hyfedredd PISA ar gyfer gwyddoniaeth (mae'r lefelau yn amrywio rhwng 1 a 6). Yn yr adran hon, caiff y gyfran o ferched a bechgyn â pherfformiad uchel (y rhai sy'n cyrraedd Lefel 5 neu Lefel 6) a'r merched a bechgyn â pherfformiad isel (y rhai sy'n cyrraedd islaw Lefel 2) ei chymharu⁴⁵.

Mae Ffigur 5.6 yn dangos canran y merched a'r bechgyn a gyflawnodd bob lefel hyfedredd gwyddoniaeth yng Nghymru, ei gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD ac mae Tabl 5.3 yn dangos arwyddocâd y gwahaniaethau rhwng cyflawniad merched a bechgyn ar y lefelau hyn.

⁴⁵ Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn canolbwyntio ar islaw Lefel 2 a Lefelau 5 neu 6 yn unig. Mae'r siart a'r tabl yn cyflwyno data ar gyfer pob lefel.

- Yng Nghymru, yn 2025, cyrhaeddodd canrannau cyfartal o ferched a bechgyn y lefelau hyfedredd uchaf mewn gwyddoniaeth (6% o ferched a 6% o fechgyn ar Lefelau 5 neu 6).
- Yng Ngwlad Belg a Gweriniaeth Iwerddon, cyrhaeddodd 6% o ferched y lefel hyfedredd uchaf mewn gwyddoniaeth hefyd ond yn y ddwy wlad, roedd perfformiad bechgyn yn sylweddol well na pherfformiad merched (gydag 8% a 9% yn cyflawni'r lefel hon yn y drefn honno).
- Yn Nenmarc, roedd perfformiad bechgyn yn sylweddol well na merched hefyd (4% a 6% yn y drefn honno).
- Yn Seland Newydd, nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng perfformiad merched a bechgyn.
- Roedd cyfartaledd yr OECD ar gyfer canran y merched a gyrhaeddodd Lefelau 5 neu 6 mewn gwyddoniaeth yr un fath ag yng Nghymru (6%) ond canran y bechgyn a gyrhaeddodd y lefelau hyn yng nghyfartaledd yr OECD oedd 8%, sy'n sylweddol fwy na chanran y merched.
- Yng Nghymru, yn 2025, nid oedd canrannau'r merched (26%) na'r bechgyn (27%) a gyrhaeddodd lefel islaw'r lefel hyfedredd gwyddoniaeth sylfaenol (Lefel 2) yn sylweddol wahanol.
- Ar gyfer pob un o'r gwledydd cymharol, ar wahân i Wlad Belg, nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng canrannau'r merched a'r bechgyn a sgoriodd islaw Lefel 2 o ran hyfedredd gwyddoniaeth.
- Fel yng Ngwlad Belg, mae cyfartaleddau'r OECD yn dangos bod canran sylweddol lai o ferched yn perfformio islaw'r lefel hyfedredd gwyddoniaeth sylfaenol o gymharu â bechgyn.

Ffigur 5.6 Canran y merched a'r bechgyn a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd gwyddoniaeth yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD



Gwlad	Grŵp	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
Cymru	Merched	26%	27%	25%	16%	6%

Gwlad	Grŵp	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
Cymru	Bechgyn	27%	26%	25%	15%	6%
Gwlad Belg	Merched	22%	23%	29%	20%	6%
Gwlad Belg	Bechgyn	25%	21%	25%	20%	8%
Denmarc	Merched	24%	28%	28%	16%	4%
Denmarc	Bechgyn	26%	26%	27%	16%	6%
Seland Newydd	Merched	18%	23%	27%	21%	12%
Seland Newydd	Bechgyn	20%	21%	25%	20%	14%
Gweriniaeth Iwerddon	Merched	17%	27%	30%	19%	6%
Gweriniaeth Iwerddon	Bechgyn	18%	23%	29%	21%	9%
Cyfartaledd yr OECD	Merched	24%	26%	27%	17%	6%
Cyfartaledd yr OECD	Bechgyn	27%	24%	24%	17%	8%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ni chaiff canrannau islaw 4.5% eu harddangos ar y siart er mwyn sicrhau eglurder gweledol.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

Tabl 5.3 Y bwllch rhywedd o ran canran y dysgwyr ar bob lefel hyfedredd mewn gwyddoniaeth yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD

Gwlad	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu 6
Cymru	-1%	1%	0%	1%	0%
Gwlad Belg	* -3%	2%	* 3%	-1%	* -2%
Denmarc	-2%	2%	2%	0%	* -2%
Seland Newydd	-3%	2%	2%	1%	-2%
Gweriniaeth Iwerddon	-1%	* 4%	1%	-2%	* -3%
Cyfartaledd yr OECD	* -2%	* 2%	* 2%	0%	* -2%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Cyfrifwyd y bylchau fel sgorau merched – sgorau bechgyn.

Mae seren (*) yn nodi bylchau rhywedd sylweddol.

Gall canlyniadau profion arwyddocâd dwy wlad â'r un canrannau neu ganrannau tebyg fod yn wahanol oherwydd gwahanol feintiau samplau a thalgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025


5.3.8 I ba raddau y llwyddodd merched a bechgyn yng Nghymru i gyrraedd y lefelau hyfedredd PISA uchaf ac isaf mewn gwyddoniaeth yn y 4 cylch diweddaraf⁴⁶?

- Mae Ffigur 5.7 yn dangos, yn PISA 2025, fod 6% o ferched yng Nghymru wedi cyflawni Lefel 5 neu 6 a oedd yn uwch na'r canrannau yn ystod y 3 chylch blaenorol (2022: 4%, 2018: 5%, 2015: 4%)⁴⁷.
- Canran y merched yng Nghymru a gyflawnodd islaw'r lefel hyfedredd gwyddoniaeth sylfaenol (Lefel 2) yn PISA 2025 oedd 26%. Roedd hyn yn debyg i'r ganran yn PISA 2022 (27%) ac yn uwch na'r canrannau yn 2018 (18%) a 2015 (22%).

⁴⁶ Er bod y ffigurau yn y bennod hon yn cyflwyno data ar gyfer pob lefel hyfedredd, mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar Lefelau hyfedredd 5, 6 ac Islaw Lefel 2.

⁴⁷ Ni chynhaliwyd unrhyw brofion arwyddocâd gyda'r data a gyflwynir yn Ffigur 5.7.

Ffigur 5.7 Canran y merched yng Nghymru a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd gwyddoniaeth ym mhedwar cylch diweddaraf PISA



Blwyddyn	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
2025	26%	27%	25%	16%	6%
2022	27%	31%	26%	12%	4%
2018	18%	29%	31%	18%	5%
2015	22%	30%	28%	17%	4%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru.

Ni chynhaliwyd unrhyw brofion arwyddocâd.

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.


Ni chaiff canrannau islaw 4.5% eu harddangos ar y siart er mwyn sicrhau eglurder gweledol.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2015, 2018, 2022, 2025

Mae Ffigur 5.8 yn dangos, yn PISA 2025, fod 6% o fechgyn yng Nghymru wedi cyflawni Lefel 5 neu 6 a oedd yn debyg i'r canrannau yn ystod y 3 chylch blaenorol (2022: 7%, 2018: 5%, 2015: 5%)⁴⁸.

Canran y bechgyn yng Nghymru a gyflawnodd islaw'r lefel hyfedredd gwyddoniaeth sylfaenol (Lefel 2) yn PISA 2025 oedd 27%. Roedd hyn yn debyg i'r ganran yn PISA 2022 (28%) ac yn uwch na'r canrannau yn 2018 a 2015 (21% ar gyfer y ddau).

Ffigur 5.8 Canran y bechgyn yng Nghymru a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd gwyddoniaeth ym mhedwar cylch diweddaraf PISA



Blwyddyn	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
2025	27%	26%	25%	15%	6%
2022	28%	26%	24%	15%	7%
2018	21%	28%	29%	18%	5%
2015	21%	28%	27%	18%	5%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru.

⁴⁸ Ni chynhaliwyd unrhyw brofion arwyddocâd gyda'r data a gyflwynir yn Ffigur 5.8.

Ni chynhaliwyd unrhyw brofion arwyddocâd.

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2015, 2018, 2022, 2025

5.4 A oedd gwahaniaeth o ran perfformiad darllen yn ôl rhywedd?


5.4.1 Sut gwnaeth merched yng Nghymru berfformio mewn darllen?

- Yn 2025, cyflawnodd merched sgôr gyfartalog o 472 mewn darllen, nad oedd yn sylweddol wahanol i'r sgorau cyfartalog yn 2022 na 2015.
- Roedd sgôr merched yn 2025 (472) yn sylweddol is na'r sgôr a gyflawnwyd yn 2018, sef 497 (gweler Ffigur 5.9).

5.4.2 Sut gwnaeth bechgyn yng Nghymru berfformio mewn darllen?

- Roedd perfformiad bechgyn yn sylweddol is na merched mewn darllen gyda sgôr o 446 yn PISA 2025 (26 o bwyntiau yn is na sgôr y merched).
- Nid oedd sgôr bechgyn yn 2025 yn sylweddol wahanol i sgôr 2022 ond roedd yn sylweddol is na'r sgorau a gyflawnwyd yn 2018 a 2015 (gweler Ffigur 5.9).

Ffigur 5.9 Tuedd o ran perfformiad darllen merched a bechgyn yng Nghymru



Rhywedd	2015	2018	2022	2025
Merched	483	* 497	475	472
Bechgyn	* 472	* 470	456	446

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru.

Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog ar gyfer PISA 2025.

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015


5.4.3 Beth mae PISA yn ei ddweud wrthym am berfformiad merched mewn darllen?

Mae'r sgorau darllen cyfartalog ar gyfer merched yng Nghymru yn dangos tuedd sefydlog rhwng 2015 a 2025 heb unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y sgorau (483 a 472 yn y drefn honno). Roedd hyn yn wahanol i'r tueddiadau a welwyd ym mhob un o'r gwledydd cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD lle roedd y sgorau yn 2025 yn sylweddol is na'r sgorau yn 2015 (gweler Ffigur 5.10).

Yng Nghymru a phob un o'r gwledydd cymharol (ac eithrio Seland Newydd), roedd y sgorau cyfartalog yn 2025 yn sylweddol is na'r sgorau cyfatebol yn 2018. Gwelwyd hyn hefyd yng nghyfartaledd tuedd yr OECD. Fel yng Nghymru, nid oedd y sgorau cyfartalog yng Ngwlad Belg a Seland Newydd yn 2025 yn sylweddol wahanol i'r sgorau cyfatebol yn 2022. Yn Nenmarc a Gweriniaeth Iwerddon, roedd y sgorau yn 2025 yn sylweddol is na'r sgorau yn 2022, patrwm a welwyd hefyd yng nghyfartaledd tuedd yr OECD.

Ffigur 5.10 Tueddiadau o ran perfformiad darllen merched yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD

Sgôr darllen gyfartalog gyffredinol i ferched



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	483	* 497	475	472
Gwlad Belg	* 507	* 504	492	483
Denmarc	* 511	* 516	* 499	476
Seland Newydd	* 526	520	514	514
Gweriniaeth Iwerddon	* 527	* 530	* 525	510
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* 504	* 503	* 490	478

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Mae seren () yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.*

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio data PISA 2025 ar gyfer gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.


Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

5.4.4 Beth mae PISA yn ei ddweud wrthym am berfformiad bechgyn mewn darllen?

Mae Ffigur 5.11 yn dangos, yn PISA 2025, fod sgôr darllen gyfartalog bechgyn yng Nghymru (446) yn sylweddol is na'r sgôr gyfatebol yn 2015 (472), gan adlewyrchu tuedd ar i lawr. Roedd hyn yn adlewyrchu'r tueddiadau a welwyd ym mhob un o'r gwledydd cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD lle roedd y sgorau yn 2025 yn sylweddol is na'r sgorau yn 2015. Yn yr un modd, roedd sgôr gyfartalog bechgyn yng Nghymru, ym mhob un o'r gwledydd cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD yn 2025 yn sylweddol is na'r sgôr yn 2018.

Ffigur 5.11 Tueddiadau o ran perfformiad darllen bechgyn yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD

Sgôr darllen gyfartalog gyffredinol i fechgyn



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	* 472	* 470	456	446
Gwlad Belg	* 491	* 482	* 465	450
Denmarc	* 489	* 486	* 479	445
Seland Newydd	* 493	* 491	488	480

Gwlad	2015	2018	2022	2025
Gweriniaeth Iwerddon	* 515	* 506	* 507	491
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* 477	* 473	* 465	448

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio data PISA 2025 ar gyfer gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.


Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

5.4.5 Sut mae bylchau rhywedd mewn perfformiad darllen wedi newid dros amser?

Fel y dangosir yn Ffigur 5.12, roedd perfformiad merched mewn darllen yn sylweddol well na pherfformiad bechgyn yng Nghymru, ym mhob un o'r gwledydd cymharol ac yng nghyfartaledd tuedd yr OECD ym mhob un o 4 cylch diweddaraf PISA.

Nid oedd y bwlch rhywedd darllen yng Nghymru yn 2025 (26 o bwyntiau) yn sylweddol wahanol o gymharu â'r bylchau rhywedd ym mhob un o'r gwledydd cymharol na chyfartaledd tuedd yr OECD.

Ffigur 5.12 Bylchau rhywedd o ran perfformiad darllen yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	* 11	* 26	* 19	* 26
Gwlad Belg	* 16	* 22	* 28	* 33

Gwlad	2015	2018	2022	2025
Denmarc	* 22	* 29	* 21	* 31
Seland Newydd	* 32	* 29	* 26	* 33
Gweriniaeth Iwerddon	* 12	* 23	* 18	* 19
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* 27	* 30	* 25	* 30

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Cyfrifwyd y bylchau fel sgorau merched – sgorau bechgyn.

Mae seren (*) yn nodi bod sgorau cyfartalog merched yn sylweddol wahanol i sgorau cyfartalog bechgyn o fewn cylchoedd PISA unigol.

Ni lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA yn PISA 2022.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio data PISA 2025 ar gyfer gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

Fel y dangosir yn Nhabl 5.4, yng Nghymru, cynyddodd y bwlch mewn sgorau darllen rhwng merched a bechgyn yn sylweddol rhwng 2015 a 2025, o 11 o bwyntiau i 26 o bwyntiau. Cofnodwyd tuedd debyg yng Ngwlad Belg wrth i'r bwlch rhwng merched a bechgyn ehangu'n sylweddol dros yr un cyfnod o 16 o bwyntiau i 33 o bwyntiau. Cynyddodd y bwlch rhwng sgorau merched a bechgyn yng nghyfartaledd tuedd yr OECD hefyd yn sylweddol rhwng 2015 a 2025 o 3 phwynt sgôr. Ni welwyd unrhyw gynnydd na gostyngiad sylweddol yn y bylchau rhywedd darllen rhwng 2015 a 2025 yn Nenmarc, Seland Newydd na Gweriniaeth Iwerddon.

Tabl 5.4 Tueddiadau mewn bylchau rhywedd o ran perfformiad darllen yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD

Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	* 11	26	19	26
Gwlad Belg	* 16	* 22	28	33
Denmarc	22	29	* 21	31
Seland Newydd	32	29	26	33
Gweriniaeth Iwerddon	12	23	18	19
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* 27	30	* 25	30

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Cyfrifwyd y bylchau fel sgorau merched – sgorau bechgyn.

Mae seren (*) yn nodi gwahaniaeth sylweddol yn y bwlch rhywedd o gymharu â'r bwlch rhywedd yn y wlad honno yn 2025.

Ni lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA yn PISA 2022.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio data PISA 2025 ar gyfer gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Archwiliwyd y bwlbh rhywedd darllen yng Nghymru (26 o bwyntiau) yng nghyd-destun yr holl wledydd â pherfformiad uchel yn PISA 2025 (lle cyflawnodd dysgwyr sgôr darllen gyfartalog uwchlaw 440)⁴⁹. Ym mhob gwlad, roedd y sgôr gyfartalog ar gyfer merched yn sylweddol uwch na'r sgôr ar gyfer bechgyn, ac roedd yr un peth yn wir ar gyfer cyfartaledd yr OECD.

5.4.6 Sut gwnaeth merched a bechgyn yng Nghymru berfformio ar y 10fed a'r 90ain canradd mewn darllen?

Mae'r adran hon yn cymharu perfformiad y merched a'r bechgyn â'r cyflawniad uchaf ac isaf gan ddefnyddio sgorau'r 10fed canradd (isaf) a'r 90ain canradd (uchaf) ar gyfer darllen ac mae'n darparu'r gwahaniaeth (yr ystod ryngddegradd, wedi'i byrhau i 'ystod') rhwng y ddwy sgôr hyn⁵⁰.

Mae Ffigur 5.13 yn dangos y sgorau cyfartalog ar y 10fed a'r 90ain canradd a'r ystodau rhyngddegradd ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, ei gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD ac mae Tabl 5.5 yn dangos arwyddocâd y gwahaniaethau rhwng sgorau cyfartalog merched a bechgyn a'r bylchau rhywedd.


Yng Nghymru, yn 2025, roedd y sgôr darllen gyfartalog ar y 10fed canradd ar gyfer merched (346) yn sylweddol uwch na'r sgôr ar y 10fed canradd ar gyfer bechgyn (313). Roedd y sgôr darllen gyfartalog ar y 90ain canradd ar gyfer merched (595) hefyd yn sylweddol uwch na'r sgôr gyfatebol ar gyfer bechgyn (574).

Yng Nghymru, nid oedd yr ystod ar gyfer sgorau darllen merched (249) yn sylweddol wahanol i'r ystod ar gyfer sgorau bechgyn (261), patrwm a welwyd hefyd yng nghyfartaledd yr OECD (250 o gymharu â 272 yn y drefn honno). I'r gwrthwyneb, roedd yr ystod ar gyfer sgorau merched yn sylweddol gulach na'r ystod ar gyfer bechgyn ym mhob un o'r gwledydd cymharol.

⁴⁹ Cyfrifwyd y bylchau fel sgorau merched – sgorau bechgyn. Mae rhif negatif yn nodi bod y sgôr gyfartalog ar gyfer merched yn is na'r sgôr gyfartalog ar gyfer bechgyn.

⁵⁰ Gweler Pennod 1 (1.4.5) am ddiffiniadau o ganraddau a'r ystod ryngddegradd.

Ffigur 5.13 Perfformiad merched a bechgyn ar y 10fed a'r 90ain canradd mewn darllen yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD



Gwlad	Grŵp rhywedd	Sgôr ar y 10fed canradd	Sgôr ar y 90ain canradd	Ystod ryngddegradd
Cymru	Merched	346	595	249
Cymru	Bechgyn	313	574	261
Gwlad Belg	Merched	349	609	260

Gwlad	Grŵp rhywedd	Sgôr ar y 10fed canradd	Sgôr ar y 90ain canradd	Ystod rhyngddegradd
Gwlad Belg	Bechgyn	300	588	288
Denmarc	Merched	358	593	234
Denmarc	Bechgyn	314	571	257
Seland Newydd	Merched	369	656	287
Seland Newydd	Bechgyn	325	630	305
Gweriniaeth Iwerddon	Merched	393	623	230
Gweriniaeth Iwerddon	Bechgyn	362	612	250
Cyfartaledd yr OECD	Merched	349	599	250
Cyfartaledd yr OECD	Bechgyn	308	580	272

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Cyfrifwyd yr ystodau rhyngddegradd fel 90ain canradd – 10fed canradd.

Mae'n bosibl y bydd yr ystodau yn ymddangos yn anghyson gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

Tabl 5.5 Y bwlch rhywedd ar y 10fed a'r 90ain canradd mewn darllen yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD

Gwlad	Sgôr ar y 10fed canradd	Sgôr ar y 90ain canradd	Ystod rhyngddegradd
Cymru	* 33	* 21	–12
Gwlad Belg	* 49	* 21	* –28
Denmarc	* 44	* 21	* –23
Seland Newydd	* 44	* 26	* –19
Gweriniaeth Iwerddon	* 31	* 11	* –20
Cyfartaledd yr OECD	* 40	* 19	* –22

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Cyfrifwyd yr ystodau rhyngddegradd fel 90ain canradd – 10fed canradd.

Cyfrifwyd y bylchau fel sgorau merched – sgorau bechgyn ac ystod sgorau merched – ystod sgorau bechgyn.

Mae seren () yn nodi bwlch rhywedd sylweddol (gwahaniaeth sylweddol rhwng sgôr gyfartalog merched a bechgyn a gwahaniaeth sylweddol yn ystodau'r sgorau).*

Gall canlyniadau profion arwyddocâd dwy wlad â'r un sgôr neu fwlch neu sgôr neu fwlch tebyg fod yn wahanol oherwydd gwahanol feintiau samplau a thalgrynau.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

5.4.7 I ba raddau y llwyddodd merched a bechgyn yng Nghymru i gyrraedd y lefelau hyfedredd PISA uchaf ac isaf mewn darllen o gymharu â chyfartaleddau'r OECD a'r gwledydd cymharol?

Mae'r adran hon yn cymharu perfformiad merched a bechgyn o ran y canrannau a llwyddodd i gyrraedd pob un o lefelau hyfedredd PISA ar gyfer darllen (mae'r lefelau yn amrywio rhwng 1 a 6). Yn yr adran hon, caiff y gyfran o ferched a bechgyn â pherfformiad uchel (y rhai sy'n cyrraedd Lefel 5 neu Lefel 6) a'r merched a bechgyn â pherfformiad isel (y rhai sy'n cyrraedd islaw Lefel 2) ei chymharu⁵¹.


Mae Ffigur 5.14 yn dangos y sgorau cyfartalog ar y 10fed a'r 90ain canradd a'r ystodau rhyngddegradd ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, ei gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD ac mae Tabl 5.6 yn dangos arwyddocâd y gwahaniaethau rhwng sgorau cyfartalog merched a bechgyn a'r bylchau rhywedd.

- Yng Nghymru, yn 2025, cyrhaeddodd canran sylweddol uwch o ferched y lefelau hyfedredd uchaf mewn darllen (5% ar Lefel 5 neu 6) o gymharu â bechgyn (3% ar Lefel 5 neu 6).

⁵¹ Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn canolbwyntio ar islaw Lefel 2 a Lefelau 5 neu 6 yn unig. Mae'r siart a'r tabl yn cyflwyno data ar gyfer pob lefel.

- Gwelwyd y patrwm lle roedd perfformiad merched yn sylweddol well na pherfformiad bechgyn ar Lefelau 5 neu 6 yng Nghymru hefyd ym mhob un o'r gwledydd cymharol ac yng nghyfartaledd yr OECD.
- Yng Nghymru, yn 2025, roedd canran y merched a oedd yn perfformio islaw'r lefelau hyfedredd darllen sylfaenol (Lefel 2) yn sylweddol lai na chanran y bechgyn (25% o gymharu â 35% yn y drefn honno).
- Ym mhob un o'r gwledydd cymharol ac yng nghyfartaledd yr OECD, roedd y canrannau o ferched na wnaethant gyflawni'r lefel hyfedredd darllen sylfaenol yn sylweddol is na'r canrannau ar gyfer bechgyn.
- Roedd canrannau'r merched a'r bechgyn yng Nghymru a gyflawnodd islaw'r lefel darllen sylfaenol (25% a 35% yn y drefn honno) yn unol â chyfartaleddau'r OECD, sef 25% a 37% yn y drefn honno), ac ni welwyd unrhyw wahaniaethau sylweddol.

Ffigur 5.14 Canran y merched a'r bechgyn a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd darllen yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD



Gwlad	Grŵp	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
Cymru	Merched	25%	27%	26%	16%	5%
Cymru	Bechgyn	35%	26%	23%	12%	3%
Gwlad Belg	Merched	23%	24%	28%	19%	7%
Gwlad Belg	Bechgyn	35%	23%	23%	14%	4%
Denmarc	Merched	23%	28%	29%	15%	5%
Denmarc	Bechgyn	35%	28%	23%	11%	3%
Seland Newydd	Merched	18%	20%	25%	21%	16%
Seland Newydd	Bechgyn	28%	21%	23%	17%	11%
Gweriniaeth Iwerddon	Merched	13%	24%	31%	23%	9%
Gweriniaeth Iwerddon	Bechgyn	20%	24%	28%	20%	7%
Cyfartaledd yr OECD	Merched	25%	26%	26%	16%	7%
Cyfartaledd yr OECD	Bechgyn	37%	25%	22%	13%	5%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Cyfrifwyd y bylchau fel y ganran ar gyfer merched – y ganran ar gyfer bechgyn.

Mae seren () yn nodi bylchau rhywedd sylweddol.*

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ni chaiff canrannau islaw 4.5% eu harddangos ar y siart er mwyn sicrhau eglurder gweledol.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

Tabl 5.6 Y bwlich rhywedd o ran canran y dysgwyr ar bob lefel hyfedredd mewn darllen yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD

Gwlad	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu 6
Cymru	* -10%	1%	3%	* 4%	* 2%
Gwlad Belg	* -12%	0%	* 4%	* 4%	* 3%
Denmarc	* -12%	1%	* 6%	* 4%	* 2%
Seland Newydd	* -10%	-1%	2%	* 3%	* 5%
Gweriniaeth Iwerddon	* -7%	0%	2%	* 3%	* 2%
Cyfartaledd yr OECD	* -11%	* 1%	* 4%	* 4%	* 2%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Cyfrifwyd y bylchau fel canran y merched – canran y bechgyn.

Mae seren () yn nodi bylchau rhywedd sylweddol.*

Gall canlyniadau profion arwyddocâd dwy wlad â'r un ganran neu ganran debyg fod yn wahanol oherwydd gwahanol feintiau samplau a thalgrynau.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

5.4.8 I ba raddau y llwyddodd merched a bechgyn yng Nghymru i gyrraedd y lefelau hyfedredd PISA uchaf ac isaf mewn darllen yn y 4 cylch diweddaraf⁵²?


Mae Ffigur 5.15 yn dangos, yn PISA 2025, fod 5% o ferched yng Nghymru wedi cyflawni Lefel 5 neu 6 mewn darllen a oedd yn debyg i'r canrannau yn 2022 (6%) a 2015 (4%) ac yn is na'r ganran yn 2018 (8%)⁵³.

Canran y merched yng Nghymru a gyflawnodd islaw'r lefel hyfedredd darllen sylfaenol (Lefel 2) yn PISA 2025 oedd 25%. Roedd hyn yn debyg i'r ganran yn PISA 2022 (24%) ac yn uwch na'r canrannau yn 2018 (17%) a 2015 (18%).

⁵² Er bod y ffigurau yn y bennod hon yn cyflwyno data ar gyfer pob lefel hyfedredd, mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar Lefelau hyfedredd 5, 6 ac Islaw Lefel 2.

⁵³ Ni chynhaliwyd unrhyw brofion arwyddocâd gyda'r data a gyflwynir yn Ffigur 5.15.

Ffigur 5.15 Canran y merched yng Nghymru a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd darllen ym mhedwar cylch diweddaraf PISA



Blwyddyn	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
2025	25%	27%	26%	16%	5%
2022	24%	29%	27%	15%	6%
2018	17%	27%	29%	20%	8%
2015	18%	30%	30%	17%	4%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru.

Ni chynhaliwyd unrhyw brofion arwyddocâd.

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.


Ni chaiff canrannau islaw 4.5% eu harddangos ar y siart er mwyn sicrhau eglurder gweledol.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2015, 2018, 2022, 2025

Mae Ffigur 5.16 yn dangos, yn PISA 2025, fod 3% o fechgyn yng Nghymru wedi cyflawni Lefel 5 neu 6 mewn darllen a oedd yr un fath â'r ganran yn 2015 ac yn is na'r canrannau yn 2022 (5%) a 2018 (6%)⁵⁴.

Canran y bechgyn yng Nghymru a gyflawnodd islaw'r lefel hyfedredd darllen sylfaenol (Lefel 2) yn PISA 2025 oedd 35%. Roedd hyn yn debyg i'r ganran yn PISA 2022 (34%) ac yn uwch na'r canrannau yn 2018 (27%) a 2015 (23%).

Ffigur 5.16 Canran y bechgyn yng Nghymru a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd darllen ym mhedwar cylch diweddaraf PISA



Blwyddyn	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
2025	35%	26%	23%	12%	3%
2022	34%	25%	22%	14%	5%
2018	27%	26%	24%	16%	6%
2015	23%	31%	28%	15%	3%

⁵⁴ Ni chynhaliwyd unrhyw brofion arwyddocâd gyda'r data a gyflwynir yn Ffigur 5.16.

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru.

Ni chynhaliwyd unrhyw brofion arwyddocâd.

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ni chaiff canrannau islaw 4.5% eu harddangos ar y siart er mwyn sicrhau eglurder gweledol.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2015, 2018, 2022, 2025

5.5 A oedd gwahaniaeth o ran perfformiad mathemateg yn ôl rhywedd?


5.5.1 Sut gwnaeth merched yng Nghymru berfformio mewn mathemateg?

- Yn PISA 2025, cyflawnodd dysgwyr yng Nghymru sgôr gyfartalog o 450 mewn mathemateg, a oedd yn sylweddol is na'r sgôr yn 2022, sef 461.
- Roedd sgôr merched yn 2025 hefyd yn sylweddol is na'r sgôr a gyflawnwyd yn 2018, sef 486, a'r sgôr a gyflawnwyd yn 2015, sef 473 (gweler Ffigur 5.17).

5.5.2 Sut gwnaeth bechgyn yng Nghymru berfformio mewn mathemateg?

- Yn PISA 2025, cyflawnodd bechgyn yng Nghymru sgôr gyfartalog o 462 mewn mathemateg, nad oedd yn sylweddol wahanol i'r sgôr a gyflawnwyd yn 2022 (470).
- Roedd sgôr bechgyn yn 2025 yn sylweddol is na'r sgorau a gyflawnwyd yn 2018 (488) a 2015 (483) (gweler Ffigur 5.17).

Ffigur 5.17 Tuedd o ran perfformiad mathemateg merched a bechgyn yng Nghymru



Rhywedd	2015	2018	2022	2025
Merched	* 473	* 486	* 461	450
Bechgyn	* 483	* 488	470	462

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru.

Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog ar gyfer PISA 2025.

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015


5.5.3 Beth mae PISA yn ei ddweud wrthym am berfformiad merched mewn mathemateg?

Mae Ffigur 5.18 yn dangos, yn PISA 2025, fod sgôr mathemateg gyfartalog merched yng Nghymru (450) yn sylweddol is na'r sgôr gyfatebol yn 2015 (473), gan adlewyrchu tuedd ar i lawr. Roedd hyn yn adlewyrchu'r tueddiadau a welwyd ym mhob un o'r gwledydd cymharol yn ogystal â chyfartaledd tuedd yr OECD yn ystod y cyfnod hwn.

Yn yr un modd, roedd y sgôr gyfartalog ar gyfer merched yng Nghymru yn 2025 (450) yn sylweddol is na'r sgorau cyfatebol yn 2018 (486) a 2022 (461). Gwelwyd y patrwm hwn hefyd ym mhob un o'r gwledydd cymharol (ac eithrio Seland Newydd yn 2022) a

chyfartaledd tuedd yr OECD. Yn Seland Newydd, nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y sgôr gyfartalog ar gyfer 2025 a'r sgôr yn 2022.

Ffigur 5.18 Tueddiadau o ran perfformiad mathemateg merched yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac yng nghyfartaledd tuedd yr OECD



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	* 473	* 486	* 461	450
Gwlad Belg	* 500	* 502	* 486	472
Denmarc	* 506	* 507	* 483	463
Seland Newydd	* 491	* 490	474	474
Gweriniaeth Iwerddon	* 495	* 497	* 485	471
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* 484	* 487	* 470	459

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.
Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.
Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.
Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio data PISA 2025 ar gyfer gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.


5.5.4 Beth mae PISA yn ei ddweud wrthym am berfformiad bechgyn mewn mathemateg?

Mae Ffigur 5.19 yn dangos, yn PISA 2025, fod sgôr mathemateg gyfartalog bechgyn yng Nghymru (462) yn sylweddol is na'r sgôr gyfatebol yn 2015 (483), gan adlewyrchu tuedd ar i lawr. Roedd hyn yn adlewyrchu'r tueddiadau a welwyd ym mhob un o'r gwledydd cymharol yn ogystal â chyfartaleddau tuedd yr OECD yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd sgôr gyfartalog bechgyn yng Nghymru yn 2025 (462) hefyd yn sylweddol is na'r sgôr gyfatebol yn 2018 (488). Unwaith eto, gwelwyd y patrwm hwn ym mhob un o'r gwledydd cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng sgôr gyfartalog bechgyn yng Nghymru yn 2025 (462) a'r sgôr yn 2022 (470). Dyma oedd y patrwm hefyd ar gyfer perfformiad bechgyn yng Ngwlad Belg a Seland Newydd. I'r gwrthwyneb, roedd sgorau mathemateg cyfartalog bechgyn yn 2025 yn Nenmarc, Gweriniaeth Iwerddon a chyfartaledd tuedd yr OECD yn sylweddol is na'r sgorau yn 2022.

Ffigur 5.19 Tueddiadau o ran perfformiad mathemateg bechgyn yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD

Sgôr mathemateg gyfartalog gyffredinol i fechgyn



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	* 483	* 488	470	462
Gwlad Belg	* 514	* 514	493	487
Denmarc	* 516	* 511	* 495	478
Seland Newydd	* 499	* 499	484	486
Gweriniaeth Iwerddon	* 512	* 503	* 498	488
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* 491	* 492	* 479	472

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Mae seren () yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.*

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio data PISA 2025 ar gyfer gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015


5.5.5 Sut mae bylchau rhywedd o ran perfformiad mathemateg wedi newid dros amser yng Nghymru, yn y grwpiau cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD?

Fel y dangosir yn Ffigur 5.20, yn 2025, roedd perfformiad bechgyn yn sylweddol well na pherfformiad merched mewn mathemateg yng Nghymru, ym mhob un o'r gwledydd cymharol ac yng nghyfartaledd tuedd yr OECD.

Roedd hyn hefyd yn wir yn 2015 ond cafwyd darlun cymysg yn 2018 (lle nad oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng sgorau merched a bechgyn yng Nghymru, Denmarc a Gweriniaeth Iwerddon) ac yn 2022 (lle nad oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng sgorau merched a bechgyn yng Ngwlad Belg).

Nid oedd y bwlch rhywedd mathemateg yng Nghymru yn 2025 (–12 o bwyntiau) yn sylweddol wahanol o gymharu â'r bylchau rhywedd ym mhob un o'r gwledydd cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD.

Ffigur 5.20 Tueddiadau mewn bylchau rhywedd o ran perfformiad mathemateg yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	* -10	-2	* -9	* -12
Gwlad Belg	* -14	* -12	-8	* -16
Denmarc	* -9	-4	* -12	* -14

Gwlad	2015	2018	2022	2025
Seland Newydd	* -9	* -9	* -10	* -12
Gweriniaeth Iwerddon	* -16	-6	* -13	* -17
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* -7	* -5	* -9	* -13

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Cyfrifwyd y bylchau fel sgorau merched – sgorau bechgyn.

Mae seren (*) yn nodi bod sgorau cyfartalog merched yn sylweddol wahanol i sgorau cyfartalog bechgyn o fewn cylchoedd PISA unigol.

Ni lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA yn PISA 2022.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio data PISA 2025 ar gyfer gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

Fel y dangosir yn Nhabl 5.7, nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol yn y bwlch rhywedd mewn mathemateg yng Nghymru wrth gymharu'r gwahaniaeth mewn pwyntiau sgôr yn 2025 â'r rhai ar gyfer 2022, 2018 a 2015. Gwelwyd y patrwm hwn hefyd yng Ngwlad Belg a Seland Newydd ond yn Nenmarc a Gweriniaeth Iwerddon, roedd y bylchau rhywedd mewn mathemateg yn sylweddol ehangach yn 2025 o gymharu â 2018. Roedd bwlch cyfartaledd tuedd yr OECD yn 2025 yn sylweddol ehangach na'r bylchau a gofnodwyd ym mhob un o'r 3 chylch blaenorol.

Tabl 5.7 Tueddiadau mewn bylchau rhywedd o ran perfformiad mathemateg yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd tuedd yr OECD

Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	-10	-2	-9	-12
Gwlad Belg	-14	-12	-8	-16
Denmarc	-9	* -4	-12	-14
Seland Newydd	-9	-9	-10	-12
Gweriniaeth Iwerddon	-16	* -6	-13	-17
Cyfartaledd tuedd yr OECD	* -7	* -5	* -9	-13

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Cyfrifwyd y bylchau fel sgorau merched – sgorau bechgyn.

Mae seren (*) yn nodi gwahaniaeth sylweddol yn y bwlch rhywedd o gymharu â'r bwlch rhywedd yn y wlad honno yn 2025.

Ni lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA yn PISA 2022.

Cyfrifwyd cyfartaleddau tuedd yr OECD gan ddefnyddio data PISA 2025 ar gyfer gwledydd yr OECD a gymerodd ran ym mhob cylch, ac eithrio Costa Rica a Sbaen.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

Archwiliwyd y bwlch rhywedd mathemateg yng Nghymru yng nghyd-destun yr holl wledydd â pherfformiad uchel yn PISA 2025 (lle cyflawnodd dysgwyr sgôr mathemateg gyfartalog uwchlaw 440)⁵⁵. Mewn 35 o wledydd (gan gynnwys Cymru), roedd y sgôr gyfartalog ar gyfer merched yn sylweddol is na'r sgôr ar gyfer bechgyn. Mewn 5 gwlad, nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng sgorau cyfartalog merched a bechgyn.

5.5.6 Sut gwnaeth merched a bechgyn yng Nghymru berfformio ar y 10fed a'r 90ain canradd mewn mathemateg?

Mae'r adran hon yn cymharu perfformiad y merched a'r bechgyn â'r cyflawniad uchaf ac isaf gan ddefnyddio sgorau'r 10fed canradd (isaf) a'r 90ain canradd (uchaf) ar gyfer mathemateg ac mae'n darparu'r gwahaniaeth (yr ystod ryngddegradd, wedi'i byrhau i 'ystod') rhwng y ddwy sgôr hyn⁵⁶.

Mae Ffigur 5.21 yn dangos y sgorau cyfartalog ar y 10fed a'r 90ain canradd a'r ystodau rhyngddegradd ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, ei gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD ac mae Tabl 5.8 syn dangos arwyddocâd y gwahaniaethau rhwng sgorau cyfartalog merched a bechgyn a'r bylchau rhywedd.


Yng Nghymru, nid oedd y sgôr mathemateg gyfartalog ar y 10fed canradd ar gyfer merched (329) yn sylweddol wahanol i'r sgôr mathemateg ar y 10fed canradd ar gyfer bechgyn (334). Roedd yr un peth yn wir ar y 90ain canradd lle nad oedd sgôr mathemateg gyfartalog merched (574) yn sylweddol wahanol i sgôr gyfartalog bechgyn (586).

Nid oedd yr ystod ar gyfer sgorau mathemateg merched yng Nghymru (245) yn sylweddol wahanol i'r ystod ar gyfer sgorau bechgyn (251). I'r gwrthwyneb, roedd yr ystod ar gyfer sgorau merched yn sylweddol gulach na'r ystod ar gyfer bechgyn ym mhob un o'r gwledydd cymharol ac yng nghyfartaledd yr OECD.

⁵⁵ Cyfrifwyd y bylchau fel sgorau merched – sgorau bechgyn. Mae rhif negatif yn nodi bod y sgôr gyfartalog ar gyfer merched yn is na'r sgôr gyfartalog ar gyfer bechgyn.

⁵⁶ Gweler Pennod 1 (1.4.5) am ddiffiniadau o ganraddau a'r ystod ryngddegradd.

Ffigur 5.21 Perfformiad merched a bechgyn ar y 10fed a'r 90ain canradd mewn mathemateg yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD



Gwlad	Grŵp rhywedd	Sgôr ar y 10fed canradd	Sgôr ar y 90ain canradd	Ystod ryngddegradd
Cymru	Merched	329	574	245
Cymru	Bechgyn	334	586	251
Gwlad Belg	Merched	344	590	246

Gwlad	Grŵp rhywedd	Sgôr ar y 10fed canradd	Sgôr ar y 90ain canradd	Ystod rhyngddegradd
Gwlad Belg	Bechgyn	350	617	267
Denmarc	Merched	355	570	215
Denmarc	Bechgyn	360	591	232
Seland Newydd	Merched	345	604	258
Seland Newydd	Bechgyn	347	625	278
Gweriniaeth Iwerddon	Merched	366	574	208
Gweriniaeth Iwerddon	Bechgyn	374	599	224
Cyfartaledd yr OECD	Merched	340	572	233
Cyfartaledd yr OECD	Bechgyn	343	596	253

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Cyfrifwyd yr ystodau rhyngddegradd fel 90ain canradd – 10fed canradd.

Mae'n bosibl y bydd yr ystodau yn ymddangos yn anghyson gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

Tabl 5.8 Y bwlch rhywedd ar y 10fed a'r 90ain canradd mewn mathemateg yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD

Gwlad	Sgôr ar y 10fed canradd	Sgôr ar y 90ain canradd	Ystod rhyngddegradd
Cymru	-6	-12	-6
Gwlad Belg	-6	* -26	* -21
Denmarc	-4	* -21	* -17
Seland Newydd	-1	* -21	* -20
Gweriniaeth Iwerddon	-8	* -25	* -16
Cyfartaledd yr OECD	* -3	* -24	* -20

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Cyfrifwyd yr ystodau rhyngddegradd fel 90ain canradd – 10fed canradd.

Cyfrifwyd y bylchau fel sgorau merched – sgorau bechgyn ac ystod sgorau merched – ystod sgorau bechgyn.

Mae seren () yn nodi bwlch rhywedd sylweddol (gwahaniaeth sylweddol rhwng sgôr gyfartalog merched a bechgyn a gwahaniaeth sylweddol yn ystodau'r sgorau).*

Gall canlyniadau profion arwyddocâd dwy wlad â'r un bwlch neu fwlch tebyg fod yn wahanol oherwydd gwahanol feintiau samplau a thalgrynau.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

5.5.7 I ba raddau y llwyddodd merched a bechgyn yng Nghymru i gyrraedd y lefelau hyfedredd PISA uchaf ac isaf mewn mathemateg o gymharu â chyfartaledd yr OECD a'r gwledydd cymharol?


Mae'r adran hon yn cymharu perfformiad merched a bechgyn o ran y canrannau a llwyddodd i gyrraedd pob un o lefelau hyfedredd PISA ar gyfer mathemateg (sy'n amrywio rhwng 1 a 6). Yn yr adran hon, caiff y gyfran o ferched a bechgyn â pherfformiad uchel (y rhai sy'n cyrraedd Lefel 5 neu Lefel 6) a'r merched a bechgyn â pherfformiad isel (y rhai sy'n cyrraedd islaw Lefel 2) ei chymharu⁵⁷.

Mae Ffigur 5.22 yn dangos canran y merched a'r bechgyn a gyflawnodd bob lefel hyfedredd mathemateg yng Nghymru, ei gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD ac mae Tabl 5.9 yn dangos arwyddocâd y gwahaniaethau rhwng cyflawniad merched a bechgyn ar y lefelau hyn.

⁵⁷ Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn canolbwyntio ar islaw Lefel 2 a Lefelau 5 neu 6 yn unig. Mae'r siart a'r tabl yn cyflwyno data ar gyfer pob lefel.

- Yng Nghymru, yn 2025, nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng canrannau'r merched a'r bechgyn a gyflawnodd y lefelau hyfedredd uchaf (Lefelau 5 neu 6) mewn mathemateg (5% a 7% yn y drefn honno).
- Ym mhob un o'r gwledydd cymharol, ac yng nghyfartaledd yr OECD, roedd canrannau'r merched a gyflawnodd Lefelau 5 neu 6 mewn mathemateg yn sylweddol lai na chanran y bechgyn.
- Yng Nghymru, yn 2025, nid oedd canran y merched (38%) a gyflawnodd sgôr mathemateg islaw'r lefel hyfedredd sylfaenol (Lefel 2) yn sylweddol wahanol i ganran y bechgyn (34%). Gwelwyd yr un patrwm yng Ngwlad Belg a Seland Newydd.
- Yn Nenmarc ac yng Ngweriniaeth Iwerddon, ac yng nghyfartaledd yr OECD, roedd canrannau'r merched a gyflawnodd islaw Lefel 2 yn sylweddol uwch na chanrannau'r bechgyn.

Ffigur 5.22 Canran y merched a'r bechgyn a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd mathemateg yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD



Gwlad	Grŵp	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
Cymru	Merched	38%	25%	20%	11%	5%
Cymru	Bechgyn	34%	24%	22%	14%	7%

Gwlad	Grŵp	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
Gwlad Belg	Merched	30%	23%	24%	16%	7%
Gwlad Belg	Bechgyn	27%	20%	22%	19%	12%
Denmarc	Merched	30%	28%	26%	13%	4%
Denmarc	Bechgyn	26%	25%	26%	16%	7%
Seland Newydd	Merched	30%	24%	22%	15%	9%
Seland Newydd	Bechgyn	28%	22%	21%	16%	13%
Gweriniaeth Iwerddon	Merched	27%	28%	27%	15%	4%
Gweriniaeth Iwerddon	Bechgyn	22%	25%	27%	19%	8%
Cyfartaledd yr OECD	Merched	36%	24%	21%	13%	6%
Cyfartaledd yr OECD	Bechgyn	33%	22%	21%	15%	10%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys..

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ni chaiff canrannau islaw 4.5% eu harddangos ar y siart er mwyn sicrhau eglurder gweledol.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

Tabl 5.9 Y bwlich rhywedd o ran canran y dysgwyr ar bob lefel hyfedredd mewn mathemateg yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD

Gwlad	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu 6
Cymru	4%	1%	−2%	* −3%	−1%
Gwlad Belg	3%	* 3%	2%	* −3%	* −5%
Denmarc	* 4%	3%	0%	* −3%	* −4%
Seland Newydd	2%	2%	1%	−1%	* −4%
Gweriniaeth Iwerddon	* 5%	* 3%	1%	* −4%	* −4%
Cyfartaledd yr OECD	* 3%	* 2%	0%	* −2%	* −4%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Cyfrifwyd y bylchau fel canran y merched – canran y bechgyn.

Mae seren () yn nodi bylchau rhywedd sylweddol.*

Gall canlyniadau profion arwyddocâd dwy wlad â'r un ganran neu ganran debyg fod yn wahanol oherwydd gwahanol feintiau samplau a thalgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

5.5.8 I ba raddau y llwyddodd merched a bechgyn yng Nghymru i gyrraedd y lefelau hyfedredd PISA uchaf ac isaf mewn mathemateg yn y 4 cylch diweddaraf⁵⁸?


Mae Ffigur 5.23 yn dangos, yn PISA 2025, fod 5% o ferched yng Nghymru wedi cyflawni Lefel 5 neu 6 mewn mathemateg a oedd yr un fath â'r ganran yn 2022, yn debyg i'r ganran yn 2018 (6%) ac yn uwch na'r ganran yn 2015 (3%)⁵⁹.

Canran y merched yng Nghymru a gyflawnodd islaw'r lefel hyfedredd mathemateg sylfaenol (Lefel 2) yn PISA 2025 oedd 38%, a oedd yn uwch na'r canrannau yn PISA 2022 (32%), 2018 (21%) a 2015 (24%).

⁵⁸ Er bod y ffigurau yn y bennod hon yn cyflwyno data ar gyfer pob lefel hyfedredd, mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar Lefelau hyfedredd 5, 6 ac Islaw Lefel 2.

⁵⁹ Ni chynhaliwyd unrhyw brofion arwyddocâd gyda'r data a gyflwynir yn Ffigur 5.23.

Ffigur 5.23 Canran y merched yng Nghymru a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd mathemateg ym mhedwar cylch diweddaraf PISA



Blwyddyn	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
2025	38%	25%	20%	11%	5%
2022	32%	30%	23%	11%	5%
2018	21%	27%	29%	17%	6%
2015	24%	30%	27%	14%	3%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru.

Ni chynhaliwyd unrhyw brofion arwyddocâd.

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.


Ni chaiff canrannau islaw 4.5% eu harddangos ar y siart er mwyn sicrhau eglurder gweledol.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2015, 2018, 2022, 2025

Mae Ffigur 5.24 yn dangos, yn PISA 2025, fod 7% o fechgyn yng Nghymru wedi cyflawni Lefel 5 neu 6 mewn mathemateg a oedd yn debyg i'r canrannau yn 2022 (8%), 2018 (8%) a 2015 (6%)⁶⁰.

Canran y bechgyn yng Nghymru a gyflawnodd islaw'r lefel hyfedredd mathemateg sylfaenol (Lefel 2) yn PISA 2025 oedd 34%, a oedd yn uwch na'r canrannau yn PISA 2022 (31%), 2018 (21%) a 2015 (22%).

Ffigur 5.24 Canran y bechgyn yng Nghymru a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd mathemateg ym mhedwar cylch diweddaraf PISA



Blwyddyn	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
2025	34%	24%	22%	14%	7%
2022	31%	24%	23%	14%	8%
2018	21%	26%	26%	19%	8%
2015	22%	27%	28%	17%	6%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru.

⁶⁰ Ni chynhaliwyd unrhyw brofion arwyddocâd gyda'r data a gyflwynir yn Ffigur 5.24.

Ni chynhaliwyd unrhyw brofion arwyddocâd.

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2015, 2018, 2022, 2025

6 Tegwch a Chynhwysiant – Statws economaidd-gymdeithasol

6.1 Trosolwg o'r Bennod

Yn y bennod hon, rydym yn ystyried y gwahaniaethau rhwng sgorau PISA dysgwyr mewn gwyddoniaeth, darllen a mathemateg yn ôl statws economaidd-gymdeithasol a statws mewnfudo. Fel y disgrifiwyd ym mhennod 1, cyfartaledd yr OECD yw'r cyfartaledd ar gyfer y 38 o wledydd sy'n rhan o'r OECD a gymerodd ran yn 2025. Cyfartaledd tuedd yr OECD yw'r cyfartaledd ar gyfer y 35 o wledydd a gymerodd ran ym mhob un o 4 cylch diweddaraf PISA (2015, 2018, 2022 a 2025)⁶¹.

6.2 Canfyddiadau allweddol: Gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol

- Yn 2025, sgôr gyfartalog Cymru ar Fynegai ESCS oedd +0.14 sy'n awgrymu, ar gyfartaledd, fod gan ddysgwyr statws economaidd-gymdeithasol uwch na'r cyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD (0).
- Roedd gwahaniaeth o 65 o bwyntiau sgôr o ran sgorau gwyddoniaeth y grŵp mwyaf difreintiedig o ddysgwyr a'r grŵp lleiaf difreintiedig o ddysgwyr yng Nghymru yn 2025. Mewn darllen, roedd gwahaniaeth o 50 o bwyntiau sgôr ac mewn mathemateg roedd gwahaniaeth o 70 o bwyntiau sgôr. Ym mhob pwnc, roedd yr ystod sgorau yng Nghymru rhwng y dysgwyr mwyaf a lleiaf difreintiedig yn sylweddol⁶² gulach na'r ystod ar gyfer cyfartaledd yr OECD.
- Ar gyfartaledd, cyflawnodd dysgwyr yng Nghymru a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sgorau cyfartalog mewn gwyddoniaeth, darllen a mathemateg a oedd yn sylweddol is na sgorau dysgwyr nad oeddent yn gymwys.
- Roedd y gwahaniaeth mewn perfformiad gwyddoniaeth sy'n gysylltiedig â chynnydd un uned ym mynegai ESCS yn 2025 yn sylweddol is yng Nghymru (26 o bwyntiau sgôr) nag ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD (36 o bwyntiau sgôr).
- Roedd y gwahaniaeth mewn perfformiad darllen sy'n gysylltiedig â chynnydd un uned ym mynegai ESCS yn 2025 yn sylweddol is yng Nghymru (20 o bwyntiau sgôr) nag ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD (32 o bwyntiau sgôr).

⁶¹ Mae'r 35 o wledydd tuedd yr OECD yn PISA 2025 yn cynnwys y gwledydd hynny sy'n rhan o'r OECD sydd wedi cymryd rhan ym mhob cylch ers PISA 2015, ac eithrio Costa Rica a Sbaen. Gweler pennod 1 am ragor o fanylion.

⁶² Yn yr adroddiad hwn, mae canfyddiadau a ddisgrifir fel rhai arwyddocaol neu sylweddol yn arwyddocaol yn ystadegol. Gweler pennod 1 am ragor o fanylion.

- Roedd y gwahaniaeth mewn perfformiad mathemateg sy'n gysylltiedig â chynnydd un uned ym mynegai ESCS yn 2025 yn sylweddol is yng Nghymru (28 o bwyntiau sgôr) nag ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD (35 o bwyntiau sgôr).
- Canran yr amrywiant mewn perfformiad gwyddoniaeth yng Nghymru y gellid ei phriodoli i statws economaidd-gymdeithasol oedd 6%, y ganran mewn darllen oedd 4% a'r ganran mewn mathemateg oedd 8%. Ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD, gellid priodoli 12% o'r amrywiant mewn perfformiad gwyddoniaeth, 9% o'r amrywiant mewn perfformiad darllen a 12% o'r amrywiant mewn perfformiad mathemateg i statws economaidd-gymdeithasol.
- Yng Nghymru roedd 15% o ddysgwyr yn wydn yn academiaidd⁶³ mewn gwyddoniaeth, roedd 17% yn wydn yn academiaidd mewn darllen ac roedd 14% yn wydn yn academiaidd mewn mathemateg. Ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD, roedd 12% o ddysgwyr yn wydn yn academiaidd mewn gwyddoniaeth a mathemateg, ac roedd 13% yn wydn yn academiaidd mewn darllen.
- Yng Nghymru, nid oedd sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr â chefnidir mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf yn sylweddol wahanol i'r sgôr ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr. Roedd yr un peth hefyd yn wir ar gyfer darllen a mathemateg.
- Roedd sgôr gyfartalog dysgwyr yng Nghymru â chefnidir mewnfudwyr ail genhedlaeth yn sylweddol uwch na'r sgorau cyfartalog ar gyfer dysgwyr â chefnidir mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf a dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr. Roedd yr un peth hefyd yn wir ar gyfer darllen a mathemateg.

6.3 Mesurau o statws economaidd-gymdeithasol yng Nghymru

Mae'r bennod hon yn nodi sut mae sgorau gwyddoniaeth, darllen a mathemateg yn amrywio yn ôl cefndir economaidd-gymdeithasol dysgwyr. Cyflawnir hyn drwy edrych ar berfformiad yn PISA yn ôl statws prydau ysgol am ddim a thrwy ddefnyddio mynegai statws economaidd, cymdeithasol a diwylliannol (ESCS) PISA.

6.3.1 Mynegai ESCS

Mae Mynegai ESCS yn seiliedig ar ymatebion dysgwyr i gwestiynau am gefndir ac addysg eu rhieni ac eitemau yn eu cartrefi.

Diwygiwyd y fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r mynegai Statws Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ESCS) ar gyfer cylch 2025. Er bod gan y mynegai yr un enw ac er ei bod yn mesur cefndir economaidd-gymdeithasol o hyd, defnyddiwyd methodoleg wahanol i gyfrifo'r mynegai. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oedd union fanylion y newidiadau

⁶³ Ystyrir bod dysgwr yn wydn yn academiaidd os bydd yn gymharol ddifreintiedig o ran ei gefndir economaidd-gymdeithasol (yn chwarter isaf Mynegai ESCS) ond bod ei berfformiad ymhlith y chwarter uchaf o ddysgwyr yn y wlad honno.

hyn i'r fethodoleg ar gael, ac felly nid oedd yn bosibl gwneud cymariaethau ystadegol rhwng cylch 2025 a chylchoedd blaenorol yn yr adroddiad hwn.

Mae'r mynegai wedi'i safoni ar draws gwledydd yr OECD gyda chyfartaledd o 0 (sy'n cynrychioli statws economaidd-gymdeithasol cyfartalog dysgwr 15 oed ar draws pob un o wledydd yr OECD sy'n cymryd rhan) a gwyriad safonol o 1. Mae hyn yn golygu y bydd bron pob dysgwr wedi'i leoli rhwng -3 a +3 ar y mynegai. Os yw mynegai ESCS gwlad yn uwch na 0, ar gyfartaledd, mae statws economaidd-gymdeithasol dysgwyr yn uwch na'r cyfartaledd ar draws holl wledydd yr OECD. Os yw mynegai ESCS gwlad yn is na 0, ar gyfartaledd, mae statws economaidd-gymdeithasol dysgwyr yn is na'r cyfartaledd ar draws holl wledydd yr OECD.

Cyfrifwyd y mynegai hwn mewn ffordd wahanol yn PISA 2025 o gymharu â chylchoedd blaenorol PISA sy'n golygu na allwn gymharu â nhw.

Sgôr gyfartalog Cymru ar Fynegai ESCS oedd +0.14 sy'n awgrymu, ar gyfartaledd, fod gan ddysgwyr yng Nghymru statws economaidd-gymdeithasol uwch na'r cyfartaledd ar draws holl wledydd yr OECD. Ym mhob gwlad gymharol, roedd y sgôr gyfartalog hefyd yn uwch na 0: Gwlad Belg (+0.12), Denmarc (+0.38), Seland Newydd (+0.19) a Gweriniaeth Iwerddon (+0.33).

O gymharu â chyfartaledd yr OECD, roedd canran debyg o ddysgwyr yng Nghymru yr oedd amcangyfrifon ESCS ar goll neu nad oedd amcangyfrifon ESCS ar gael fel arall ar eu cyfer (10% o gymharu â 12% yn y drefn honno)⁶⁴. Dylid ystyried y ganran hon o ddata coll wrth asesu i ba raddau y mae data ESCS yn cynrychioli Cymru.

6.3.2 Prydau ysgol am ddim

Yng Nghymru, defnyddir cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim fel mesur procsi ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae Tabl 6.1 isod yn dangos canrannau'r dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru, neu nad ydynt yn gymwys, gan ddefnyddio dau fesur. Y mesur cyntaf yw cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ystod y flwyddyn y cynhelir asesiadau PISA gan ddefnyddio data ffurflenni cyfrifiad ysgolion 2025. Mae'r ail yn defnyddio'r un data o'r cyfrifiad i bennu canran y dysgwyr a gofnodwyd fel rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y 6 blynedd diwethaf er mwyn deall nad yw anfantais economaidd-gymdeithasol yn ymwneud ag un adeg benodol yn unig.

Mae'r tabl yn dangos bod cysylltiad clir rhwng statws dysgwyr i gael prydau ysgol am ddim a chwarteli ESCS a ddefnyddir yn PISA. Er enghraifft, roedd canrannau'r dysgwyr yn Chwartzel 1 ESCS (y dysgwyr mwyaf difreintiedig) a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol

⁶⁴ Ar gyfer y gwledydd cymharol, roedd canrannau'r dysgwyr yr oedd amcangyfrifon ESCS ar goll neu nad oedd amcangyfrifon ESCS ar gael fel arall ar eu cyfer fel a ganlyn – Gwlad Belg (7%), Denmarc (9%), Seland Newydd (10%) a Gweriniaeth Iwerddon (3%).

am ddim yn 2025 (28%) neu yn ystod y 6 blynedd diwethaf (43%) yn uwch na'r canrannau yn Chwartzel 4 ESCS (y rhai mwyaf breintiedig) (3%).

Tabl 6.1 Cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yn ôl chwartzel amddifadedd ESCS

Chwartzel ESCS	Dysgwyr sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim (2025)	Dysgwyr nad ydynt yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim (2025)	Dysgwyr a fu'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y chwe blynedd diwethaf	Dysgwyr na fuont yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y chwe blynedd diwethaf	Data coll mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim
Chwartzel 1 ESCS	28%	72%	43%	57%	0%
Chwartzel 2 ESCS	13%	87%	23%	77%	0%
Chwartzel 3 ESCS	7%	93%	13%	87%	0%
Chwartzel 4 ESCS	3%	97%	5%	95%	0%
ESCS ar goll	22%	78%	30%	70%	0%
Pob dysgwr	14%	86%	22%	78%	0%

Ffynhonnell: Cronfa Ddata PISA 2025 yr OECD, Cronfa Ddata Genedlaethol y Dysgwyr

6.4 Dadansoddiad o'r berthynas rhwng statws economaidd-gymdeithasol a pherfformiad

Mae 5 ffordd wahanol o ystyried y berthynas rhwng statws economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad yn PISA. Caiff pob un ohonynt ei chymhwyso yn yr adrannau canlynol ar gyfer gwyddoniaeth (6.5), darllen (6.6) a mathemateg (6.7).

6.4.1 Mesur y gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad, ar gyfartaledd, rhwng dysgwyr â statws economaidd-gymdeithasol uchel a'r rhai â

statws economaidd-gymdeithasol isel gan ddefnyddio data prydau ysgol am ddim

Drwy rannu dysgwyr yn grwpiau sy'n cynnwys y rhai a oedd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 2025 neu a fu'n gymwys dros y 6 blynedd diwethaf neu'r rhai nad oeddent yn gymwys, gellir cymharu eu sgorau cyfartalog.

6.4.2 Mesur y gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad, ar gyfartaledd, rhwng dysgwyr â statws economaidd-gymdeithasol uchel a'r rhai â statws economaidd-gymdeithasol isel gan ddefnyddio Mynegai ESCS

Drwy rannu dysgwyr yn 4 grŵp cyfartal (chwarteli) yn ôl eu sgôr ESCS, gellir cymharu eu sgorau cyfartalog. Mae hyn yn cynnwys cyfrifo ystod ryngchwartel (wedi'i byrhau i 'ystod') sgorau cyfartalog y dysgwyr mwyaf difreintiedig (Chwartel 1) a'r rhai lleiaf difreintiedig (Chwartel 4)^{65,66}.

6.4.3 Mesur i ba raddau y mae sgorau pwnc dysgwyr yn cyfateb i'w sgôr mynegai ESCS (graddiant y llethr)

Aeth yr OECD ati i blotio sgorau pwnc dysgwyr unigol yn erbyn eu sgorau ESCS a chyfrifo'r gwahaniaeth cyfartalog o ran perfformiad a oedd yn gysylltiedig â phob uned ar fynegai ESCS. Cyfeirir at hyn fel graddiant neu serthrwydd y llethr a pho fwyaf serth y bydd y llethr, y mwyaf yr effaith y bydd anfantais wedi'i chael ar berfformiad. Mae gwerthoedd isel yn dangos bod statws economaidd-gymdeithasol wedi cael llai o effaith ar gyrhaeddiad dysgwyr; mae gwerthoedd uchel yn dangos bod statws economaidd-gymdeithasol wedi cael mwy o effaith ar gyrhaeddiad dysgwyr. Byddai llethr o 30 yn golygu bod cynnydd o un uned ym mynegai ESCS (sy'n newid cymharol fawr) yn gysylltiedig â sgorio 30 yn fwy o bwyntiau.

6.4.4 Mesur yr amrywiad rhwng dysgwyr â statws economaidd-gymdeithasol tebyg

Gan fod llawer o ffactorau yn dylanwadu ar sgôr dysgwr unigol heblaw am ei statws economaidd-gymdeithasol, byddai disgwyl gweld amrywiaeth o sgorau PISA ar bob pwynt ar y mynegai. Aeth yr OECD ati i blotio sgorau pwnc cyfartalog dysgwyr yn erbyn pob pwynt ar fynegai ESCS er mwyn cyfrifo canran gyfartalog yr amrywiad sgorau y gellir ei phriodoli i statws economaidd-gymdeithasol. Cyfeirir at hyn fel cryfder yr effaith economaidd-gymdeithasol. Bydd effaith gryf yn dangos llai o amrywioldeb o ran cyrhaeddiad dysgwyr â'r un statws economaidd-gymdeithasol, sy'n awgrymu bod statws economaidd-gymdeithasol yn un o'r prif ffactorau wrth bennu canlyniadau. Bydd effaith

⁶⁵ Yn yr adroddiad hwn, mae'r ffocws ar y sgôr gyfartalog ar gyfer chwarteli 1 a 4 a'r ystod ryngchwartel. Gweler Atodiad C am berfformiad cyfartalog 4 chwartel ESCS.

⁶⁶ Gweler Pennod 1.4.5 am ddiffiniadau o chwarteli a'r ystod ryngchwartel.

wan yn dangos mwy o amrywioldeb o ran cyrhaeddiad dysgwyr â'r un statws economaidd-gymdeithasol, sy'n awgrymu nad oedd statws economaidd-gymdeithasol yn un o'r prif ffactorau wrth bennu canlyniadau.

6.4.5 Cyfrifo canran y dysgwyr oedd 'yn wydn yn academiaidd'

Dysgwyr sy'n wydn yn academiaidd yw'r rhai sy'n llwyddo'n academiaidd er gwaethaf eu statws economaidd-gymdeithasol cymharol isel. Ystyrir bod dysgwr yn wydn yn PISA os bydd yn chwarterl isaf Mynegai ESCS ei wlad (Chwarterl 1) ond bod ei berfformiad ymhlith y chwarterl uchaf o ddysgwyr yn y wlad honno (Chwarterl 4).

6.5 Beth yw'r berthynas rhwng statws economaidd-gymdeithasol a pherfformiad gwyddoniaeth yn PISA yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac yng nghyfartaledd yr OECD?

6.5.1 Perfformiad gwyddoniaeth yn ôl cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim


Fel y dangosir yn Nhabl 6.2 isod, cyflawnodd dysgwyr a oedd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 2025 sgôr gyfartalog o 439, a oedd yn sylweddol is na dysgwyr nad oeddent yn gymwys (481), sef bwlch o 42 o bwyntiau sgôr. Yn yr un modd, cyflawnodd dysgwyr a fu'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ystod y 6 blynedd diwethaf sgôr gyfartalog o 444 yn 2025, a oedd yn sylweddol is na dysgwyr nad oeddent yn gymwys (485), sef bwlch o 41 o bwyntiau sgôr.

Tabl 6.2 Perfformiad gwyddoniaeth dysgwyr yng Nghymru yn ôl statws prydau ysgol am ddim

Cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim	Canran y dysgwyr	Sgôr gwyddoniaeth gyfartalog
Ddim yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 2025	86%	481
Yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 2025	14%	439
Ddim yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y chwe blynedd diwethaf	78%	485
Yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y chwe blynedd diwethaf	22%	444

Mae Ffigur 6.1 yn dangos nad oedd ystod rymgchwartel (wedi'i byrhau i 'ystod')⁶⁷ sgorau gwyddoniaeth yng Nghymru (65 o bwyntiau) rhwng y chwarterl mwyaf difreintiedig (Chwartel 1: 448) a'r chwarterl lleiaf difreintiedig o ddysgwyr (Chwartel 4: 513) yn sylweddol wahanol i'r ystodau yn Nenmarc (69 o bwyntiau) na Gweriniaeth Iwerddon (72 o bwyntiau). I'r gwrthwyneb, roedd yr ystodau perthnasol ar gyfer dysgwyr yng Ngwlad Belg (98 o bwyntiau) a Seland Newydd (89 o bwyntiau) yn sylweddol ehangach o gymharu â Chymru. Roedd yr un peth yn wir ar draws gwledydd yr OECD ar gyfartaledd lle roedd ystod y sgorau gwyddoniaeth rhwng y chwarterl mwyaf difreintiedig a'r chwarterl lleiaf difreintiedig o ddysgwyr (85 o bwyntiau) yn sylweddol ehangach na'r ystod yng Nghymru. Y rheswm dros y gwahaniaeth hwn oedd bod y dysgwyr lleiaf difreintiedig yn yr OECD, ar gyfartaledd, wedi cyflawni sgôr gwyddoniaeth a oedd yn sylweddol uwch na'u cyfoedion yng Nghymru (531 yn yr OECD o gymharu â 513 yng Nghymru). I'r gwrthwyneb, nid oedd y sgôr ar gyfer y dysgwyr mwyaf difreintiedig yng Nghymru (448) yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD (446).

Ffigur 6.1 Ystod o ran perfformiad gwyddoniaeth rhwng Chwarteli 1 a 4 ESCS yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD



⁶⁷ Gweler Pennod 1 (1.4.5) am ddiffiniadau o ganraddau a'r ystod rymgddegradd.

Gwlad	Chwartzel 1 ESCS	Chwartzel 4 ESCS	Ystod ryngchwartzel ESCS
Cymru	448	513	65
Gwlad Belg	449	* 547	* 98
Denmarc	443	512	69
Seland Newydd	* 473	* 562	* 89
Gweriniaeth Iwerddon	* 466	* 538	72
Cyfartaledd yr OECD	446	* 531	* 85

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran â data ESCS yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Mae seren (*) yn nodi sgorau ac ystodau cyfartalog sy'n sylweddol wahanol i'r rhai ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.

Cyfrifwyd yr ystod fel y sgôr gyfartalog ar gyfer Chwartzel 4 – y sgôr gyfartalog ar gyfer Chwartzel 1.

Mae'n bosibl y bydd yr ystodau yn ymddangos yn anghyson â'r sgorau chwartzel gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa Ddata PISA 2025 yr OECD

6.5.2 Cryfder y berthynas rhwng ESCS a sgorau gwyddoniaeth PISA (graddiant y llethr)

Roedd gan statws economaidd-gymdeithasol effaith sylweddol lai ar sgorau gwyddoniaeth yng Nghymru o gymharu â chyfartaledd yr OECD. Yng Nghymru, roedd gwahaniaeth o 26 o bwyntiau o ran perfformiad gwyddoniaeth yn gysylltiedig â chynnydd o un uned yn ESCS, a oedd yn sylweddol is na'r gwahaniaeth o 36 o bwyntiau ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD. Roedd cryfder y berthynas rhwng ESCS a sgorau gwyddoniaeth yng Nghymru hefyd yn llai na'r effaith a welwyd ym mhob un o'r gwledydd cymharol. Roedd y gwahaniaeth pwyntiau o ran perfformiad gwyddoniaeth yng Nghymru (26 o bwyntiau) yn sylweddol is na'r gwahaniaethau yng Ngwlad Belg (38 o bwyntiau), Denmarc (35 o bwyntiau), Seland Newydd (36 o bwyntiau) a Gweriniaeth Iwerddon (32 o bwyntiau). Mae hyn yn dangos bod statws economaidd-gymdeithasol yn cael llai o effaith ar gyrhaeddiad dysgwyr mewn gwyddoniaeth yng Nghymru nag yn y gwledydd hyn.

6.5.3 Amrywiad o ran sgorau gwyddoniaeth rhwng dysgwyr â chefnidiroedd tebyg

Canran yr amrywiad o ran perfformiad gwyddoniaeth y gellid ei phriodoli i statws economaidd-gymdeithasol yng Nghymru oedd 6%, o gymharu â 12% ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD. Yng Ngwlad Belg, y ganran oedd 14%, yn Nenmarc, 10%, yn Seland Newydd, 11%, ac yng Ngweriniaeth Iwerddon, 10%. Mae'r effaith gymharol wannach yn dangos mwy o amrywioldeb yng Nghymru o ran cyrhaeddiad dysgwyr â'r un statws economaidd-gymdeithasol, sy'n awgrymu nad yw statws economaidd-gymdeithasol yn un o'r prif ffactorau wrth bennu canlyniadau.


6.5.4 Canran y dysgwyr mewn gwyddoniaeth a oedd 'yn wydn yn academiaidd'

Dysgwyr sy'n wydn yn academiaidd yw'r rhai sy'n llwyddo'n academiaidd er gwaethaf eu statws economaidd-gymdeithasol cymharol isel. Yng Nghymru, roedd 15% o ddysgwyr yn wydn yn academiaidd yng nghyd-destun perfformiad gwyddoniaeth, nad oedd yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD (12%) a'r cyfraddau yn Nenmarc (13%), Seland Newydd (13%) a Gweriniaeth Iwerddon (14%). I'r gwrthwyneb, roedd cyfradd Cymru (15%) yn sylweddol uwch na'r gyfradd ar gyfer Gwlad Belg (10%). Ystyrir bod dysgwr yn wydn yn PISA os bydd yn chwarterl isaf Mynegai ESCS ei wlad (Chwarterl 1) ond bod ei berfformiad ymhlith y chwarterl uchaf o ddysgwyr yn y wlad honno (Chwarterl 4).

6.5.5 Sut gwnaeth dysgwyr yng Nghymru berfformio ar y 10fed a'r 90ain canradd mewn gwyddoniaeth yn ôl chwarterl ESCS?

Mae Ffigur 6.2 yn dangos sgorau gwyddoniaeth cyfartalog 2025 ar y 90ain a'r 10fed canradd (a'r ystod mewn sgorau rhwng y canraddau hyn)⁶⁸ ar gyfer dysgwyr yng nghwarterli 1 a 4 ESCS.

Ffigur 6.2 Perfformiad dysgwyr yng Nghymru ar y 90ain a'r 10fed canradd mewn gwyddoniaeth yn ôl chwarterl ESCS



Chwarterl ESCS	Sgôr ar y 10fed canradd	Sgôr ar y 90ain canradd	Ystod ryngddegradd
Chwarterl 4	380	640	260
Chwarterl 1	328	567	239

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran â data ESCS yng Nghymru.

Cyfrifwyd yr ystodau rhyngddegradd fel y sgôr ar y 90ain canradd – y sgôr ar y 10fed canradd.

⁶⁸ Gweler Pennod 1 (1.4.5) am ddiffiniadau o ganraddau a'r ystod ryngddegradd. Cyfrifwyd yr ystod fel y sgôr gyfartalog ar gyfer Chwarterl 4 – y sgôr gyfartalog ar gyfer Chwarterl 1.

6.5.6 I ba raddau y llwyddodd dysgwyr yng Nghymru i gyrraedd y lefelau hyfedredd PISA uchaf ac isaf mewn gwyddoniaeth yn ôl chwarterl ESCS?⁶⁹


Chwarterl 1 (dysgwyr mwyaf difreintiedig)

Mae Ffigur 6.3 yn dangos bod 3% o ddysgwyr yn Chwarterl 1 yng Nghymru wedi cyflawni Lefelau 5 neu 6 yn 2025. Nid oedd y ganran hon yn sylweddol wahanol i ganrannau'r dysgwyr yng Ngwlad Belg (1%), Denmarc (2%) a Gweriniaeth Iwerddon (3%) na chyfartaledd yr OECD (2%). I'r gwrthwyneb, roedd canran y dysgwyr yng Nghymru (3%) yn sylweddol is na'r ganran gyfatebol ar gyfer Seland Newydd (5%).

Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng canran y dysgwyr yn Chwarterl 1 yng Nghymru a gyflawnodd islaw Lefel 2 mewn gwyddoniaeth (35%) a chanrannau'r dysgwyr yng Ngwlad Belg (34%), Denmarc (37%) na'r OECD ar gyfartaledd (37%). I'r gwrthwyneb, roedd canran y dysgwyr yng Nghymru a gyflawnodd islaw Lefel 2 mewn gwyddoniaeth (35%) yn sylweddol uwch na'r canrannau cyfatebol yn Seland Newydd (27%) a Gweriniaeth Iwerddon (28%).

⁶⁹ Er bod y ffigurau yn y bennod hon yn cyflwyno data ar gyfer pob lefel hyfedredd, mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar Lefelau hyfedredd 5, 6 ac Islaw Lefel 2. Cyflwynir data cyfatebol ar gyfer perfformiad dysgwyr mewn darllen a mathemateg yn Ffigurau A1 – A4 yr Atodiad.

Ffigur 6.3 Canran y dysgwyr yn Chwartzel 1 ESCS a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd gwyddoniaeth yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD



Gwlad	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
Cymru	35%	31%	23%	9%	3%
Gwlad Belg	34%	30%	25%	10%	1%
Denmarc	37%	31%	22%	9%	2%
Seland Newydd	* 27%	28%	25%	* 14%	* 5%
Gweriniaeth Iwerddon	* 28%	30%	26%	* 13%	3%
Cyfartaledd yr OECD	37%	29%	22%	10%	2%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran â data ESCS yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Mae seren (*) yn nodi gwahaniaethau sylweddol rhwng canran y dysgwyr yn y gwledydd cymharol neu gyfartaledd yr OECD o gymharu â chanran y dysgwyr yng Nghymru.

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ni chaiff canrannau islaw 4.5% eu harddangos ar y siart er mwyn sicrhau eglurder gweledol.


Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

Chwartzel 4 (dysgwyr lleiaf difreintiedig)

Mae Ffigur 6.4 yn dangos mai canran y dysgwyr yn Chwartzel 4 yng Nghymru a gyrhaeddodd y lefelau hyfedredd uchaf (Lefelau 5 neu 6) mewn gwyddoniaeth oedd 11%. Nid oedd hyn yn sylweddol wahanol i ganrannau cyfatebol y dysgwyr yn Nenmarc (8%), Gweriniaeth Iwerddon (13%) na chyfartaledd yr OECD (14%). I'r gwrthwyneb, roedd y ganran yng Nghymru (11%) yn sylweddol is na'r canrannau cyfatebol ar gyfer dysgwyr yng Ngwlad Belg (16%) a Seland Newydd (25%).

Nid oedd canran y dysgwyr yng Nghymru yn Chwartzel 4 a gyflawnodd islaw'r lefel hyfedredd sylfaenol (islaw Lefel 2) mewn gwyddoniaeth (16%) yn sylweddol wahanol i'r ganran gyfatebol yn Nenmarc (14%). I'r gwrthwyneb, roedd y ganran ar gyfer Cymru yn sylweddol uwch na'r canrannau cyfatebol yng Ngwlad Belg (8%), Seland Newydd (7%), Gweriniaeth Iwerddon (8%) a chyfartaledd yr OECD (12%).

Ffigur 6.4 Canran y dysgwyr yn Chwartzel 4 a gyrhaeddodd bob lefel hyfedredd gwyddoniaeth yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD



Gwlad	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
Cymru	16%	22%	26%	23%	11%
Gwlad Belg	* 8%	* 14%	29%	* 33%	* 16%
Denmarc	14%	23%	32%	23%	8%
Seland Newydd	* 7%	* 14%	25%	* 28%	* 25%
Gweriniaeth Iwerddon	* 8%	18%	* 32%	* 29%	13%
Cyfartaledd yr OECD	* 12%	19%	29%	26%	14%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran â data ESCS yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Mae seren (*) yn nodi gwahaniaethau sylweddol rhwng canran y dysgwyr yn y gwledydd cymharol neu gyfartaledd yr OECD o gymharu â chanran y dysgwyr yng Nghymru.

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

6.6 Beth yw'r berthynas rhwng statws economaidd-gymdeithasol a pherfformiad darllen yn PISA yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac yng nghyfartaledd yr OECD?

6.6.1 Perfformiad darllen yn ôl cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim

Fel y dangosir yn Nhabl 6.3, cyflawnodd dysgwyr a oedd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 2025 sgôr darllen gyfartalog o 430, a oedd yn sylweddol is na dysgwyr nad oeddent yn gymwys (463), sef bwlch o 33 o bwyntiau sgôr. Yn yr un modd, cyflawnodd dysgwyr a fu'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ystod y 6 blynedd diwethaf sgôr gyfartalog o 433 yn 2025, a oedd yn sylweddol is na dysgwyr nad oeddent yn gymwys (466), bwlch arall o 33 o bwyntiau sgôr.

Tabl 6.3 Perfformiad darllen dysgwyr yng Nghymru yn ôl statws prydau ysgol am ddim

Cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim	Canran y dysgwyr	Sgôr darllen gyfartalog
Ddim yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 2025	86%	463
Yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 2025	14%	430

Ddim yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y chwe blynedd diwethaf	78%	466
Yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y chwe blynedd diwethaf	22%	433


Ffynhonnell: Cronfa Ddata Genedlaethol y Dysgwyr

6.6.2 Ystod o ran perfformiad darllen rhwng Chwartzel 1 a Chwartzel 4 ESCS yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD

Nid oedd ystod ryngchwartzel (wedi'i byrhau i 'ystod')⁷⁰ sgorau darllen yng Nghymru (50 o bwyntiau) rhwng dysgwyr yn Chwartzel 1 (442) a Chwartzel 4 (492) yn sylweddol wahanol i'r ystod yn Nenmarc (57 o bwyntiau) (gweler Ffigur 6.5). I'r gwrthwyneb, roedd ystod sgorau darllen dysgwyr yng Nghymru (50) yn sylweddol gulach o gymharu â chyfartaledd yr OECD (77), Gwlad Belg (84), Seland Newydd (78) a Gweriniaeth Iwerddon (70). Ym mhob achos, y prif reswm dros y gwahaniaethau hyn oedd sgorau cyfartalog dysgwyr yn Chwartzel 4 (lleiaf difreintiedig) y gwledydd hyn, a oedd yn sylweddol uwch na'r sgorau cyfatebol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.

⁷⁰ Gweler Pennod 1 (1.4.5) am ddiffiniadau o ganraddau a'r ystod ryngddegradd.

Ffigur 6.5 Ystod o ran perfformiad darllen rhwng Chwartzeli 1 a 4 Mynegai ESCS yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD



Gwlad	Chwartzel 1 ESCS	Chwartzel 4 ESCS	Ystod ryngchwartzel ESCS
Cymru	442	491	50
Gwlad Belg	433	* 517	* 84
Denmarc	431	488	57
Seland Newydd	* 468	* 546	* 78
Gweriniaeth Iwerddon	* 469	* 540	* 70
Cyfartaledd yr OECD	* 429	* 506	* 78

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran â data ESCS yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Mae seren () yn nodi sgorau ac ystodau cyfartalog sy'n sylweddol wahanol i'r rhai ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.*

Cyfrifwyd yr ystod fel y sgôr gyfartalog ar gyfer Chwartzel 4 – y sgôr gyfartalog ar gyfer Chwartzel 1. Mae'n bosibl y bydd yr ystodau yn ymddangos yn anghyson â'r sgorau chwartzel gan eu bod wedi'u talgrynnu.

6.6.3 Cryfder y berthynas rhwng ESCS a sgorau darllen PISA (graddiant y llethr)

Roedd gan statws economaidd-gymdeithasol effaith sylweddol lai ar sgorau darllen yng Nghymru o gymharu â chyfartaledd yr OECD. Yng Nghymru, roedd gwahaniaeth o 20 o bwyntiau o ran perfformiad darllen yn gysylltiedig â chynnydd o un uned yn ESCS, a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD (32 o bwyntiau). Roedd y gwahaniaeth pwyntiau mewn perfformiad darllen yng Nghymru hefyd yn sylweddol is na'r gwahaniaethau ym mhob un o'r gwledydd cymharol: Gwlad Belg (33 o bwyntiau), Denmarc (30 o bwyntiau), Seland Newydd (32 o bwyntiau) a Gweriniaeth Iwerddon (30 o bwyntiau), sy'n dangos bod perthynas sylweddol gryfach rhwng statws economaidd-gymdeithasol a pherfformiad darllen yn y gwledydd hyn o gymharu â Chymru.

6.6.4 Amrywiad o ran sgorau darllen rhwng dysgwyr â chefnidiroedd tebyg

Canran yr amrywiad o ran perfformiad darllen y gellid ei phriodoli i statws economaidd-gymdeithasol yng Nghymru oedd 4%, o gymharu â 9% ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD. Yng Ngwlad Belg, y ganran oedd 10%, yn Nenmarc, 7%, yn Seland Newydd, 8%, ac yng Ngweriniaeth Iwerddon, 9%. Mae'r berthynas wannach yn awgrymu, yng Nghymru, fod mwy o amrywiad o ran cyrhaeddiad ymhlith dysgwyr o gefnidiroedd economaidd-gymdeithasol tebyg, sy'n dangos nad statws economaidd-gymdeithasol yw'r prif ffactor wrth bennu canlyniadau.

6.6.5 Canran y dysgwyr darllen sydd 'yn wydn yn academiaidd'

Dysgwyr sy'n wydn yn academiaidd yw'r rhai sy'n llwyddo'n academiaidd er gwaethaf eu statws economaidd-gymdeithasol cymharol isel. Yng Nghymru, roedd 17% o ddysgwyr yn wydn yn academiaidd yng nghyd-destun perfformiad darllen, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd yr OECD (13%). Roedd y gyfradd ar gyfer dysgwyr sy'n wydn yn academiaidd yng Nghymru hefyd yn sylweddol uwch na'r gyfradd ar gyfer Gwlad Belg (11%). I'r gwrthwyneb, nid oedd yn sylweddol wahanol i'r cyfraddau ym mhob un o'r gwledydd cymharol eraill: Denmarc (15%), Seland Newydd (15%) a Gweriniaeth Iwerddon (14%).

6.7 Beth yw'r berthynas rhwng statws economaidd-gymdeithasol a pherfformiad mathemateg yn PISA yng

Nghymru, yn y gwledydd cymharol ac yng nghyfartaledd yr OECD?

6.7.1 Perfformiad mathemateg yn ôl cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim

Fel y dangosir yn Nhabl 6.4, cyflawnodd dysgwyr a oedd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 2025 sgôr gyfartalog o 417, a oedd yn sylweddol is na dysgwyr nad oeddent yn gymwys (462), sef bwlch o 45 o bwyntiau sgôr. Yn yr un modd, cyflawnodd dysgwyr a fu'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ystod y 6 blynedd diwethaf sgôr gyfartalog o 422 yn 2025, a oedd yn sylweddol is na dysgwyr nad oeddent yn gymwys (466), sef bwlch o 44 o bwyntiau sgôr.

Tabl 6.4 Perfformiad mathemateg dysgwyr yng Nghymru yn ôl statws prydau ysgol am ddim

Cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim	Canran y dysgwyr	Sgôr mathemateg gyfartalog
Ddim yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 2025	86%	462
Yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 2025	14%	417
Ddim yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y chwe blynedd diwethaf	78%	466
Yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y chwe blynedd diwethaf	22%	422

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Genedlaethol y Dysgwyr


6.7.2 Ystod o ran perfformiad mathemateg rhwng Chwartzel 1 a Chwartzel 4 ESCS yng Nghymru, yn y gwledydd cymharol a chyfartaledd yr OECD

Mae Ffigur 6.6 yn dangos nad oedd ystod ryngchwartzel (wedi'i byrhau i 'ystod')⁷¹ sgorau mathemateg yng Nghymru (70 o bwyntiau) rhwng y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr yn Chwartzel 1 (426) a Chwartzel 4 (496) yn sylweddol wahanol i'r ystodau yn Nenmarc (58 o bwyntiau) na Gweriniaeth Iwerddon (72 o bwyntiau). I'r gwrthwyneb, roedd ystod sgorau mathemateg cyfartalog dysgwyr yng Nghymru (70 o bwyntiau) yn sylweddol gulach o gymharu â'r ystodau yng Ngwlad Belg (97 o bwyntiau), Seland Newydd (86 o bwyntiau) ac ystod cyfartaledd yr OECD (83 o bwyntiau). Ym mhob achos, y prif reswm dros y

⁷¹ Gweler Pennod 1 (1.4.5) am ddiffiniadau o ganraddau a'r ystod ryngddegradd.

gwahaniaethau hyn oedd sgorau cyfartalog dysgwyr yn Chwartzel 4, a oedd yn sylweddol uwch na'r sgorau cyfatebol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.

Ffigur 6.6 Perfformiad mathemateg yn ôl chwartzel Mynegai ESCS



Gwlad	Chwartzel 1 ESCS	Chwartzel 4 ESCS	Ystod ryngchwartzel ESCS
Cymru	426	496	70
Gwlad Belg	* 439	* 536	* 97
Denmarc	* 444	501	58
Seland Newydd	* 446	* 532	* 86
Gweriniaeth Iwerddon	* 446	* 519	72
Cyfartaledd yr OECD	428	* 511	* 83

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran â data ESCS yn y gwledydd sydd wedi'u cynnwys.

Mae seren (*) yn nodi sgorau ac ystodau cyfartalog sy'n sylweddol wahanol i'r rhai ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.

Cyfrifwyd yr ystod fel y sgôr gyfartalog ar gyfer Chwartzel 4 – y sgôr gyfartalog ar gyfer Chwartzel 1.

6.7.3 Cryfder y berthynas rhwng ESCS a sgorau mathemateg PISA (graddiant y llethr)

Roedd gan statws economaidd-gymdeithasol effaith sylweddol lai ar sgorau mathemateg yng Nghymru o gymharu â chyfartaledd yr OECD. Yng Nghymru, roedd gwahaniaeth o 28 o bwyntiau o ran perfformiad mathemateg yn gysylltiedig â chynnydd o un uned yn ESCS, a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD (35 o bwyntiau). Roedd y gwahaniaeth pwyntiau o ran perfformiad mathemateg yng Nghymru hefyd yn sylweddol is na'r gwahaniaethau yng Ngwlad Belg (38 o bwyntiau) a Seland Newydd (34 o bwyntiau) ond nid oedd yn sylweddol wahanol i Ddenmarc (29 o bwyntiau) na Gweriniaeth Iwerddon (31 o bwyntiau).

6.7.4 Amrywiad rhwng dysgwyr mathemateg â chefnidiroedd tebyg

Canran yr amrywiad o ran perfformiad mathemateg y gellid ei phriodoli i statws economaidd-gymdeithasol yng Nghymru oedd 8%, o gymharu â 12% ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD. Yng Ngwlad Belg, y ganran oedd 16%, yn Nenmarc, 8%, yn Seland Newydd, 10%, ac yng Ngweriniaeth Iwerddon, 11%. Mae'r berthynas wannach yn awgrymu, yng Nghymru, fod mwy o amrywiad o ran cyrhaeddiad ymhlith dysgwyr o gefnidiroedd economaidd-gymdeithasol tebyg, sy'n dangos nad statws economaidd-gymdeithasol yw'r prif ffactor wrth bennu canlyniadau.

6.7.5 Canran y dysgwyr mathemateg sydd 'yn wydn yn academiaidd'

Dysgwyr sy'n wydn yn academiaidd yw'r rhai sy'n llwyddo'n academiaidd er gwaethaf eu statws economaidd-gymdeithasol cymharol isel. Yng Nghymru, roedd 14% o'r dysgwyr yn wydn yn academiaidd yng nghyd-destun perfformiad mathemateg, nad oedd yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD (12%) na'r cyfraddau yn Nenmarc (14%), Seland Newydd (14%) a Gweriniaeth Iwerddon (13%). I'r gwrthwyneb, roedd y gyfradd yng Nghymru (14%) yn sylweddol uwch na'r gyfradd yng Ngwlad Belg (10%).

6.8 A oes gwahaniaeth o ran perfformiad yn ôl statws mewnfudo?

Mae'r holiadur i ddysgwyr yn PISA 2025 yn casglu gwybodaeth sy'n nodi a yw dysgwyr yn fewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf neu ail genhedlaeth. Mae PISA yn diffinio dysgwyr sy'n fewnfudwyr fel y rhai y ganed eu mam a'u tad mewn gwlad/economi sy'n wahanol i'r un lle y safodd y dysgwr brawf PISA. Y 3 chategori o gefndir mewnfudo a ddefnyddir yw:

- dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr – dysgwyr lle ganed eu mam neu eu tad (neu'r ddau) yn yr un wlad lle y safodd y dysgwr brawf PISA, ni waeth p'un a aned y dysgwr ei hun yn y wlad honno ai peidio
- dysgwyr sy'n fewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf – dysgwyr a gafodd eu geni mewn gwlad arall ac y ganed eu rhieni/gofalwyr mewn gwlad arall hefyd
- dysgwyr sy'n fewnfudwyr ail genhedlaeth – dysgwyr a gafodd eu geni yn y wlad lle cynhaliwyd yr asesiad ond y ganed eu rhieni/gofalwyr mewn gwlad arall

Yn 2025, canran y dysgwyr ar draws gwledydd yr OECD â chefnidir mewnfudo oedd 15%. Yng Nghymru, canran y dysgwyr â chefnidir mewnfudo oedd 11%. Yn PISA 2025, nid oedd statws mewnfudo 10% o ddysgwyr ar gael yn 2025 ar gyfer Cymru nac ar gyfer cyfartaledd yr OECD.

6.8.1 Gwyddoniaeth

Yng Nghymru, nid oedd sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr â chefnidir mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf (482) yn sylweddol wahanol i'r sgôr ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr (479). I'r gwrthwyneb, roedd y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr â chefnidir mewnfudwyr ail genhedlaeth (505) yn sylweddol uwch na'r sgorau cyfartalog ar gyfer dysgwyr â chefnidir mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf (482) a dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr (479).

Mae Tabl 6.5 isod yn dangos, ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD, fod y sgôr gwyddoniaeth gyfartalog ar gyfer dysgwyr naill ai â chefnidir mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf (437) neu ail genhedlaeth (460) yn sylweddol is na'r sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr (495).

Tabl 6.5 Cefndir mewnfudo a sgorau gwyddoniaeth cyfartalog yng Nghymru a chyfartaledd yr OECD

Dysgwyr	Cymru	OECD
Dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr	479	495
Dysgwyr cenhedlaeth gyntaf	482	437
Dysgwyr ail genhedlaeth	505	460
Y gwahaniaeth rhwng dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr a dysgwyr ail genhedlaeth	*-26	* 35
Y gwahaniaeth rhwng dysgwyr cenhedlaeth gyntaf a dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr	3	* -58
Y gwahaniaeth rhwng dysgwyr cenhedlaeth gyntaf a dysgwyr ail genhedlaeth	* -23	* -23

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru a'r OECD â data ar statws mewnfudo.

Cyfrifwyd y gwahaniaeth rhwng perfformiad dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr a dysgwyr ail genhedlaeth fel y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr – y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr ail genhedlaeth.

Cyfrifwyd y gwahaniaeth rhwng perfformiad dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr a dysgwyr cenhedlaeth gyntaf fel y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr cenhedlaeth gyntaf – y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr.

Cyfrifwyd y gwahaniaeth rhwng perfformiad dysgwyr cenhedlaeth gyntaf a dysgwyr ail genhedlaeth fel y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr cenhedlaeth gyntaf – y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr ail genhedlaeth.

Ffynhonnell: Cronfa Ddata PISA 2025 yr OECD

6.8.2 Darllen

Yng Nghymru, nid oedd sgôr darllen gyfartalog dysgwyr â chefnidir mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf (464) yn sylweddol wahanol i'r sgôr ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr (462) (gweler Tabl 6.6). I'r gwrthwyneb, roedd y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr â chefnidir mewnfudwyr ail genhedlaeth (490) yn sylweddol uwch na'r sgorau cyfartalog ar gyfer dysgwyr â chefnidir mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf (464) a dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr (462).

Ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD, roedd y sgôr darllen gyfartalog ar gyfer dysgwyr naill ai â chefnidir mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf (414) neu ail genhedlaeth (442) yn sylweddol is na'r sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr (474).

Tabl 6.6 Cefndir mewnfudo a sgorau darllen cyfartalog yng Nghymru a chyfartaledd yr OECD

Dysgwyr	Cymru	OECD
Dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr	462	474
Dysgwyr cenhedlaeth gyntaf	464	414
Dysgwyr ail genhedlaeth	490	442
Y gwahaniaeth rhwng dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr a dysgwyr ail genhedlaeth	* -29	* 32
Y gwahaniaeth rhwng dysgwyr cenhedlaeth gyntaf a dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr	2	* -60
Y gwahaniaeth rhwng dysgwyr cenhedlaeth gyntaf a dysgwyr ail genhedlaeth	* -26	* -28

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru a'r OECD â data ar statws mewnfudo.

Cyfrifwyd y gwahaniaeth rhwng perfformiad dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr a dysgwyr ail genhedlaeth fel y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr – y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr ail genhedlaeth.

Cyfrifwyd y gwahaniaeth rhwng perfformiad dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr a dysgwyr cenhedlaeth gyntaf fel y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr cenhedlaeth gyntaf – y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr.

Cyfrifwyd y gwahaniaeth rhwng perfformiad dysgwyr cenhedlaeth gyntaf a dysgwyr ail genhedlaeth fel y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr cenhedlaeth gyntaf – y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr ail genhedlaeth.

Ffynhonnell: Cronfa Ddata PISA 2025 yr OECD

6.8.3 Mathemateg

Yng Nghymru, nid oedd sgôr mathemateg gyfartalog dysgwyr â chefnidir mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf (461) yn sylweddol wahanol i'r sgôr ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr (459) (gweler Tabl 6.7). I'r gwrthwyneb, roedd y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr â chefnidir mewnfudwyr ail genhedlaeth (488) yn sylweddol uwch na'r sgorau cyfartalog ar gyfer dysgwyr cenhedlaeth gyntaf (461) a dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr (459).

Ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD, roedd y sgôr mathemateg gyfartalog ar gyfer dysgwyr naill ai â chefnidir mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf (433) neu ail genhedlaeth (447) yn sylweddol is na'r sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr (474).

Tabl 6.7 Cefndir mewnfudo a sgorau mathemateg cyfartalog yng Nghymru a chyfartaledd yr OECD

Dysgwyr	Cymru	OECD
Dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr	459	474
Dysgwyr cenhedlaeth gyntaf	461	433
Dysgwyr ail genhedlaeth	488	447
Y gwahaniaeth rhwng dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr a dysgwyr ail genhedlaeth	* -29	* 28
Y gwahaniaeth rhwng dysgwyr cenhedlaeth gyntaf a dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr	3	* -41
Y gwahaniaeth rhwng dysgwyr cenhedlaeth gyntaf a dysgwyr ail genhedlaeth	* -26	* -14

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru a'r OECD â data ar statws mewnfudo.

Cyfrifwyd y gwahaniaeth rhwng perfformiad dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr a dysgwyr ail genhedlaeth fel y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr – y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr ail genhedlaeth.

Cyfrifwyd y gwahaniaeth rhwng perfformiad dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr a dysgwyr cenhedlaeth gyntaf fel y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr cenhedlaeth gyntaf – y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn fewnfudwyr.

Cyfrifwyd y gwahaniaeth rhwng perfformiad dysgwyr cenhedlaeth gyntaf a dysgwyr ail genhedlaeth fel y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr cenhedlaeth gyntaf – y sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr ail genhedlaeth.

Ffynhonnell: Cronfa Ddata PISA 2025 yr OECD

7 PISA ar draws y Deyrnas Unedig

7.1 Trosolwg o'r bennod

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r sgorau gwyddoniaeth, darllen, a mathemateg cyfartalog yn PISA ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae'r bennod hon hefyd yn disgrifio perfformiad cymharol y dysgwyr â'r lefelau cyflawniad uchaf a'r dysgwyr â'r lefelau cyflawniad isaf ym mhob un o wledydd y DU, y gwahaniaethau cymharol yn ôl rhywedd o ran eu sgorau cyfartalog, a'r gwahaniaethau cymharol rhwng y grwpiau economaidd-gymdeithasol mwyaf a lleiaf difreintiedig.

7.2 Canfyddiadau allweddol

- Yn PISA 2025, sgôr gyfartalog dysgwyr ar gyfer gwyddoniaeth yng Nghymru oedd 476, a oedd yn sylweddol is na'r sgorau cyfatebol yn Lloegr (516), Gogledd Iwerddon (492) a'r Alban (491).
- Sgôr gyfartalog dysgwyr ar gyfer darllen yng Nghymru oedd 459, a oedd yn sylweddol is na'r sgorau cyfatebol yn Lloegr (497), Gogledd Iwerddon (482) a'r Alban (488).
- Sgôr gyfartalog dysgwyr ar gyfer mathemateg yng Nghymru oedd 456, a oedd yn sylweddol is na'r sgorau cyfatebol yn Lloegr (492), Gogledd Iwerddon (473) a'r Alban (467).
- Yng Nghymru, ac ym mhob un o'r gwledydd eraill, roedd tuedd sefydlog o ran perfformiad gwyddoniaeth cyfartalog dysgwyr dros amser heb unrhyw wahaniaeth sgôr sylweddol rhwng y sgôr gyfartalog ar gyfer PISA 2015 o gymharu â'r sgôr gyfartalog yn 2025.
- Yng Nghymru roedd tuedd sylweddol ar i lawr o ran sgorau darllen cyfartalog dysgwyr rhwng PISA 2015 a 2025, fel yng Ngogledd Iwerddon. Roedd sgorau darllen dysgwyr yn sefydlog yn Lloegr a'r Alban dros yr un cyfnod.
- Mewn mathemateg, roedd tuedd sylweddol ar i lawr o ran sgorau cyfartalog dysgwyr yng Nghymru rhwng PISA 2015 a 2025, fel yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban. Arhosodd sgorau cyfartalog dysgwyr yn Lloegr yn sefydlog dros yr un cyfnod hwn.
- Roedd y gwahaniaethau rhywedd yn PISA 2025 yn gyson ar draws y 4 gwlad ar gyfer darllen gyda merched yn cyflawni sgôr gyfartalog sylweddol uwch na bechgyn.
- Mewn mathemateg, roedd bylchau rhywedd sylweddol o blaid bechgyn o ran sgorau cyfartalog dysgwyr ym mhob gwlad ac eithrio Gogledd Iwerddon.
- Mewn gwyddoniaeth, roedd bwlch rhywedd sylweddol o blaid bechgyn yn Lloegr ond nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng sgorau gwyddoniaeth merched a bechgyn yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban.
- Fel mewn cylchoedd blaenorol, perfformiodd dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol llai difreintiedig yn well na'u cyfoedion o gefndiroedd mwy difreintiedig ar draws pob maes a phob gwlad.

7.3 Cyflwyniad

Er bod llawer o nodweddion tebyg rhwng Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, mae gwahaniaethau pendant hefyd o ran eu systemau addysg, eu diwylliant a'u cyfansoddiad demograffig. Nid ystyried esboniadau posibl dros y sgorau gwahanol rhwng gwledydd y DU yw diben y bennod hon, ond yn hytrach, rhoi crynodeb o'r sgorau yn 3 maes pwnc PISA, sef gwyddoniaeth, darllen a mathemateg, ac adrodd ar y sgorau hynny.

7.4 Sut gwnaeth dysgwyr berfformio ym mhob maes?

Mae Ffigur 7.1 yn dangos sgorau cyfartalog PISA pob gwlad yn y 3 maes. Fodd bynnag, nid oedd pob gwahaniaeth rhwng y gwledydd yn arwyddocaol sy'n golygu y dylid dehongli eu trefn restrol yn ofalus. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar wahaniaethau arwyddocaol rhwng sgorau cyfartalog Cymru a gwledydd eraill y DU.

7.4.1 Gwyddoniaeth

Sgôr gyfartalog dysgwyr ar gyfer gwyddoniaeth yng Nghymru oedd 476, a oedd yn sylweddol is na'r sgorau cyfatebol yn Lloegr (516), Gogledd Iwerddon (492) a'r Alban (491).


7.4.2 Darllen

Sgôr gyfartalog dysgwyr ar gyfer darllen yng Nghymru oedd 459, a oedd yn sylweddol is na'r sgorau cyfatebol yn Lloegr (497), Gogledd Iwerddon (482) a'r Alban (488).

7.4.3 Mathemateg

Sgôr gyfartalog dysgwyr ar gyfer mathemateg yng Nghymru oedd 456, a oedd yn sylweddol is na'r sgorau cyfatebol yn Lloegr (492), Gogledd Iwerddon (473) a'r Alban (467).

Ffigur 7.1 Sgôr maes PISA cyfartalog dysgwyr yn ôl gwledydd y DU



Gwlad	Gwyddoniaeth	Darllen	Mathemateg
Cymru	476	459	456
Lloegr	* 516	* 497	* 492
Gogledd Iwerddon	* 492	* 482	* 473
Yr Alban	* 491	* 488	* 467

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.
Mae seren (*) yn nodi sgorau cyfartalog sy'n sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog ar gyfer dysgwyr yng Nghymru yn PISA 2025.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025

7.5 Sut gwnaeth dysgwyr berfformio ar draws lefelau hyfedredd PISA?


Gellir hefyd cymharu gwledydd y DU o ran y canrannau a lwyddodd i gyrraedd pob un o lefelau hyfedredd PISA ar gyfer gwyddoniaeth, darllen a mathemateg (mae'r lefelau yn amrywio rhwng 1 a 6). Yn yr adrannau canlynol, cyflwynir cyfran y dysgwyr â pherfformiad

uchel (y dysgwyr hynny sy'n cyrraedd Lefel 5 neu Lefel 6) a'r dysgwyr â pherfformiad isel (y dysgwyr hynny sy'n cyrraedd islaw Lefel 2) ar draws gwledydd y DU.

7.5.1 Gwyddoniaeth

Mae Ffigur 7.2 yn dangos, yn PISA 2025, mai canran y dysgwyr yng Nghymru a gyrhaeddodd Lefelau 5 neu 6 mewn gwyddoniaeth oedd 6%, sy'n sylweddol lai na'r canrannau cyfatebol yn Lloegr (14%), Gogledd Iwerddon (8%) a'r Alban (8%). Canran y dysgwyr yng Nghymru a gyflawnodd islaw Lefel 2 mewn gwyddoniaeth oedd 27%, sy'n sylweddol fwy na'r canrannau cyfatebol yn Lloegr (16%), Gogledd Iwerddon (22%) a'r Alban (21%).

Ffigur 7.2 Canran y dysgwyr a gyflawnodd bob lefel hyfedredd gwyddoniaeth yn ôl gwledydd y DU



Gwlad	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
Cymru	27%	27%	25%	15%	6%
Lloegr	* 16%	* 22%	26%	* 22%	* 14%

Gwlad	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
Gogledd Iwerddon	* 22%	24%	27%	* 19%	* 8%
Yr Alban	* 21%	27%	27%	17%	* 8%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Mae seren (*) yn nodi canrannau sy'n sylweddol wahanol i'r canrannau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.


Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

7.5.2 Darllen

Mae Ffigur 7.3 yn dangos, yng Nghymru, mai canran y dysgwyr a gyrhaeddodd Lefelau 5 neu 6 mewn darllen oedd 4%, sy'n sylweddol lai na'r canrannau cyfatebol yn Lloegr (10%), Gogledd Iwerddon (6%) a'r Alban (7%). Canran y dysgwyr yng Nghymru a gyflawnodd islaw Lefel 2 mewn darllen oedd 31%, sy'n sylweddol fwy na'r canrannau cyfatebol yn Lloegr (19%), Gogledd Iwerddon (23%) a'r Alban (20%).

Ffigur 7.3 Canran y dysgwyr a gyflawnodd bob lefel hyfedredd darllen yn ôl gwledydd y DU



Gwlad	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
Cymru	31%	27%	25%	14%	4%
Lloegr	* 19%	* 24%	* 28%	* 20%	* 10%
Gogledd Iwerddon	* 23%	24%	* 28%	* 18%	* 6%
Yr Alban	* 20%	26%	* 28%	* 18%	* 7%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Mae seren () yn nodi canrannau sy'n sylweddol wahanol i'r canrannau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.*

Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.


Ni chaiff canrannau islaw 4.5% eu harddangos ar y siart er mwyn sicrhau eglurder gweledol.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

7.5.3 Mathemateg

Mae Ffigur 7.4 yn dangos, yng Nghymru, mai canran y dysgwyr a gyrhaeddodd Lefelau 5 neu 6 mewn mathemateg oedd 6%. Nid oedd y ganran hon yn sylweddol wahanol i'r ganran gyfatebol yn yr Alban (7%) ond roedd yn sylweddol is na chanrannau'r dysgwyr yn Lloegr (14%) a Gogledd Iwerddon (9%). Canran y dysgwyr yng Nghymru a gyflawnodd islaw Lefel 2 mewn mathemateg oedd 36%. Nid oedd y ganran hon yn sylweddol wahanol i'r ganran gyfatebol yn yr Alban (32%) ond roedd yn sylweddol uwch na'r canrannau yn Lloegr (25%) a Gogledd Iwerddon (30%).

Ffigur 7.4 Canran y dysgwyr a gyflawnodd bob lefel hyfedredd mathemateg yn ôl gwledydd y DU



Gwlad	Islaw Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5 neu Lefel 6
Cymru	36%	25%	21%	12%	6%
Lloegr	* 25%	22%	22%	* 17%	* 14%
Gogledd Iwerddon	* 30%	22%	23%	* 15%	* 9%
Yr Alban	32%	26%	22%	13%	7%

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.
Mae seren (*) yn nodi canrannau sy'n sylweddol wahanol i'r canrannau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.
Mae'n bosibl na fydd y canrannau unigol yn dod i gyfanswm o 100% gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

7.6 Sut gwnaeth dysgwyr berfformio dros amser?


7.6.1 Gwyddoniaeth

Mae Ffigur 7.5 yn dangos, yng Nghymru, fod tuedd sefydlog o ran sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr rhwng PISA 2015 (485) a PISA 2025 (476). Nid oedd sgôr gyfartalog dysgwyr yn 2025 yn sylweddol wahanol i'r sgôr yn 2022 (473), ond roedd yn sylweddol is na'r sgôr yn 2018 (488).

Fel yng Nghymru, roedd tueddiadau sefydlog ar gyfer dysgwyr yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban rhwng 2015 a 2025. Nid oedd sgorau gwyddoniaeth cyfartalog dysgwyr ar gyfer 2025 yn y gwledydd hyn ychwaith yn sylweddol wahanol i'r sgorau cyfatebol yn 2022 a 2018 ac eithrio mewn un achos lle cyflawnodd dysgwyr yn Lloegr yn PISA 2025 (516) sgôr gyfartalog a oedd yn sylweddol uwch na'r sgôr yn 2022 (503).

Ffigur 7.5 Tuedd o ran sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr yn ôl gwlad

Sgôr gwyddoniaeth gyfartalog gyffredinol



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	485	* 488	473	476
Lloegr	512	507	* 503	516

Gwlad	2015	2018	2022	2025
Gogledd Iwerddon	500	491	488	492
Yr Alban	497	490	483	491

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Mae seren () yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.*

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015


7.6.2 Darllen

Mae Ffigur 7.6 yn dangos, yng Nghymru, nad oedd sgôr darllen gyfartalog dysgwyr yn 2025 (459) yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfatebol yn 2022 (466). I'r gwrthwyneb, roedd y sgôr yn 2025 (459) yn sylweddol is na'r sgorau yn 2018 (483) a 2015 (477) gan adlewyrchu tuedd glir ar i lawr dros amser.

Yn Lloegr, roedd y duedd o ran sgorau darllen cyfartalog dysgwyr yn sefydlog rhwng 2015 (500) a 2025 (497), fel yr oedd wrth gymharu â 2022 a 2018 (496 a 505 yn y drefn honno). Fel yng Nghymru, nid oedd sgôr darllen gyfartalog dysgwyr yng Ngogledd Iwerddon yn 2025 (482) yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfatebol yn 2022 (485) ond roedd yn sylweddol is na'r sgorau yn 2018 (501) a 2015 (497) sydd hefyd yn adlewyrchu tuedd ar i lawr dros amser. Yn yr Alban, fel yn Lloegr, cafwyd tuedd sefydlog o ran sgorau cyfartalog dysgwyr rhwng 2015 (493) a 2025 (488). Nid oedd y sgôr gyfartalog ar gyfer ei dysgwyr yn 2025 (488) yn sylweddol wahanol i'r sgôr yn 2022 (493) ond roedd yn sylweddol is na'r sgôr yn 2018 (504).

Ffigur 7.6 Tuedd o ran sgôr darllen gyfartalog dysgwyr yn ôl gwlad

Sgôr darllen gyfartalog gyffredinol



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	* 477	* 483	466	459
Lloegr	500	505	496	497
Gogledd Iwerddon	* 497	* 501	485	482
Yr Alban	493	* 504	493	488

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Mae seren () yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.*

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015


7.6.3 Mathemateg

Mae Ffigur 7.7 yn dangos, yng Nghymru, fod tuedd sylweddol ar i lawr o ran sgôr mathemateg gyfartalog dysgwyr rhwng PISA 2015 (478) a 2025 (456). Yn yr un modd,

roedd sgôr gyfartalog dysgwyr yn 2025 (456) yn sylweddol is na'r sgorau cyfatebol yn 2022 (466) a 2018 (487).

Yn Lloegr mae'r duedd o ran sgorau cyfartalog dysgwyr wedi bod yn sefydlog dros y tymor hwy heb unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y sgôr yn 2015 (493) a 2025 (492). Roedd hyn hefyd yn wir wrth gymharu'r sgôr yn 2025 (492) â'r sgôr yn 2022 (492) ond roedd y sgôr yn 2025 yn sylweddol is na'r sgôr yn 2018. Roedd y sgorau cyfartalog yn 2025 ar gyfer dysgwyr yng Ngogledd Iwerddon (473) a'r Alban (467), fel yng Nghymru, yn sylweddol is na'r sgorau cyfatebol yn 2015 (493 a 489 yn y drefn honno) gan adlewyrchu tueddiadau ar i lawr dros y tymor hwy. Yn y ddwy wlad, roedd sgôr gyfartalog dysgwyr yn 2025 hefyd yn sylweddol is na'r sgôr yn 2018 ond nid oedd yn sylweddol wahanol i'r sgôr yn 2022.

Ffigur 7.7 Tuedd o ran sgôr mathemateg gyfartalog dysgwyr yn ôl gwlad



Gwlad	2015	2018	2022	2025
Cymru	* 478	* 487	* 466	456
Lloegr	493	* 504	492	492
Gogledd Iwerddon	* 493	* 492	475	473

Gwlad	2015	2018	2022	2025
Yr Alban	* 491	* 489	471	467

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Mae seren (*) yn nodi bod y sgôr a ddangosir yn sylweddol wahanol i'r sgôr gyfartalog yn y wlad honno ar gyfer PISA 2025.

Mae'r cylchoedd PISA lle na lwyddwyd i gyrraedd holl safonau samplu PISA wedi'u nodi â phwynt gwyn yn y ffigur.

Ffynhonnell: Cronfeydd data PISA yr OECD ar gyfer 2025, 2022, 2018 a 2015

7.7 Sut gwnaeth y dysgwyr â'r perfformiad uchaf a'r dysgwyr â'r perfformiad isaf gyflawni?

Mae'r adran hon yn cymharu perfformiad y grwpiau â'r cyflawniad uchaf a'r grwpiau â'r cyflawniad isaf ym mhob un o wledydd y DU. Mae Ffigur 7.8 yn dangos sgorau'r 10fed a'r 90ain canradd ar gyfer gwyddoniaeth, darllen a mathemateg ar gyfer pob un o wledydd y DU ac mae'n darparu'r gwahaniaeth (yr ystod ryngddegradd, wedi'i byrhau i 'ystod') rhwng y ddwy sgôr hyn.

7.7.1 Gwyddoniaeth

Mewn gwyddoniaeth yn PISA 2025, nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng ystod sgorau dysgwyr yng Nghymru (261) o gymharu â'r ystodau ar gyfer dysgwyr yng Ngogledd Iwerddon (261) a'r Alban (255). I'r gwrthwyneb, roedd ystod sgorau dysgwyr yng Nghymru yn sylweddol gulach na'r ystod ar gyfer dysgwyr yn Lloegr (274). Y rheswm dros hyn oedd perfformiad sylweddol gryfach dysgwyr yn Lloegr ar y 90ain canradd (45 o bwyntiau yn uwch).

7.7.2 Darllen


Mewn darllen, nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng ystod sgorau dysgwyr yng Nghymru (258) o gymharu â'r ystodau cyfatebol yn Lloegr (257) a Gogledd Iwerddon (257). I'r gwrthwyneb, roedd yr ystod ar gyfer dysgwyr yng Nghymru yn sylweddol fwy na'r ystod gyfatebol yn yr Alban (244). Y prif reswm dros hyn oedd perfformiad sylweddol gryfach dysgwyr yn yr Alban ar y 10fed canradd (18 o bwyntiau yn uwch na dysgwyr yng Nghymru).

7.7.3 Mathemateg

Mewn mathemateg, nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng ystod sgorau dysgwyr yng Nghymru (249) o gymharu â'r ystodau ar gyfer dysgwyr yng Ngogledd Iwerddon (258) a'r Alban (240). I'r gwrthwyneb, roedd ystod sgorau dysgwyr yng Nghymru (249) yn sylweddol gulach na'r ystod gyfatebol yn Lloegr (268). Y prif reswm dros y gwahaniaeth hwn oedd bod dysgwyr yn Lloegr wedi cyflawni sgôr gyfartalog ar y 90ain

canradd (627) a oedd 46 o bwyntiau sgôr yn uwch na'r sgôr gyfatebol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru (581).

Ffigur 7.8 Ystod rhwng sgorau dysgwyr ar y 10fed a'r 90ain canradd mewn gwyddoniaeth, darllen a mathemateg yn ôl gwlad



Gwlad a maes	10fed canradd	90ain canradd	Ystod ryngddegradd
Gwyddoniaeth Cymru	345	606	261
Gwyddoniaeth Lloegr	* 377	* 651	* 274
Gwyddoniaeth Gogledd Iwerddon	* 359	* 620	261
Gwyddoniaeth Yr Alban	*365	* 620	255
Darllen Cymru	327	585	258
Darllen Lloegr	* 367	* 624	257
Darllen Gogledd Iwerddon	* 348	* 605	257

Gwlad a maes	10fed canradd	90ain canradd	Ystod ryngddegradd
Darllen Yr Alban	* 366	* 610	* 244
Mathemateg Cymru	331	581	249
Mathemateg Lloegr	* 359	* 627	* 268
Mathemateg Gogledd Iwerddon	343	* 601	258
Mathemateg Yr Alban	* 349	590	240

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Cyfrifwyd yr ystodau rhyngddegradd fel y sgôr gyfartalog ar y 90ain canradd – y sgôr gyfartalog ar y 10fed canradd.

Mae seren (*) yn nodi sgôr neu ystod arwyddocaol sy'n sylweddol wahanol i'r sgôr neu'r ystod gyfatebol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.

Mae'n bosibl y bydd yr ystodau yn ymddangos yn anghyson gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

7.8 Sut gwnaeth merched a bechgyn berfformio?

Mae'r adran hon yn darparu sgorau cyfartalog PISA ar gyfer merched a bechgyn ym mhob maes pwnc ym mhob un o wledydd y DU. Yn y tablau canlynol, pennwyd y bwlch rhwng y sgorau hyn drwy ystyried sgôr gyfartalog merched minws sgôr gyfartalog bechgyn. Mae gwahaniaeth positif yn cynrychioli bwlch rhywedd o blaid merched ac mae gwahaniaeth negatif yn cynrychioli bwlch rhywedd o blaid bechgyn.

7.8.1 Gwyddoniaeth

Mae Tabl 7.1 yn dangos sgorau gwyddoniaeth cyfartalog PISA yn ôl rhywedd. Nid oedd y sgôr gyfartalog ar gyfer merched yng Nghymru (476) yn sylweddol wahanol i'r sgôr ar gyfer bechgyn (475). Yn yr un modd, nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng sgorau cyfartalog merched a sgorau cyfartalog bechgyn yng Ngogledd Iwerddon (494 a 491 yn y drefn honno) a'r Alban (490 a 493 yn y drefn honno). I'r gwrthwyneb, yn Lloegr, roedd y sgôr gyfartalog ar gyfer merched (509) yn sylweddol is na'r sgôr ar gyfer bechgyn (522), sef bwlch o –13 o bwyntiau.

Roedd y bwlch rhwng sgorau merched a bechgyn yng Nghymru (2 bwynt) yn sylweddol lai na'r bwlch cyfatebol yn Lloegr (–13 o bwyntiau) ond nid oedd yn sylweddol wahanol i'r bylchau cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon (2 bwynt) a'r Alban (–3 phwynt)⁷².

⁷² Nid yw'r profion arwyddocaol hyn (i ganfod a oes gwahaniaethau sylweddol rhwng y bwlch rhywedd gwyddoniaeth yng Nghymru a bylchau cyfatebol mewn gwledydd eraill) wedi'u cynrychioli yn Nhabl 7.1. Mae seren (*) yn Nhabl 7.1 yn nodi bwlch rhywedd sylweddol o fewn gwlad.

Tabl 7.1 Gwahaniaeth yn sgôr gwyddoniaeth gyfartalog dysgwyr yn ôl rhywedd yn ôl gwlad

Gwlad	Merched	Bechgyn	Bwlch
Cymru	476	475	2
Lloegr	509	522	* -13
Gogledd Iwerddon	494	491	2
Yr Alban	490	493	-3

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Cyfrifwyd y bylchau rhywedd fel sgôr gyfartalog merched – sgôr gyfartalog bechgyn. Mae gwahaniaeth positif yn cynrychioli gwahaniaeth yn ôl rhywedd o blaid merched ac mae gwahaniaeth negatif yn cynrychioli gwahaniaeth yn ôl rhywedd o blaid bechgyn.

Mae'n bosibl y bydd rhai canlyniadau yn ymddangos yn anghyson gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Mae seren () yn nodi bod sgorau cyfartalog merched yn sylweddol wahanol i sgorau cyfartalog bechgyn o fewn cylchoedd PISA unigol.*

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

7.8.2 Darllen

Mae Tabl 7.2 yn dangos sgorau darllen cyfartalog PISA yn ôl rhywedd ar gyfer pob gwlad. Ar gyfer darllen, roedd sgorau cyfartalog merched yn sylweddol uwch na sgorau bechgyn ym mhob un o 4 gwlad y DU. Nid oedd y bwlch ar gyfer dysgwyr yng Nghymru (26 o bwyntiau) yn sylweddol wahanol i'r bylchau cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban (30 o bwyntiau yr un) ond roedd yn sylweddol fwy na'r bwlch ar gyfer dysgwyr yn Lloegr (11 o bwyntiau)⁷³.

Tabl 7.2 Gwahaniaeth yn sgôr darllen gyfartalog dysgwyr yn ôl rhywedd yn ôl gwlad

Gwlad	Merched	Bechgyn	Bwlch
Cymru	472	446	* 26
Lloegr	503	492	* 11
Gogledd Iwerddon	497	467	* 30
Yr Alban	503	473	* 30

⁷³ Nid yw'r profion arwyddocâd hyn (i ganfod a oes gwahaniaethau sylweddol rhwng y bwlch rhywedd darllen yng Nghymru a bylchau cyfatebol mewn gwledydd eraill) wedi'u cynrychioli yn Nhabl 7.2. Mae seren (*) yn Nhabl 7.2 yn nodi bwlch rhywedd sylweddol o fewn gwlad.

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Cyfrifwyd y bylchau rhywedd fel sgôr gyfartalog merched – sgôr gyfartalog bechgyn. Mae gwahaniaeth positif yn cynrychioli gwahaniaeth yn ôl rhywedd o blaid merched ac mae gwahaniaeth negatif yn cynrychioli gwahaniaeth yn ôl rhywedd o blaid bechgyn.

Mae'n bosibl y bydd rhai canlyniadau yn ymddangos yn anghyson gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Mae seren () yn nodi bod sgorau cyfartalog merched yn sylweddol wahanol i sgorau cyfartalog bechgyn o fewn cylchoedd PISA unigol.*

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

7.8.3 Mathemateg

Mae Tabl 7.3 yn dangos bod sgorau mathemateg cyfartalog merched yn sylweddol is na sgorau bechgyn yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (bylchau o -12 , -26 a -16 yn y drefn honno). Yng Ngogledd Iwerddon, nid oedd gwahaniaeth sylweddol (-9). Nid oedd y bwlch ar gyfer dysgwyr yng Nghymru (-12) yn sylweddol wahanol i'r bylchau cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon (-9) na'r Alban (-16) ond roedd yn sylweddol gulach na'r bwlch yn Lloegr (-26)⁷⁴.

Tabl 7.3 Gwahaniaeth yn sgôr mathemateg gyfartalog dysgwyr yn ôl rhywedd yn ôl gwlad

Gwlad	Merched	Bechgyn	Bwlch
Cymru	450	462	* -12
Lloegr	478	504	* -26
Gogledd Iwerddon	469	478	-9
Yr Alban	459	475	* -16

⁷⁴ Nid yw'r profion arwyddocâd hyn (i ganfod a oes gwahaniaethau sylweddol rhwng y bwlch rhywedd mathemateg yng Nghymru a'r bwlch cyfatebol mewn gwledydd eraill) wedi'u cynrychioli yn Nhabl 7.3. Mae seren (*) yn Nhabl 7.3 yn nodi bwlch rhywedd sylweddol o fewn gwlad.

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Cyfrifwyd y bylchau rhywedd fel sgôr gyfartalog merched – sgôr gyfartalog bechgyn. Mae gwahaniaeth positif yn cynrychioli gwahaniaeth yn ôl rhywedd o blaid merched ac mae gwahaniaeth negatif yn cynrychioli gwahaniaeth yn ôl rhywedd o blaid bechgyn. Mae'n bosibl y bydd rhai canlyniadau yn ymddangos yn anghyson gan eu bod wedi'u talgrynnu. Mae seren () yn nodi bod sgorau cyfartalog merched yn sylweddol wahanol i sgorau cyfartalog bechgyn o fewn cylchoedd PISA unigol. 7.9*

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA yr OECD ar gyfer 2025

7.9 Beth oedd y berthynas rhwng statws economaidd-gymdeithasol a pherfformiad dysgwyr?

Mae'r adran hon yn ystyried perfformiad gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol o gymharu â'i gilydd ar draws gwledydd y DU. Fel yn y penodau blaenorol, caiff dysgwyr eu rhannu'n chwarteli yn seiliedig ar eu sgôr ar fynegai PISA o statws economaidd, cymdeithasol a diwylliannol (ESCS). Mae Chwartzel 1 yn cynrychioli'r dysgwyr mwyaf difreintiedig ac mae Chwartzel 4 yn cynrychioli'r dysgwyr lleiaf difreintiedig. Cyfrifwyd yr ystodau rhyngchwartzel (wedi'u byrhau i 'ystodau') fel sgôr gyfartalog Chwartzel 4 minws sgôr gyfartalog Chwartzel 1 i ddangos amrediad cyrhaeddiad dysgwyr yn ôl statws economaidd-gymdeithasol. Mae Ffigur 7.9 yn dangos sgorau maes cyfartalog dysgwyr yn Chwartzel 1 a Chwartzel 4 yn ogystal â'r ystod o ran sgorau rhwng y chwartzeli hyn ar gyfer pob un o wledydd y DU.

7.9.1 Gwyddoniaeth

Nid oedd ystod y sgorau gwyddoniaeth cyfartalog yng Nghymru (65 o bwyntiau) rhwng dysgwyr yn Chwartzel 1 (450) a Chwartzel 4 (515) yn sylweddol wahanol i'r ystodau cyfatebol yn Lloegr (81 o bwyntiau), Gogledd Iwerddon (82 o bwyntiau) na'r Alban (72 o bwyntiau).


7.9.2 Darllen

Nid oedd ystod y sgorau darllen cyfartalog yng Nghymru (50 o bwyntiau) rhwng dysgwyr yn Chwartzel 1 (442) a Chwartzel 4 (491) yn sylweddol wahanol i'r ystodau cyfatebol yn Lloegr (66 o bwyntiau), Gogledd Iwerddon (66 o bwyntiau) na'r Alban (50 o bwyntiau).

7.9.3 Mathemateg

Nid oedd ystod y sgorau mathemateg cyfartalog yng Nghymru (70 o bwyntiau) rhwng dysgwyr yn Chwartzel 1 (426) a Chwartzel 4 (496) yn sylweddol wahanol i'r ystod gyfatebol yn yr Alban (70 o bwyntiau) ond roedd yn sylweddol gulach na'r bylchau yn Lloegr (89 o bwyntiau) a Gogledd Iwerddon (90 o bwyntiau).

Ffigur 7.9 Ystodau rhwng sgorau cyfartalog dysgwyr yn Chwartzeli 1 a 4 ESCS PISA yn ôl gwledydd y DU



Gwlad a maes	Chwartzel 1 ESCS	Chwartzel 4 ESCS	Ystod Ryngchwartzel
Gwyddoniaeth Cymru	448	513	65
Gwyddoniaeth Lloegr	* 483	* 565	81
Gwyddoniaeth Gogledd Iwerddon	* 459	* 542	82
Gwyddoniaeth Yr Alban	* 462	* 534	72
Darllen Cymru	442	491	50
Darllen Lloegr	* 473	* 539	66
Darllen Gogledd Iwerddon	* 458	* 524	66
Darllen Yr Alban	* 470	* 520	50
Mathemateg Cymru	426	496	70

Gwlad a maes	Chwartel 1 ESCS	Chwartel 4 ESCS	Ystod Ryngchwartel
Mathemateg Lloegr	* 455	* 544	* 89
Mathemateg Gogledd Iwerddon	437	* 527	* 90
Mathemateg Yr Alban	438	508	70

Sail: Pob dysgwr a gymerodd ran â data ESCS yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae seren () yn nodi sgorau ac ystodau cyfartalog sy'n sylweddol wahanol i'r rhai ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.*

Cyfrifwyd yr ystod fel sgôr gyfartalog Chwartel 4 – sgôr gyfartalog Chwartel 1.

Mae'n bosibl y bydd yr ystodau yn ymddangos yn anghyson â'r sgorau chwartel gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Gall canlyniadau profion arwyddocâd dwy wlad â'r un ystod o ran sgorau fod yn wahanol oherwydd gwahanol feintiau samplau a thalgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa Ddata PISA 2025 yr OECD

8 Casgliad

Cyflwynodd Cyfrol 1 o Adroddiad Cenedlaethol Cymru PISA 2025 drosolwg o gyflawniad dysgwyr mewn gwyddoniaeth, darllen a mathemateg gan ddefnyddio fframweithiau PISA ar gyfer gwyddoniaeth, darllen a mathemateg. Cyflawnodd dysgwyr yng Nghymru sgôr gyfartalog o 476 mewn gwyddoniaeth, a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 482. Mewn darllen, gwnaethant gyflawni sgôr gyfartalog o 459, nad oedd yn sylweddol wahanol i gyfartaledd yr OECD, sef 461, ac mewn mathemateg, cyflawnodd dysgwyr sgôr gyfartalog o 456, a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 463. Mae Penodau 2–4 wedi adrodd yn fanwl ar gymariaethau rhwng y sgorau hyn a'r gwahaniaethau rhwng y dysgwyr sy'n perfformio uchaf ac isaf â'r rhai mewn gwledydd eraill, gan wneud sylwadau ar dueddiadau dros amser a phrofi am arwyddocâd lle y bo'n briodol.

Yn PISA 2025, cyflawnodd merched a bechgyn sgorau cyfartalog tebyg ar gyfer gwyddoniaeth, sef 476 a 475 yn y drefn honno, heb unrhyw fwlch rhywedd sylweddol. Mewn darllen, cyflawnodd merched sgôr gyfartalog o 472, a oedd yn sylweddol uwch na sgôr gyfartalog bechgyn, sef 446. Fodd bynnag, cafodd y bwlch rhywedd ei wyrddroi mewn mathemateg, gyda merched yn cyflawni sgôr gyfartalog o 450 a oedd yn sylweddol is na sgôr gyfartalog bechgyn, sef 462. Ar Fynegai ESCS, sgôr gyfartalog Cymru oedd +0.14, sy'n dangos bod statws economaidd-gymdeithasol dysgwyr yng Nghymru, ar gyfartaledd, yn uwch na chyfartaledd yr OECD. Y gwahaniaeth rhwng y grwpiau mwyaf a lleiaf difreintiedig oedd 65 o bwyntiau mewn gwyddoniaeth, 50 o bwyntiau mewn darllen a 70 o bwyntiau mewn mathemateg yng Nghymru. Ar draws gwledydd yr OECD, roedd y gwahaniaethau cyfartalog mewn gwyddoniaeth, darllen a mathemateg yn sylweddol ehangach nag yng Nghymru. Mae Penodau 5 a 6 wedi disgrifio cyflawniadau gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn fanwl. Yng Nghymru, roedd sgorau cyfartalog dysgwyr mewn gwyddoniaeth, darllen a mathemateg yn sylweddol is na'r sgorau cyfatebol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Bydd Cyfrol 2 o Adroddiad Cenedlaethol Cymru PISA 2025 yn adrodd ar batrymau cyflawniad ar draws is-feysydd gwyddoniaeth a datrys problemau cyfrifiadurol. Caiff agweddau ar lesiant dysgwyr, eu dyheadau a'u profiadau o addysgu a dysgu eu trafod, yn ogystal â chanfyddiadau allweddol o'r holiaduron a gwblhawyd gan y dysgwyr a'r ysgolion a gymerodd ran.

Atodiad A: Dadansoddiad o'r duedd diffyg ymateb yng Nghymru

A.1 Cyflwyniad

A.1.1 Beth yw dadansoddiad o'r duedd diffyg ymateb?

Mae asesiadau rhyngwladol fel PISA wedi'u cynllunio i lunio casgliadau am boblogaethau dysgwyr cenedlaethol. Mae cyflawni hyn yn dibynnu ar gael samplau o ddysgwyr ym mhob gwlad sy'n cymryd rhan sy'n cynrychioli poblogaethau dysgwyr cenedlaethol y wlad honno yn gywir.

Mae'r dulliau samplu a ddefnyddir yn PISA wedi'u cynllunio i sicrhau bod yr ysgolion sy'n cymryd rhan, a'r dysgwyr sy'n cymryd rhan yn yr ysgolion hynny, yn adlewyrchu'r boblogaeth darged yn ddigonol. Fodd bynnag, gall ysgolion a dysgwyr yng Nghymru ddewis peidio â chymryd rhan yn yr astudiaeth. Gall y diffyg ymateb hwn ddigwydd ar hap, ond mae hefyd yn bosibl bod gan y rhai na fyddant yn ymateb nodweddion sy'n golygu bod y sampl a gyflawnir yn llai cynrychioliadol o'r boblogaeth darged.

Mae dadansoddiad o'r duedd diffyg ymateb yn ymchwilio i weld a yw'r achosion o ddiffyg ymateb wedi effeithio ar ba mor gynrychioliadol yw'r sampl a gyflawnwyd ac, o ganlyniad, ddilysrwydd y canlyniadau a gyflwynir. Yn y dadansoddiad hwn o ddata PISA, gwnaethom ystyried a oedd yr ysgolion a'r dysgwyr a wnaeth ymateb a'r ysgolion a'r dysgwyr na wnaethant ymateb yn sampl genedlaethol Cymru yn wahanol o ran eu nodweddion. Os bydd achosion o ddiffyg ymateb yn gysylltiedig mewn ffordd systematig â nodweddion sydd hefyd yn gysylltiedig â chanlyniadau PISA, mae'n bosibl y bydd y canlyniadau a gyflwynir yn dangos tuedd. Er enghraifft, os oedd ysgolion â lefelau uwch o ddysgwyr sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim wedi'u tangynrychioli yn y sampl derfynol, efallai na fydd y sampl a gyflawnwyd yn adlewyrchu'r boblogaeth ddysgwyr genedlaethol yn gywir mwyach, a allai effeithio ar ddilysrwydd y canfyddiadau a gyflwynir.

A.1.2 Sut cafodd ysgolion a dysgwyr eu dewis i gymryd rhan yn PISA?

I ddewis samplau cenedlaethol pob gwlad sy'n cymryd rhan, mae PISA yn mabwysiadu cynllun samplu haenedig sy'n cynnwys dau gam. Mae'r cam cyntaf yn canolbwyntio ar ddewis ysgolion. Mae'r ail gam yn canolbwyntio ar ddewis dysgwyr yn yr ysgolion a gytunodd i gymryd rhan yn yr astudiaeth.

Ym mhob gwlad, mae'r tebygolrwydd y bydd ysgol unigol yn cael ei dewis yn seiliedig ar yr amcangyfrif o nifer y dysgwyr cymwys o ran oedran yn yr ysgol, yn ogystal â ffactorau penodol i'r wlad sy'n adlewyrchu strwythur cenedlaethol ysgolion. Yng Nghymru, dewiswyd dau ffactor ychwanegol fel haen samplu benodol a gyfrannodd at y tebygolrwydd y byddai ysgol yn cael ei dewis; y rhanbarth yng Nghymru (Canol De Cymru, Gogledd Cymru, Ddwyrain neu Dde-orllewin Cymru a Chanolbarth Cymru), a'r math o ysgol (ysgolion

annibynnol neu ysgolion a gynhelir). Yn y rhan fwyaf o systemau addysg, ar gyfer pob ysgol a ddewiswyd fel rhan o'r sampl gychwynnol, nodwyd dwy ysgol wrth gefn hefyd â nodweddion tebyg i'r ysgol a oedd yn rhan o'r sampl wreiddiol. Nid oedd modd gwneud hynny yng Nghymru, gan nad oedd digon o ysgolion o fewn pob haen benodol.

Mae'r ail gam yn dewis 40 o ddysgwyr cymwys⁷⁵ ar hap o fewn pob ysgol sy'n rhan o'r sampl. Mae'r OECD yn ei gwneud yn ofynnol bod pob dysgwr sy'n cymryd rhan rhwng 15 oed a 3 mis ac 16 oed a 2 fis ar ddechrau'r cyfnod casglu data. Mae gan bob dysgwr sy'n gymwys o ran oedran mewn ysgol yr un tebygolrwydd o gael ei ddewis i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Gellir atal dysgwyr rhag cymryd rhan yn yr astudiaeth os oes ganddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) neu os nad oes ganddynt ddigon o brofiad ieithyddol o'r Gymraeg neu'r Saesneg a fyddai'n effeithio ar eu gallu i sefyll yr asesiadau. Gall dysgwyr a ddewisir hefyd ddewis peidio â chymryd rhan yn yr asesiad. Roedd sampl PISA yng Nghymru yn cynnwys 130 o ysgolion cymwys oedd ag o leiaf un dysgwr yn yr ystod oedran hon.

O'r 130 o ysgolion gwreiddiol hyn, cytunodd 102 i gymryd rhan. Cytunodd 11 o ysgolion ychwanegol wrth gefn i gymryd rhan, gan arwain at sampl derfynol o 113 o ysgolion a oedd yn cymryd rhan. Casglwyd data perfformiad ar gyfer 3,406 o'r 4,461 o ddysgwyr a oedd yn rhan o'r sampl yn yr ysgolion a gymerodd ran. Ni chaiff dysgwyr eraill eu dewis yn lle dysgwyr sy'n dewis peidio â chymryd rhan yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan.

A.1.3 Cwestiynau allweddol am sampl genedlaethol Cymru

Nod y dadansoddiad o'r duedd diffyg ymateb hwn oedd ateb y cwestiynau canlynol am sampl genedlaethol Cymru:

A oedd unrhyw nodweddion penodol yn gyffredin ymhlith yr ysgolion a oedd yn rhan o'r sampl wreiddiol a ddewisodd beidio â chymryd rhan, ac a roddwyd ystyriaeth ddigonol i'r nodweddion hyn wrth gyflwyno ysgolion wrth gefn i gymryd rhan?

A oedd unrhyw nodweddion penodol yn gyffredin ymhlith y dysgwyr a ddewiswyd a ddewisodd beidio â chymryd rhan, ac i ba raddau y mae'r dysgwyr a gymerodd ran yn adlewyrchu'r boblogaeth ddysgwyr genedlaethol a fyddai wedi bod yn gymwys i gymryd rhan yn yr astudiaeth?

Mae'r atebion i'r cwestiynau hyn yn ein helpu i ddeall pa mor gynrychioliadol oedd y set derfynol o ddysgwyr a gymerodd ran o gymharu â phoblogaeth gyfan y dysgwyr sy'n gymwys ar gyfer PISA yng Nghymru, ac felly, pa mor gynrychioliadol yw canfyddiadau cenedlaethol PISA 2025.

⁷⁵ Dewiswyd 40 o ddysgwyr o bob ysgol oni bai bod llai na 40 o ddysgwyr cymwys mewn ysgol.

A.2 Methodoleg

A.2.1 Dadansoddiadau ar lefel ysgolion

Roedd y dadansoddiadau ar lefel ysgolion yn cynnwys dau gam:

Dadansoddiad o'r sampl wreiddiol o ysgolion (cyn cynnwys yr ysgolion wrth gefn)

Gwnaethom gymharu nodweddion yr ysgolion a gymerodd ran a oedd yn rhan o'r sampl wreiddiol ($n = 102$) â'r set gyfan o ysgolion a oedd yn rhan o'r sampl wreiddiol ($N = 130$). Cynhaliwyd y dadansoddiad hwn gan ddefnyddio pwysoliadau sylfaenol ysgolion.

Dadansoddiad o'r sampl derfynol o ysgolion a gymerodd ran (gan gynnwys yr ysgolion wrth gefn)

Gwnaethom gymharu nodweddion y set gyfan o'r holl ysgolion a gymerodd ran ($n = 113$) â'r set gyfan o ysgolion a oedd yn rhan o'r sampl wreiddiol ($N = 130$).

Defnyddiodd y dadansoddiad hwn bwysoliadau wedi'u haddasu ar gyfer diffyg ymateb ysgolion.

Ymchwiliodd cam cyntaf y dadansoddiad i'r duedd bosibl yn deillio o ddiffyg ymateb ysgolion (peidio â chymryd rhan). Ymchwiliodd ail gam y dadansoddiad i ystyried sut y cafodd unrhyw duedd bosibl a nodwyd yn ystod y cam cyntaf ei lliniaru (neu o bosibl, ei chyflwyno) drwy gynnwys ysgolion wrth gefn a chyflwyno addasiadau diffyg ymateb i bwysoliadau ysgolion.

Cynhaliwyd pob dadansoddiad ar lefel ysgolion ddwywaith; unwaith gan ddefnyddio pwysoliadau sylfaenol ysgolion neu bwysoliadau wedi'u haddasu ar gyfer diffyg ymateb, ac eilwaith gan ddefnyddio'r pwysoliad a ddewiswyd wedi'i luosi â nifer y dysgwyr a oedd yn gymwys ar gyfer PISA ar lefel yr ysgol. Mae hyn yn rhoi amcangyfrif o ran poblogaeth dysgwyr 15 oed yr arolwg yng Nghymru ar gyfer pob nodwedd.

Cafodd data lefel ysgolion o PISA eu paru â data nodweddion ysgolion gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y newidynnau canlynol a barwyd eu cynnwys yn y dadansoddiadau ar lefel ysgolion:

Canran y dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Canran y dysgwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt (SIY).

Canran y dysgwyr sydd wedi bod yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar gyfartaledd dros y 3 blynedd ddiwethaf.

Yn ogystal, cafodd bandiau cyrhaeddiad ysgolion y newidyn haenu (1–5, neu ar goll) hefyd eu cynnwys yn y dadansoddiadau hyn.

A.2.2 Dadansoddiadau ar lefel dysgwyr

Roedd y dadansoddiad ar lefel dysgwyr yn cynnwys dau gam:

Dadansoddiad o'r dysgwyr a gymerodd ran a'r dysgwyr na wnaethant gymryd rhan

Gwnaethom gymharu dosbarthiad y dysgwyr a gymerodd ran yng Nghymru ($n = 3,406$) â dosbarthiad yr holl ddysgwyr a oedd yn rhan o'r sampl yn yr astudiaeth ($n = 4,461$). Nodwch mai dim ond dysgwyr sy'n rhan o'r sampl yn yr ysgolion a gymerodd ran, ac nid dysgwyr o'r ysgolion a oedd yn rhan o'r sampl na wnaethant gymryd rhan yn yr astudiaeth, y mae'r dadansoddiad hwn yn eu cynnwys. Cafodd dysgwyr eu pwysoli yn ôl pwysoliadau sylfaenol dysgwyr.

Dadansoddiad o'r sampl derfynol o ddysgwyr a gymerodd ran gan ddefnyddio'r pwysoliadau wedi'u haddasu ar gyfer diffyg ymateb

Gwnaethom gymharu dosbarthiad y dysgwyr a gymerodd ran ($n = 3,406$) cyn ac ar ôl cymhwyso'r pwysoliadau dysgwyr wedi'u haddasu ar gyfer diffyg ymateb. Gwnaed cymariaethau hefyd â chyfanswm dosbarthiad y dysgwyr a oedd yn rhan o'r sampl ($N = 4,461$).

Cymharwyd dysgwyr yn yr ysgolion a gymerodd ran gan ddefnyddio'r newidynnau haenu penodol ar lefel ysgolion (math o ysgol⁷⁶ a rhanbarth yng Nghymru⁷⁷), yn ogystal â'r newidyn haenu ymhlyg ar lefel ysgolion (band cyrhaeddiad ysgolion).

A.2.3 Dadansoddiad ystadegol

Ar gyfer newidynnau categorïaidd, cymharwyd dosbarthiad nodweddion y sampl wreiddiol (naill ai ysgolion neu ddysgwyr) â'r dosbarthiad ar gyfer y rhai a gymerodd ran. Ar gyfer newidynnau di-dor, cyfrifwyd cymedrau cryno a chyfrifwyd y gwahaniaeth rhwng y cymedrau. Dangosir y duedd a'r duedd gymharol ym mhob tabl hefyd. Y duedd yw'r gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrifon perthnasol ar gyfer y rhai a gymerodd ran a chyfanswm y sampl. Cyfrifir y duedd gymharol fel y duedd wedi'i rhannu â'r amcangyfrif o gyfanswm y sampl. Mae'r duedd gymharol yn mesur maint y duedd o gymharu â'r amcangyfrif o gyfanswm y sampl.

A.3 Cymharu ysgolion a gymerodd ran ac ysgolion na wnaethant gymryd rhan

A.3.1 Dadansoddiad o'r sampl wreiddiol (cyn cynnwys yr ysgolion wrth gefn)

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r dadansoddiad o'r duedd diffyg ymateb yn seiliedig ar y sampl wreiddiol o 130 o ysgolion. Cymharwyd dosbarthiad yr ysgolion a gymerodd ran o'r

⁷⁶ Ysgolion annibynnol, ysgolion a gynhelir

⁷⁷ Canol De Cymru, Gogledd Cymru, De-ddwyrain Cymru, De-orllewin a Chanolbarth Cymru

sampl wreiddiol â chyfanswm y sampl wreiddiol. Defnyddiwyd pwysoliadau sylfaenol ysgolion ar gyfer cyfanswm y sampl wreiddiol a'r ysgolion a gymerodd ran.

Nid oedd unrhyw berthnasoedd a oedd yn arwyddocaol yn ystadegol rhwng statws cyfranogiad a band cyrhaeddiad yr ysgol. Roedd y tueddiadau yn fach ar y cyfan. Dim ond lle roedd gwybodaeth am y band cyrhaeddiad ar goll y gwelwyd tuedd gymharol a oedd yn fwy na gwerth absoliwt o 10% ar gyfer ysgolion, ac ar gyfer pob band cyrhaeddiad arall, roedd y duedd gymharol yn 10% ar y mwyaf, sy'n dangos nad oes unrhyw dystiolaeth gryf o duedd mewn perthynas â chyrhaeddiad ysgolion.

Tabl A.1 yr Atodiad: Dosbarthiad canrannol ysgolion a oedd yn rhan o sampl wreiddiol Cymru ar gyfer PISA 2025 yn ôl band cyrhaeddiad

Nodwedd yr ysgol	% wreiddiol	% a gymerodd ran	Tuedd	Tuedd gymharol
Band cyrhaeddiad 1 (isel)	22.0	19.7	2.3	0.10
Band cyrhaeddiad 2	23.7	25.0	-1.3	-0.05
Band cyrhaeddiad 4	24.7	23.6	1.1	0.05
Band cyrhaeddiad 5 (uchel)	20.3	20.7	-0.3	0.02
Band cyrhaeddiad ar goll	9.3	11.1	-1.8	-0.20

Pob ysgol a oedd yn rhan o'r sampl wreiddiol n = 130
Cyfrifwyd tuedd fel y gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrifon o'r ysgolion a gymerodd ran a chyfanswm y sampl (ysgolion a gymerodd ran a oedd yn rhan o'r sampl wreiddiol – pob ysgol a oedd yn rhan o'r sampl wreiddiol). Cyfrifwyd tuedd gymharol fel y duedd wedi'i rhannu â'r amcangyfrif o gyfanswm y sampl. Cafodd yr ysgolion eu pwysoli yn ôl pwysoliadau sylfaenol eu hysgol.

Ffynhonnell: OECD, PISA 2025. Yr Adran Addysg a Sgiliau (Cymru), 2025.

Pan gafodd yr ysgolion eu pwysoli yn ôl nifer y dysgwyr 15 oed cymwys sydd wedi'u cofrestru, roedd perthynas a oedd yn arwyddocaol yn ystadegol rhwng statws cyfranogiad a band cyrhaeddiad yr ysgol. Roedd y tueddiadau cymharol yn y band isaf a'r band a oedd ar goll yn fwy na gwerth absoliwt o 10% gan awgrymu bod dysgwyr mewn ysgolion yn y bandiau cyrhaeddiad isaf o bosibl wedi'u tangynrychioli yn y sampl derfynol fel y dangosir yn Nhabl A.2. Fodd bynnag, canran fach o'r sampl oedd y grŵp band cyrhaeddiad a oedd ar goll ac roedd y duedd yn sylweddol lai nag a nodwyd yn Nhabl A.1, sy'n dangos nad yw tuedd yn broblem fawr mewn perthynas â data coll ar y band cyrhaeddiad.

Tabl A.2 yr Atodiad: Dosbarthiad canrannol ysgolion wedi'u pwysoli yn ôl nifer y dysgwyr 15 oed cymwys sydd wedi'u cofrestru a oedd yn rhan o sampl wreiddiol Cymru ar gyfer PISA 2025 yn ôl band cyrhaeddiad

Nodwedd yr ysgol	% wreiddiol	% a gymerodd ran	Tuedd	Tuedd gymharol
Band cyrhaeddiad 1 (isel)	22.8	19.9	3.0	0.13
Band cyrhaeddiad 2	23.6	25.6	-2.0	-0.08
